



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR PENSIYNAU

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD LLUN, 24AIN TACHWEDD, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

NODER

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 17 Tachwedd 2025)

PWYLLGOR PENSIYNAU

AELODAETH (9)

Plaid Cymru (4)

Y Cynghorwyr

R Medwyn Hughes
Sedd Wag

Elin Hywel

Ioan Thomas

Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

John Pughe Roberts

John Brynmor Hughes

Llafur / Rhyddfrydol (1)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Aelodau Cyfetholedig (2)

Cyngorydd Robin Wyn Williams
Cyngorydd Goronwy Owen Edwards

Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 15 Medi 2025 fel rhai cywir

5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

9 - 62

I ystyried yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.

6. CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2025 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL

63 - 133

I ystyried adroddiad yr archwilydd, cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r llythyr.

7. CYNADLEDDAU PENSIWN

134 - 135

I ystyried a chymeradwyo rhestr o gynadleddau ar gyfer 2026

8. RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

136 - 143

I ystyried a derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2024/25

144 - 193

I adolygu a darparu adborth ar yr adroddiad.

10. GWEINYDDIAETH PENSIYNAU

194 - 200

I ystyried yr adroddiad

11. CYNLLUN GWELLA DATA

201 - 207

I ystyried yr adroddiad a darparu adborth

12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff Paragraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol(yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol awdurdod cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn amhriodol o ran buddiannau cydnabyddedig trydydd bartïon ac yn gallu tanseilio hyder i ddod a gwybodaeth ymlaen gerbron y Cyngor a felly gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau ar ran y gronfa. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau gwerth am arian a'r allbwn cyfansawdd gorau ac felly am y rhesymau yma mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

13. ADOLYGIAD O DDYRANIAD ASEDAU STRATEGOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD

I ystyried a chymeradwyo dyraniad asedau strategol arfaethedig y Gronfa

(copi i Aelodau'r Pwyllgor yn unig)

14. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO- ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01.04.2025-30.06.2025

I ystyried a nodi Adroddiad Chwarterol gan Robeco

(copi i Aelodau'r Pwyllgor yn unig)

PWYLLGOR PENSIYNAU 15-09-25

Presenoldeb: Cynghorydd Elin Hywel (Cadeirydd)
Cynghorydd John Pughe Roberts (Is gadeirydd)

Cynghorwyr: Stephen Churchman, Goronwy Edwards (Cyngor Sir Bwrdeistrefol Conwy), John Brynmor Hughes, R Medwyn Hughes, Ioan Thomas a Robin Williams (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion: Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Meirion Jones (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Iwan Huws

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Bu i'r Cadeirydd dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed o Fehefin 2025 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU (PPC)

Amlygodd y Rheolwr Buddsoddi bod yr adroddiad bellach yn un rheolaidd sy'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ar waith PPC ynghyd a phenderfyniadau cyfarfod mis Gorffennaf o'r Cydbwyllgor Llywodraethu (corff sy'n gwneud penderfyniadau dros y Bartneriaeth gyda Chadeirydd pob cronfa yn eistedd arno).

Cadarnhawyd bod yr archwiliad a'r Ffurflen Flynyddol wedi eu cymeradwyo ac nid oedd unrhyw fater wedi codi. Ategwyd bod y gwaith 'Prosiect Yr Wyddfa', sef sefydlu Cwmni Buddsoddi ar gyfer buddsoddiadau cronfeydd pensiwn LGPS yng Nghymru yn prysur symud yn ei flaen, a'r cam nesaf fydd cofrestru gyda'r FCA, (Financial Conduct Authority) erbyn diwedd mis Medi.

Cyflwynwyd hefyd ddiweddariad ar y cynllun hyfforddi, y cynllun busnes a'r gofrestr risg ac adolygwyd y polisiau buddsoddi cyfrifol, hinsawdd a stiwardiaeth. Cyfeiriwyd at fanylder gwaith y gweithredwr dros y cyfnod ac at amodau'r farchnad oedd wedi cael eu monitro ganddynt. Tynnwyd sylw at ddadansoddiad a pherfformiad yr is gronfeydd gan amlygu bod buddsoddiadau marchnadoedd preifat wedi ei lansio a bod gan Cronfa Bensiwn Gwynedd fuddsoddiadau mewn isadeiledd, credyd preifat ac ecwiti preifat, gyda gwaith yn parhau i geisio lansio buddsoddiadau eiddo, yn hwyrach yn yr Hydref. Gyda nifer o feysydd newydd, adroddwyd bod gwybodaeth ar bob maes yn unigol yn cael ei gyflwyno i'r cydbwyllgor ac mai ecwiti preifat a drafodwyd ym mis Gorffennaf.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw bod PPC yn parhau i gyfeirio at y prosiect fel Prosiect Snowdon Project ac nid Prosiect yr Wyddfa / Yr Wyddfa Project, nodwyd bod y sylw wedi cael ei gyflwyno i PPC, ac ar bob cyfle posib wedi hynny, y swyddogion wedi ceisio cyfleu'r enw cywir. Derbyniwyd y sylw bod gweddill y DU bellach yn defnyddio'r enw Yr Wyddfa a'r siom bod PPC, o bob sefydliad, yn methu cydnabod hyn. Er bod gwedd 1 (Prosiect yr Wyddfa) bellach wedi dod i ben, derbyniwyd yr awgrym i'r Cadeirydd, yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor, bwysu unwaith eto ar PPC i gyfeirio at Prosiect Snowdon fel Prosiect yr Wyddfa.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

Nodyn: Pwysu unwaith eto ar PPC i gyfeirio at Prosiect Snowdon Project fel Prosiect Yr Wyddfa

6. RHEOLAETH TRYSORLYS

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn adrodd ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2024/25, yn erbyn y Strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn Mawrth y 7fed 2024. Adroddwyd bod y flwyddyn wedi bod yn flwyddyn brysur a llewyrchus iawn i weithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor wrth i'r gweithgaredd aros o fewn y cyfyngiadau a osodwyd. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw fethiant i ad-dalu gan y sefydliadau roedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda nhw.

Adroddwyd bod £2.5m o log wedi ei dderbyn ar fuddsoddiadau sydd yn is na'r £2.7m oedd yn y gyllideb a hynny'n rhesymol o ystyried gostyngiad yn y gyfradd sylfaenol o 5.25% i 4.5%. Nodwyd bod yr incwm llog yn cael ei rannu gyda'r Gronfa Bensiwn ar sail balans dyddiol a'r Gronfa Bensiwn wedi derbyn £1.09 miliwn o incwm yn y flwyddyn dan sylw.

Adroddwyd, yng nghyd-destun gweithgareddau buddsoddi, bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi gyda Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Cronfeydd Marchnad Arian, Cronfeydd wedi'i pwlio, Awdurdodau Lleol a Swyddfa Rheoli Dyledion. Nodwyd bod y cronfeydd yn gyson gyda'r math o fuddsoddiadau sydd wedi eu gwneud ers nifer o flynyddoedd bellach.

Yng nghyd-destun adroddiad cydymffurfriad a dangosyddion, adroddwyd bod yr holl weithgareddau wedi cydymffurfio'n llawn gyda chod ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor - hynny yn newyddion da, ac yn dangos bod rheolaeth gadarn dros yr arian.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

7. ADRODDIAD DRAFFT CADEIRYDD Y PWYLLGOR PENSIYNAU AR GYFER ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GRONFA

Amlygodd y Rheolwr Pensiynau ei bod hi'n ofynnol bellach i Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau gyflwyno adroddiad blynyddol fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Gronfa

Bensiwn. Nodwyd bod yr adroddiad yn dilyn gosodiad adroddiad blynyddol Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn ac yn cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau craidd y Pwyllgor, hyfforddiant, cynllun gwaith, blaenoriaethau a chrynodeb o'r pynciau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

Adroddwyd bod angen cyflwyno'r adroddiad terfynol i'r Rheolwr Buddsoddi erbyn 30/9/2025 i'w gynnwys fel rhan o Adroddiad Blynyddol y Gronfa ac fel rhan o Gyfarfod Blynyddol y Gronfa Tachwedd 2025.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff oedd yn gysylltiedig â pharatoi'r gwaith. Gwnaed awgrym i gynnwys mwy o fanylion am sut mae'r Pwyllgor yn mynd ati i herio perfformiad a cheisio sicrwydd ansawdd - nid trafod buddsoddiadau yn unig, ond ceisio gyrru newid.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

Nodyn: Awgrym i gynnwys ym mharagraff 3 'Gwaith y Pwyllgor', gyfrifoldeb y Pwyllgor i herio, annog newid a cheisio sicrwydd ansawdd

8. COFRESTR RISG CRONFA BENSIWN GWYNEDD

Cyflwynwyd cofrestr risg ddiwygiedig i'r Pwyllgor fel modd iddynt adnabod a deall y risgiau perthnasol sydd i'r Gronfa Bensiwn. Tynnwyd sylw at y risgiau newydd oedd wedi eu hychwanegu - cydymffurfiaeth â Chod Cyffredinol Rheoleiddiwr Pensiynau (1.4), cyflawni gofynion y dashfwrdd (6.12), cyflwyno system gyflogres newydd (6.13) ac ymateb i ymgynghoriad 'Addas i'r Dyfodol (9.1-9.3). Cyfeiriwyd hefyd at gynnydd yn lefel sgôr risg ymosodiadau syber yn sgil digwyddiadau diweddar i sefydliadau mawr.

Ategwyd bod y ddogfen yn ddogfen weithredol ac y byddai addasiadau pellach, megis pan ddaw Addas i Bwrpas i rym, yn cael eu hychwanegu.

Diolchwyd am yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

Nodyn: Cywiro geiriad Risg 2:12 yn y Saesneg i '*... are not received or are NOT processed or recorded completely and accurately*'

9. POLISI'AU GWEINYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Cyflwynodd y Rheolwr Pensiynau adroddiad oedd yn cyflwyno tri polisi gweinyddol allweddol i'r Pwyllgor eu cymeradwyo. Nodwyd bod y polisïau yn hanfodol ar gyfer rheoli a gweinyddu'r Gronfa Bensiwn yn effeithiol ac yn gam sylweddol tuag at lywodraethu da. Nodwyd bod y polisïau wedi eu hadolygu gan y Bwrdd Pensiwn, a'u sylwadau wedi eu cynnwys yn y fersiynau terfynol.

Trafodwyd y Polisïau yn unigol gan roi cefndir a chyd-destun bob un i'r Aelodau

1. Polisi Taliadau Ymlaen Llaw o'r Gyflogres Pensiynwyr
2. Polisi Dosbarthiad Taliadau Grant Marwolaeth
3. Polisi Egwyl Mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL

Diolchwyd am yr adroddiad ac am y gwaith o ffurfioli'r polisïau.

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r polisïau canlynol i fod yn weithredol o'r 1af o Hydref 2025

- 1. Polisi Taliadau Ymlaen Llaw o'r Gyflogres Pensiynwyr**
- 2. Polisi Dosbarthiad Taliadau Grant Marwolaeth**
- 3. Polisi Egwyl Mewn Addysg ar gyfer Pensiwn Plentyn Dibynnol CPLIL**

10. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWDYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwybodaeth ynglŷn â thrafodion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol (yn cynnwys yr awdurdod sydd yn dal y wybodaeth hynny).

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â defnydd adnoddau cyhoeddus a materion ariannol cysylltiedig. Cydnabyddir fodd bynnag fod adegau, er gwarchod buddiannau ariannol cyhoeddus fod angen trafod gwybodaeth fasnachol heb ei gyhoeddi. Mae'r adroddiadau yn benodol ynglŷn â phroses gaffael arfaethedig. Byddai cyhoeddi gwybodaeth fasnachol sensitif o'r math yma yn gallu bod yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor a'i bartneriaid drwy danseilio cystadleuaeth. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus ehangach o sicrhau'r allbwn cyfansawdd gorau. Am y rhesymau hyn mae'r materion yn gaeedig er y budd cyhoeddus.

11. CANLYNIADAU CYCHWYNNOL PRISIAD 2025

Cyflwynwyd er gwybodaeth adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn cyflwyno canlyniadau cychwynnol prisiad actiwaraid 2025 Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ffurfiol. Amlygwyd bod yr Aelodau wedi derbyn hyfforddiant gan Hymans Roberts (15-09-25), lle trafodwyd y canfyddiadau allweddol, y rhagdybiaethau, y risgiau a'r camau nesaf.

PENDERFYNWDYD

Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth

12. GWASANAETH YMGYSYLLTU ROBECO – ADRODDIAD YMGYSYLLTU 01-01-2025 – 31-03-25

Cyflwynwyd adroddiad chwarterol yn crynhoi'r gwaith mae Robeco (Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC) yn gyflawni ar ran y Gronfa Bensiwn ar faterion buddsoddi cyfrifol. Cyfeiriwyd at y meysydd oedd wedi cael sylw Robeco yn ystod y chwarter dan sylw a'r wybodaeth yn cynnwys manylion am y nifer gweithgareddau a'r ymgysylltu a gwblhawyd oedd yn cynnwys cwmnïau mawr gyda phwysigrwydd rhyngwladol. Nodwyd hefyd mai thema ymgysylltu'r chwarter dan sylw oedd Llywodraethu Da.

Diolchwyd am yr adroddiad

PENDERFYNWDYD

Derbyn a nodi'r wybodaeth

Dechreuodd y cyfarfod am 14:30 a daeth i ben 15:15

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	24 TACHWEDD 2025
TEITL	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
PWRPAS	Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru
ARGYMELLIAD	DERBYN A NODI Y WYBODAETH
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a weir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) ar ran yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwyllo ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymadau stiwardiaeth.

2. DIWEDDARIAD CHWARTEROL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 17 Medi 2025. Mae'r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o'r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn. Adolygwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2024/25 a gellir ei weld yn Atodiad 2.

Mae Prosiect yr Wyddfa yn datblygu'n gyflym gyda'r cwmni (WPP IM Co) wedi'i ymgorffori Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol ac y Pencadlys wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Cyflwynwyd y canran o asedau sydd wedi'i bwlio a dangoswyd bod Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gref gyda 87% o'r asedau wedi'i bwlio. Cynhaliwyd adolygiad o rai o'r risgiau o fewn yr adran Hyfforddi, Adnoddau a Chyfathrebu. Cyflwynodd Hymans y newidiadau a gymeradwywyd gan y CBLI. Yn olaf, adolygwyd a diweddarwyd y polisiau canlynol: risg a chwythu'r chwiban.

3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o'r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi'i atodi yn Atodiad 3.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 30ain Mehefin 2025.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn saith o'r deg is-gronfeydd ac ar 30ain Mehefin 2025, roedd gwerthoedd a chanran yr is-gronfeydd fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £442.7m (14%)**
- **Twf Byd- Eang- £493.3m (12%)**
- **Marchnadoedd Datblygol - £67.6m (23%)**
- **Credyd Aml Ased - £249.1m (29%)**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £406.6m (76%)**
- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £239.6m (23%)**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £331.2m (21%)**

4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 30ain MEHEFIN 2025

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn Atodiad 4.

Cododd Mynegai Net y Byd MSCI 11.5% (USD) mewn chwarter a fu'n anwadal ond yn gadarnhaol yn y pen draw ar gyfer ecwitiaau byd-eang wrth i ofnau dros dariffau bygythiol yr Uned Daleithiau gilio. Adroddodd yr holl farchnadoedd enillion, y rhan fwyaf mewn ffigyrau dwbl, gan adlamu o wendid ym mis Ebrill. Arweiniodd Canada ac Asia Pacific tra bo'r DU ar ei hôl hi. Ar ôl cyrraedd y lefel uchel newydd ynghanol mis Mehefin, gostyngodd y mynegai byd-eang yn dilyn ymosodiadau milwrol Israel ar Iran. Fodd bynnag, codi wnaeth y sentiment yn dilyn y cadoediad a gyfryngwyd gan yr Unol Daleithiau, gan gynyddu gwerth ecwitiaau. Roedd prisiau olew yn anwadal, gan gynyddu'r ofnau o darfu ar gyflenwadau yn y Dwyrain Canol, ond gostyngodd y pryderon gyda'r cadoediad bregus. Ymysg nerfusrwydd y farchnad, cyrhaeddodd aur uchafbwynt newydd. Torrodd Banc Canolog Ewrop (ECB) gyfraddau o 25 pwynt sylfaen (bps) ym mis Ebrill, ac eto ym mis Mehefin, pan ddangosodd ei fod yn dod at ddiwedd ei gylch torri cyfraddau. Ni newidiodd y Federal Reserve (Fed) gyfraddau llog tra bo Banc Lloegr wedi torri ei brif gyfradd ym mis Mai 25 bps i 4.25% ond ni newidiodd y cyfraddau ym mis Mehefin.

Yn y DU, cafodd giltiau eu heffeithio yn sgil gwerthiant Trysorlys yr Unol Daleithiau, ymysg amheumon cynyddol dros statws hafan ddiogel asedau'r Unol Daleithiau. Neidiodd costau benthyca tymor hir gyda'r cynnyrch ar giltiau 30-mlynedd yn cynyddu i lefelau a welwyd diwethaf ar ddiwedd y 1990au. Parhau'n anwadal wnaeth y marchnadoedd wrth i'r cweryla rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina barhau. Yn ddiweddarach, disgynnodd y cynnyrch ar y giltiau 10-mlynedd yn dilyn data chwyddiant oedd yn wannach na'r disgwyl. Cafodd prisiau bond eu cefnogi ymhellach gan benderfyniad y Swyddfa Rheoli Dyledion i leihau cyflwyniad gwerthiannau bond dyddiad-hir newydd. Ym mis Mai, fe wnaeth Banc Lloegr leihau cyfraddau llog 25 bps gyda phleidlais fwyafrifol o 5:4. Cododd y cynnyrch ar y giltiau 10-mlynedd yn dilyn penderfyniad y banc a'r newyddion am gytundeb masnachu rhwng yr Unol Daleithiau a'r DU. Fe wnaeth twf cyflogau araf a chynnydd mewn diweithdra atgyfnerthu'r disgwyliadau y bydd Banc Lloegr yn parhau gyda'i lwybr lleddfu ariannol. Er bod data cychwynnol wedi dangos bod yr economi wedi ehangu 0.7% o chwarter i chwarter yn y chwarter cyntaf, gostyngodd GDP o 0.3% ym mis Ebrill, i lawr fwy na'r disgwyl, wedi'i yrru gan lai o allbwn gwasanaethau a llai o allforion i'r Unol Daleithiau. Arweiniodd hyn, ynghyd â data economaidd isel eraill, at lai o gynnyrch giltiau a chryfhodd y disgwyliadau y byddai Banc Lloegr yn torri cyfraddau ymhellach. Er nad oedd y banc

wedi newid cyfraddau ym mis Mehefin, dangosodd bod posib torri cyn gynted â mis Awst wrth ystyried yr arwyddion o wendid yn y farchnad swyddi. Dros y cyfnod, cwmpodd y cynnyrch ar giltiau 10-mlynedd meincnod o 19 bps i 4.49%.

5. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT

Mae mwyafrif o brif raglenni buddsoddiadau'r marchnadoedd preifat bellach wedi eu lansio –Isadeiledd, Credyd Preifat ac Ecwiti Preifat. Mae'r rheolwyr Eiddo wedi'u penodi, ac maent ar hyn o bryd yn sefydlu'r rhaglenni buddsoddi Eiddo, disgwylir iddo gael ei lawnsio yn Hydref 2025.

6. ISADEILEDD

Penodwyd GCM Grosvenor yn Ddyranwr Isadeiledd PPC ym mis Mawrth 2022. Rhoddodd GCM Grosvenor ddiweddariad ar y cynnydd ar y rhaglenni Buddsoddi mewn isadeiledd wedi'i gynnwys yn Atodiad 5.

7. ARGYMHELLIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth.

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) – Diweddariad CBLI

Dyddiad cyfarfod CBLI: Dydd Mercher, 17 Medi 2025

Cyfarfod: Hybrid, wedi ei leoli yn Nhorfaen

Cadeirydd: Cynghorydd Peter Lewis, Powys

Is Gadeirydd: Cynghorydd Elin Hywel, Gwynedd

Eitem Agenda	Manylion																
Diweddariad Awdurdod Lletya	Rhoddodd Anthony Parnell o'r Awdurdod Lletya ddiweddariad mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gwblhau ers cyfarfod diwethaf y CBLI a chamau / blaenoriaethau nesaf PPC. Darparodd Rachel Barrack o Hymans ddiweddariad mewn perthynas â Buddsoddiad Cyfrifol. Mewn perthynas â Phrosiect yr Wyddfa / WPP Investment Management Company Ltd (WPP IM Co), Soniodd Anthony fod WPP IM Co wedi'i ymgorffori ar 12 Awst 2025 a bod Rob Lamb wedi'i benodi'n Brif Swyddog Gweithredol. Bydd pencadlys WPP IM Co yng Nghaerdydd ac mae wedi ymrwymo i gyrraedd dyddiad y llywodraeth, sef 31 Mawrth 2026. Cyflwynwyd diweddariad cynnydd cronni ar 31 Mawrth 2025. Ar 31 Mawrth 2025, mae PPC wedi cyfuno 75% o'i asedau a dangosir lefelau cronfeydd unigol yn y tabl isod. <table><tr><td>Caerdydd & Dyffryn Morgannwg</td><td>90%</td></tr><tr><td>Clwyd</td><td>32%</td></tr><tr><td>Dyfed</td><td>81%</td></tr><tr><td>Gwent (Torfaen)</td><td>76%</td></tr><tr><td>Gwynedd</td><td>87%</td></tr><tr><td>Powys</td><td>63%</td></tr><tr><td>Rhondda Cynon Taf</td><td>83%</td></tr><tr><td>Abertawe</td><td>66%</td></tr></table>	Caerdydd & Dyffryn Morgannwg	90%	Clwyd	32%	Dyfed	81%	Gwent (Torfaen)	76%	Gwynedd	87%	Powys	63%	Rhondda Cynon Taf	83%	Abertawe	66%
Caerdydd & Dyffryn Morgannwg	90%																
Clwyd	32%																
Dyfed	81%																
Gwent (Torfaen)	76%																
Gwynedd	87%																
Powys	63%																
Rhondda Cynon Taf	83%																
Abertawe	66%																

	Cyflwynodd Anthony ddiweddariad Cynllun Busnes 2025/26 ar 30 Mehefin 2025 (Atodiad 2).
Cofrestr Risg Adolygiad Chw3 2025	Mae'r OWG yn gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLI bob chwarter. Mae gan yr OWG Is-Grŵp Risg pwrpasol i gymryd perchnogaeth o'r Gofrestr Risg ac adolygiadau chwarterol o'r ddogfen. Yn ystod Chw 3 2025, mae adolygiad wedi digwydd o'r Risgiau Hyfforddi, Adnoddau a Chyfathrebu. Nid oedd unrhyw newidiadau sylweddol. Cyflwynodd Hymans y Gofrestr Risg wedi'i ddiweddarau a gymeradwywyd gan y CBLI. Mae'r Gofrestr Risg wedi'i llwytho i fyny ar wefan PPC. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch4 2025 a bydd yn canolbwyntio ar yr adran Risgiau Buddsoddi.
Adolygiadau Polisi: - Polisi chwythu'r chwiban - Polisi risg	Mae PPC wedi cymeradwyo nifer o bolisiâu / cynlluniau sydd i'w hadolygu'n rheolaidd. Y chwarter hwn, mae'r OWG wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r polisiâu Risg a Chwythu'r Chwiban. Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r Polisi Chwythu'r Chwiban. Mae'r polisi Risg wedi'i ddiweddarau wedi'i gymeradwyo ac wedi'i ddiweddarau ar wefan PPC. Nid oedd unrhyw bolisiâu newydd y chwarter hwn.
Diweddariad Gweithredwr	Cyflwynodd Waystone eu hadroddiad diweddarau chwarterol ar 30 Mehefin 2025 (Atodiad 3). Mae hyn yn darparu diweddariad ar is-gronfeydd PPC a gweithgaredd corfforaethol ac ymgysylltu.
Adroddiadau Perfformiad ar 30 Mehefin 2025	Cyflwynodd Russell Investments bapur cryno perfformiad Ch2 2025 (Atodiad 4) yn crynhoi perfformiad pob is-gronfa ACS unigol ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2025.
Diweddariad Marchnadoedd Preifat - Isadeiledd	Penodwyd GCM Grosvenor yn Ddyranwr Isadeiledd PPC ym mis Mawrth 2022. Rhoddodd GCM Grosvenor ddiweddariad ar y cynnydd ar y rhaglenni Buddsoddi mewn isadeiledd (Atodiad 5).

Eitemau Eithredig – Trafodwyd yr eitemau canlynol yn ystod rhan preifat y cyfarfod.	
Adroddiad Ymgysylltu Robeco – Chw2 2025	Ym mis Mawrth 2025, ailbenodwyd Robeco fel Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC i ymgymryd â swyddogaethau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ran PPC. Dechreuodd Robeco eu gwasanaeth ymgysylltu ym mis Ebrill 2020, ac maent wedi darparu adroddiad ymgysylltu ar gyfer Chwarter 2 2025. Y thema ymgysylltu a ddewiswyd ar gyfer Ch2 2025 oedd Bioamrywiaeth a Cyflymu i atal Datgoedwigo.
Buddsoddi Cyfrifol a Adroddiadau Risg Hinsawdd	Pob chwarter, mae Hymans Robertson yn cynhyrchu adroddiadau chwarterol Buddsoddi Cyfrifol a Adroddiadau Risg Hinsawdd ar gyfer is-gronfeydd PPC. Ar gyfer Chwarter 2 2025 (chwarter sy'n dod i ben 30 Mehefin 2025), cynhyrchwyd adroddiadau ARB a MAC. Cyflwynodd Hymans yr adroddiadau i aelodau'r CBLI.
Adolygiad is-gronfa	Mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiad perfformiad blynyddol o ddetholiad o is- gronfeydd PPC. Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd adolygiad annibynnol o Gronfeydd Ecwiti Cyfleoedd y DU a Chyfleoedd Byd-eang PPC. Cyflwynodd Hymans yr adroddiad i aelodau'r CBLI.
Adroddiad argymhelliad Gwasanaethau Cyfreithiol	Mae'r contract presennol ar gyfer Darparwr Gwasanaethau Cyfreithiol gyda Burges Salmon yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025. Mae proses werthuso wedi digwydd, a cyflwynwyd adroddiad argymhelliad i'r CBLI. Cymeradwywyd yr argymhelliad gan y CBLI, a bydd y contract newydd yn dechrau ar 1 Ionawr 2026.

Dolen gwe-ddarlledu ar gyfer cyfarfod CBLI 17 Medi 2025 isod:

[Agenda for Wales Pension Partnership Joint Governance Committee on Wednesday, 17th September, 2025, 10.00 am - Carmarthenshire County Council](#)

Cyfeiriad gwefan PPC - <https://partneriaethpensiwncymru.org/>

Cyfarfod nesaf:

- Dydd Llun 8 Rhagfyr 2025 – Cyfarfod rhithiol



Cynllun Busnes
Partneriaeth Pensiwn Cymru
2025-2026
Adolygiad Ch1
(Ebrill i Mehefin 2025)

Llywodraethu

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Proses gaffael darparwyr Gwasanaethau Cyfreithiol	Do	Yn cael ei gyflwyno i CBLI ym mis Medi 2025
Cyflawni Prosiect yr Wyddfa	Yn mynd rhagddo	
Adolygiad blynyddol o bolisiâu a chynlluniau PPC	Parhaus	
Adolygiadau chwarterol o'r Gofrestr Risg	Parhaus	
Ymateb i unrhyw ymgynghoriadau cysylltiedig â chyfuno ac ymgymryd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol o ganlyniad i ganlyniadau'r ymgynghoriad	Parhaus	

Datblygiadau'r Rhaglen Fuddsoddi Barhaus

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Lansio'r rhaglenni buddsoddi eiddo tirol	Yn mynd rhagddo	Lansiad yn ddisgwyliedig ym mis Hydref / Tachwedd 2025
Lansio 'vintages' Marchnad Breifat ychwanegol	Parhaus	
Ystyried cyfleoedd a gofynion PCC yn y DU, lleol / effaith	Parhaus	
Esblygiad Cronfeydd Ecwiti, Incwm Sefydlog a Goddefol cyfredol	Parhaus	
Ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol ar yr angen am Is-gronfeydd pellach, adolygu a datblygu, fel bo'r angen	Parhaus	

Gwasanaethau Gweithredwr

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Goruchwylio llywodraethu y Gweithredwyr a'r Is-gronfa	Parhaus	

Adrodd am Fuddsoddi

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Datblygu a gweithredu adroddiadau Marchnadoedd Preifat	Yn mynd rhagddo	Opsiynau adrodd yn cael eu hystyried ar gyfer marchnadoedd preifat
Adrodd ar y Cod Stiwardiaeth	Yn mynd rhagddo	Adroddiad 2024/25 i fod i'w gyflwyno erbyn 31 Hydref 2025
Adroddiadau sy'n ymwneud â'r hinsawdd / TCFD	Yn mynd rhagddo	Adroddiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y broses o gael ei ddatblygu
Adroddiadau sy'n gysylltiedig â natur / TNFD	Yn mynd rhagddo	Adroddiad sy'n gysylltiedig â natur yn y broses o gael ei ddatblygu
Datblygu, gweithredu ac adrodd parhaus ar yr holl weithgareddau stiwardiaeth	Parhaus	
Cyfathrebu ac adrodd parhaus ar weithgarwch Buddsoddi Cyfrifol i'r holl randdeiliaid	Parhaus	
Adrodd parhaus ar fuddsoddi cyfrifol a risg hinsawdd Is-gronfeydd	Parhaus	
Adolygiad perfformiad blynyddol o Is-gronfeydd PPC (Ecwiti ac Incwm Sefydlog)		I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2026

Ymgysylltu parhaus ag Awdurdodau Cyfansoddol o ran safonau ESG ac uchelgeisiau hinsawdd i diwallu anghenion sy'n esblygu	Parhaus	
--	---------	--

Cyathrebu a Hyfforddiant

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Llunio Adroddiad Cynnydd Blynyddol PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol	Do	Adroddiad wedi'i gyflwyno yn y CBLI ym mis Gorffennaf 2025 ac wedi'i gyhoeddi ar y wefan
Llunio cynllun hyfforddi blynyddol PPC		I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2026
Llunio diweddariad blynyddol PPC	Do	Cyhoeddwyd diweddariad blynyddol 2024/25 ym mis Gorffennaf 2025
Llunio adroddiad blynyddol PPC	Yn mynd rhagddo	Adroddiad blynyddol 2024/25 i'w gyhoeddi Hydref 2025

Adnoddau, cyllideb a ffioedd

Gwaith i'w gwblhau	Cwblhawyd	Sylwadau
Adolygiad blynyddol o adnoddau a'r gallu i gynhyrchu		I'w adolygu yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2026
Llunio cyllideb flynyddol PPC		I'w lunio yn Ch1 (Ionawr i Mawrth) 2026
Adolygu a monitro ffioedd gweithredwr / darparwr allanol	Parhaus	

Cynllun Hyfforddi

Pynciau hyfforddi i gael eu cwblhau yn ystod 2025-26 yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yng Nghynllun Hyfforddiant 2025-2026 a'r cynnydd hyd yma:

	Cwblhawyd	Sylwadau
• Dosbarthiadau asedau Credyd Preifat a Seilwaith	Do	12 Mehefin 2025
• Buddsoddiadau Lleol / Effaith o fewn dosbarthiadau asedau Marchnadoedd Preifat	Do	12 Mehefin 2025
• Stiwardiaeth - Pleidleisio ac Ymgysylltu		Wedi'i amserlennu ar gyfer 24 Medi 2025
• Stiwardiaeth - Cod stiwardiaeth a gofynion adrodd		Wedi'i amserlennu ar gyfer 24 Medi 2025
• Buddsoddi Cyfrifol - Bioamrywiaeth a Chyfalaf Naturiol		Wedi'i amserlennu ar gyfer 18 Tachwedd 2025
• Buddsoddi Cyfrifol - Senarios Hinsawdd a Dyletswydd Ymddiriedol		Wedi'i amserlennu ar gyfer 18 Tachwedd 2025
• Ymgynghoriad Pwlio		
• Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio / canllawiau newydd		

Cyllideb

Adroddiad Monitro Cyllideb 2025-2026:

	Cyllideb 2025-2026 £000	Rhagolygon 2025 – 2026 £000	Amrywiaethau 2025 - 2026 £000
Awdurdod Lletya	241	207	34
Ymgynghorwyr Allanol	1,376	1,376	0
Prosiect yr Wyddfa	2,915	2,915	0
CYFANSWM i'w ail-godi *	4,532	4,498	34
Gwasanaethau Gweithredwr	46,110	46,110	0
Gwasanaethau Dyranwr	9,673	9,673	0
CYFANSWM i'w ddidynnu o Werth Net yr Asedau **	55,783	55,783	0

**Ariennir costau'r Awdurdod Lletya, Ymgynghorydd Allanol a Prosiect yr Wyddfa gan bob un o wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC yn gyfartal, ac fe ail-godir y costau hyn yn flynyddol.*

***Mae'r costau Gwasanaethau Gweithredwr / Dyranwr yn seiliedig ar gyfran pob Awdurdod Cyfansoddol fel canran o asedau'r Bartneriaeth ac fe'u didynnir yn uniongyrchol o Werth Net Asedau'r Awdurdod Cyfansoddol.*

Buddsoddiadau

Is-gronfeydd Ecwiti

Cronfa Twf Byd-eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Cyfleoedd Byd-eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Cyfleoedd y Deyrnas Gyfunol

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Marchnadoedd Datblygol

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Rheolir gan: Russell Investments

Is-gronfeydd Incwm Sefydlog

Cronfa Bondiau Adenillion Absoliwt

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Credyd Aml-ased

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa Credyd Byd-Eang

Rheolir gan: Russell Investments

Cronfa UK Credit

Rheolir gan: Waystone Management (UK) Ltd

Marchnadau Preifat

Seilwaith – caeedig

Rheolir gan: GCM Grosvenor

Seilwaith - penagored

Rheolir gan: CBRE, IFM and Octopus

Credyd Preifatt

Rheolir gan: Russell Investments

Ecwiti Preifat

Rheolir gan: Schroders Capital



Partneriaeth Pensiwn Cymru

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>



Partneriaeth Pensiwn Cymru

Cydbwyllgor Llywodraethu - Adolygiad Ch2 2025

17 Medi 2025

Cyflwynwyd gan James Zealander



Rhaglen

03	Diweddariad Corfforaethol
04	Diweddariad Cydymffurfio
05	Trosolwg Perthynas
06	Gwerthoedd Is-Gronfeydd
07	Asedau Dan Reolaeth Is-gronfeydd a Chanran Perchnogaeth
08	Ciplun o'r Gronfa – Ecwitiâu
09	Ciplun o'r Gronfa - Incwm Sefydlog
10	Mentrau
11	Diweddariadau'r Farchnad
12	Goruchwyllo – Monitro Trydydd Parti
13	Ymgysylltiad WMUK
14	Amserlen Cyfarfodydd

Diweddariad Corfforaethol

Roedd Waystone yn falch o weld bod cymeradwyaeth lawn wedi'i roi ar gyfer creu'r Cwmni Buddsoddi newydd fel rhan o ymgynghoriad "Fit for the Future" y Llywodraeth. Mae Waystone Compliance Solutions yn parhau i weithio'n agos gyda'r Pŵl wrth baratoi'r cais am gymeradwyaethau awdurdodi perthnasol i'r FCA.

Mae Waystone wedi cyhoeddi bod ei Llwyfan UCITS Lwcsembwrg, "Waystone UCITS Platform (Lux) SICAV", wedi'i gymeradwyo gan Gomisiwn Goruchwylio Sector Ariannol Lwcsembwrg (CSSF) ar gyfer integreiddio model gweithredu ETF. Mae'r garreg filltir hon yn galluogi lansio ETFs ochr yn ochr â chynhyrchion UCITS traddodiadol, gan gynnig datrysiad "plug-and-play" effeithlon i reolwyr asedau rhyngwladol ar gyfer mynediad i'r farchnad i Lwcsembwrg.

Mae'r gymeradwyaeth ddiweddaraf hon yn adeiladu ar fomentwm datrysiad label gwyn ETF Waystone, a aeth yn fyw yn 2024, ac mae'n nodi'r cam nesaf wrth ehangu cyfleoedd dosbarthu trawsffiniol i gleientiaid byd-eang.

Yn ddiweddar, mae Waystone wedi gweld cynnydd sydyn yn y galw am ei ddatrysiadau platfform ETF, yn enwedig gan reolwyr gweithredol sy'n gweld gwerth sylweddol mewn cael mynediad at set gyflenwol o alluoedd - gan eu galluogi i raddio'n fwy effeithlon a chyflymu mynediad i'r farchnad ETF.

Dewiswyd Lwcsembwrg oherwydd ei safle fel cartref cronfa drawsffiniol blaenllaw ac mae'r platfform yn gwbl barod i ETF ac wedi'i ategu gan fframwaith gweithredol a rheoleiddiol o ansawdd uchel.

Uwch benodiadau yn Waystone:

Mae Jamie Moran wedi ymuno â Waystone fel ein Prif Swyddog Marchnata newydd. Wedi'i leoli yn y DU, bydd Jamie yn gyfrifol am arwain strategaeth a gweithrediad marchnata Waystone, gwella gwelededd y brand a gyrru twf trwy fentrau marchnata. Mae Jamie yn ffigwr uchel ei barch yn y diwydiant ac mae ganddo dros 25 mlynedd o brofiad marchnata.

Mae Eoin Moylan wedi ymuno â Waystone fel Pennaeth Trawsnewid Gweithrediadau. Bydd Eoin wedi'i leoli yn ein swyddfa yn Nulyn. Mae gan Eoin 25 mlynedd o brofiad o yrru rhaglenni effeithlonrwydd gweithredol strategol a optimeiddio prosesau busnes a gweithredol trwy drosoli technoleg ddigidol.

Diweddariadau Cydymffurfio

Mae'r tabl isod yn manylu ar ddatblygiadau cydymffurfio rheoleiddiol diweddar sy'n berthnasol i WMUK. Cesglir eitemau dan sylw o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys papurau ymgynghori, datganiadau i'r wasg ac areithiau.

Cyhoeddir diweddariad rheoleiddiol llawn i'r Awdurdod Lletya bob mis ond gellir ei gael hefyd trwy arwyddo i Wefan Waystone. [DU/UE yn diweddarau'r Archifau - Waystone yn Cydymffurfio](#)

Teitl				
	Amseru	Effaith WMUK	Effaith PPC	Statws
Diwydiant Pensiynau'r DU yn cyhoeddi Cytundeb Mansion House	Ar unwaith	Canolig	Canolig	
Cyhoeddi Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Buddsoddi mewn Pensiynau	Ar unwaith	Canolig	Canolig	
Lansio ymgynghoriad LGPS 'Mynediad a thegwch'	Ar unwaith	Canolig	Canolig	
CP25/13: Gwella'r broses adrodd cwynion	Ar unwaith	Isel	I'w nodi	

Lansio ymgynghoriad LGPS 'Mynediad a thegwch'

Ar 15 Mai 2025, lansiodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar newidiadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yng Nghymru a Lloegr. Bwriad y newidiadau arfaethedig yw gwella tegwch yn y LGPS a mynediad iddo. Mae'r cynigion yn cynnwys:

- mynd i'r afael â phensiynau goroeswyr a grantiau marwolaethau
- mynd i'r afael â'r Bwlch Pensiwn Rhyw yn y LGPS
- casglu data ar faint o aelodau sy'n optio allan o'r cynllun a pham
- newidiadau i fforffediad, gyda'r nod o fynd i'r afael â materion hirsefydlog gyda fforffediad yn y LGPS
- sawl newid technegol i sut mae'r datrysiad McCloud yn gweithredu
- nifer o newidiadau amrywiol eraill, gan gynnwys newidiadau i ad-daliadau pum mlynedd, AVCs cyn 2014 a thaliadau cronfeydd bychan.

Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cwestiynau am y baich gweinyddol posibl a dyletswydd y Llywodraeth o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac offeryn statudol drafft, Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

Mae'r ymgynghoriad yn cau ar 7 Awst 2025.

Cyhoeddi Adroddiad Terfynol yr Adolygiad Buddsoddi mewn Pensiynau

LGPS

- Mae'r cynigion yn unol i raddau helaeth â'r cyfeiriad a gymerwyd yn yr ymgynghoriad, yn benodol:
- Rhaid i bob Awdurdod Gweinyddol ddiprwyo gweithredu buddsoddiad i gronfeydd a reoleiddir gan FCA erbyn mis Mawrth 2026, er na fydd angen symud buddsoddiadau mynegai yn ffurfiol i bŵl LGPS mwyach, ond yn hytrach ystyrir eu bod o dan reolaeth y pŵl, o ystyried y goruchwyliaeth y mae'r asedau hyn eisoes yn ei dderbyn gan eu perchnogion pŵl.
 - Bydd nifer y cronfeydd yn cael ei leihau o 8 i 6, gyda phwerau i gyfeirio cyfranogiad awdurdodau lleol yn un o'r cronfeydd os oes angen.
 - Rhaid i gronfeydd gefnogi buddsoddiad lleol a chydweithio ag awdurdodau rhanbarthol.

Gwedd II yr Adolygiad Pensiynau

Mae'r cyhoeddiadau heddiw yn nodi diwedd yr Adolygiad Buddsoddi Pensiynau, ac mae'r Llywodraeth bellach wedi cadarnhau y bydd yn troi at gam nesaf yr Adolygiad Pensiynau yn ddiweddarach eleni, gan archwilio heriau tymor hwy ynghylch digonolrwydd a chanlyniadau ymddeol. Disgwylir i'r rhain gynnwys meysydd fel lefelau cyfraniadau a chanlyniadau ymddeol.

Trosolwg Perthynas

Trosolwg Perthynas					
Cleient	Partneriaeth Pensiwn Cymru	AUM (fel ar 30 Mehefin 2025)	£13,601,784,593	Cyfres Cynnyrch	ACS – UK
Dyddiad Dechrau'r Contract	Rhagfyr 2017	Dyddiad y Daw'r Contract i Ben	Rhagfyr 2029 (gyda darpariaeth i'w ymestyn am 2 flynedd arall)	Natur y Berthynas	7 mlynedd, 7 mis

Amrediad y Gronfa

Amrediad Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

Eciwitiau

- Cronfa Twf Byd-eang PPC WS
- Cronfa Ecwitiau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS
- Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS
- Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS
- Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS

Incwm Sefydlog

- Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS
- Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS
- Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS
- Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS
- Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS

Gwerthoedd Is-gronfeydd PPC

AUM a Chwarterol	
Cronfa	AUM (£)*
Eciwitiau	
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£3,688,996,018
Cronfa Eciwitiau Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£3,523,693,664
Cronfa Cyfleoedd y DU PP Cymru WS	£823,616,679
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS	£294,121,736
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£1,577,339,785
Incwm Sefydlog	
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£859,003,754
Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS	£1,041,792,490
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS	£511,136,018
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS	£534,991,212
Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS	£747,093,237
Cyfanswm	£13,601,784,593

* Ffyn 30 Mehefin 2025


Gwerthoedd Is-gronfeydd PPC a Pherchnogaeth Ganran*

Enw'r gronfa	Gwynedd	Powys	Clwyd	Abertawe	Caerdydd	Torfaen	RhCT	Dyfed	Cyfanswm yr Is-gronfa
Eciwitiai									
Cronfa Twf Byd-eang PPC WS	£442,679,522 (12%)	£73,779,920 (2%)			£147,559,841 (4%)		£1,844,498,009 (50%)	£1,180,478,726 (32%)	£3,688,996,018 (100%)
Cronfa Ecwitiai Cyfleoedd Byd-eang PPC WS	£493,317,113 (14%)			£1,233,292,782 (35%)	£563,790,986 (16%)	£704,738,733 (20%)	£528,554,050 (15%)		£3,523,693,664 (100%)
Cronfa Cyfleodd y DU PP Cymru WS					£172,959,503 (21%)	£650,657,176 (79%)			£823,616,679 (100%)
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS	£67,647,999 (23%)	£17,647,304 (6%)			£129,413,564 (44%)	£79,412,869 (27%)			£294,121,736 (100%)
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy PP Cymru WS	£331,241,355 (21%)	£78,866,989 (5%)	£378,561,549 (24%)	£173,507,376 (11%)	£141,960,581 (9%)	£173,507,376 (11%)	£110,413,785 (7%)	£189,280,774 (12%)	£1,577,339,785 (100%)
Incwm Sefydlog									
Cronfa Credyd Aml-ased PP Cymru WS	£249,111,089 (29%)	£34,360,150 (4%)	£335,011,464 (39%)	£68,720,300 (8%)	£171,800,751 (20%)				£859,003,754 (100%)
Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS	£239,612,273 (23%)	£31,253,775 (3%)			£166,686,798 (16%)	£270,866,047 (26%)		£333,373,597 (32%)	£1,041,792,490 (100%)
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang PP Cymru WS					£245,345,289 (48%)	£265,790,729 (52%)			£511,136,018 (100%)
Cronfa Bondiau Enillion Absoliwt PP Cymru WS	£406,593,321 (76%)	£53,499,121 (10%)		£74,898,770 (14%)					£534,991,212 (100%)
Cronfa Credyd Sterling PP Cymru WS							£747,093,237 (100%)		£747,093,237 (100%)
Cyfanswm yr Awdurdod Cyfansoddol	£2,230,202,672	£289,407,259	£713,573,013	£1,550,419,228	£1,739,517,313	£2,144,972,930	£3,230,559,081	£1,703,133,097	£13,601,784,593


Tud
30

Ciplun y Gronfa * - Ecwitiaïau


Twf Byd-eang




Cyfleoedd Byd-eang




Ecwiti Actif Cynaliadwy



Marchnadoedd Datblygol




Cyfleoedd y DU




Ciplun y Gronfa* - Incwm Sefydlog


Credyd Sterling




Credyd Byd-eang




Credyd Aml-ased



Bondiau Llywodraeth Byd-eang



Bondiau Dychweliadau Absoliwt



* Fel ar 30 Mehefin 2025

Llwyddiannau Allweddol a Diweddariadau

Cronfa Credyd Byd-eang PP Cymru WS - Penodiad Coolabah i'r gronfa wedi'i gwblhau ym mis Mai 2025

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PP Cymru WS - Penodiad Sands Capital i'r gronfa wedi'i gwblhau ym mis Mai 2025

Cronfeydd sydd wedi'u lansio/eu dirwyn i ben a'u newid				
	Trosolwg	Statws	Manylion	Perchennog
Diweddariad Rheolwr yr Is-Gronfa	Cronfa Ecwiti Cyfleodd y DU PP Cymru WS Newid Is-reolwr, gan ddileu JO Hambro a newid gyda Jupiter Asset Management	Parhaus	- Cynnig o ychwanegu Strategaeth Ddeinamig y DU Jupiter Asset Management i'r Gronfa ar bwysau strategol o 22% a therfynu JO Hambro. - Mae gan Fuddsoddi Cyfrifol (RI) argyhoeddiad uchel yn y strategaeth hon dan arweiniad Alex Savvides a'i dîm, a symudodd i Jupiter o JO Hambro y llynedd. - Yn ystyried dechrau mis Awst ar gyfer dyddiad byw	RI/WMUK

Diweddariadau'r Farchnad

			Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Rwsia / Wcráin			Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Rwsiaidd	Parhaus	Mae WMUK yn parhau i fonitro'r sefyllfa a bydd yn rhoi gwybod i'r Awdurdodau Cyfansoddol am unrhyw ddatblygiadau. Mae Pwyllgor Prisio Gwerth Teg WMUK yn trafod hyn yn rheolaidd, ac mae asedau'n dal i gael eu prisio yn unol â hynny. Nid oes unrhyw ddaliadau Rwsiaidd yn unrhyw un gronfeydd PPC
			Gweithgaredd	Statws	Sylwadau
Y Dwyrain Canol			Effaith ar is-gronfeydd ACS sy'n dal cwmnïau Israelaidd.	Parhaus	Ar hyn o bryd, 4 o'r gwarannau a ddelir mewn cwmnïau o Israel ar draws tair is-gronfa; Cronfa Cyfleoedd Byd-eang - 4 cwmni gydag amlygiad o 0.44% ar draws cyfanswm yr AUM. Cronfa Twf Byd-eang – 1 cwmni gydag amlygiad o 0.03% ar draws cyfanswm yr AUM. Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang – 1 cwmni gyda daliad yn sefyllfa de minimis. Cyfanswm gwerth tua £16.8m. Mae'r sefyllfa bresennol yn cael ei monitro fel rhan o broses trosolwg BAU. Ffigyrau o ddiwedd mis Mehefin 2025.

Goruchwyllo – Monitro Trydydd Parti

Cynllun 2025				
Darparwr Trydydd Parti	Cyfnod Adrodd	Is-gronfa	Lleoliad	Statws
Northern Trust				
Asiantaeth Trosglwyddo	2025	Popeth	Onsite, Llundain – Medi 2025	N/A
Gweinyddiaeth y Gronfa	2025	Popeth	Onsite, Llundain – Mai 2025	Mae gwaith maes wedi'i gwblhau, adroddiad ar gam drafft ar hyn o bryd ac i'w gytuno gan NT ac WMUK erbyn tua diwedd mis Awst.
Dadansoddiad Pris	2025	Popeth	Onsite, Limerick – Mai 2025	Cynllunio wedi dechrau, gyda chylch gorchwyl yn cael ei gytuno. Mae hyn i'w gytuno gyda NT erbyn diwedd mis Gorffennaf gyda gwaith maes i gychwyn ym mis Medi.
Holiadur 'Parti' Arall	2025	Popeth	Holiadur – Chwefror 2025	Holiadur wedi'i gwblhau gan NT heb unrhyw ganfyddiadau yn gysylltiedig ag WMUK ar draws pob maes adrannol.
Holiadur Diogelwch TG	2025	Popeth	Holiadur – Mawrth 2025	Holiadur gyda NT i'w gwblhau a'i ddychwelyd i Waystone Group IT i'w adolygu erbyn diwedd mis Gorffennaf.
Diwydrwydd Dyladwy Blynyddol	2025	Popeth	Holiadur – Mehefin 2025	Mae gan yr holiadur DD blynyddol gwestiynau sy'n parhau sydd gyda NT ar hyn o bryd cyn iddynt gael eu hadolygu gan WMUK. Disgwylir iddynt gael eu dychwelyd erbyn diwedd mis Gorffennaf.
Russell Investments				
Diwydrwydd Dyladwy Blynyddol	2025	Popeth	Onsite, Llundain - 3 Chwefror 2025	Cwblhawyd – Dim canfyddiadau yn dilyn ymweliad ym mis Chwefror.

Tud. 35

Ymgysylltiad WMUK

Ymgysylltu Allweddol â PPC yn Ch2 ac yn y dyfodol

Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y cyfnod:

- GS 20 Mai 2025
- CBLI 12 Mawrth 2025

Presenoldeb Waystone yng nghyfarfodydd y GS/CBLI yn y chwarter nesaf:

- GS 21 Gorffennaf 2025
- CBLI PPC 16 Gorffennaf 2025

Presenoldeb Waystone yn yr Adolygiad o'r Berthynas Strategol:

- 17 Medi 2025

Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y cyfnod:

- Dim wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod hwn

Waystone - Presenoldeb yn y Pwyllgor Pensiynau yn y chwarter nesaf:

- Dim wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod hwn

Cyfarfod Ymgysylltu â Chadeiryddion Byrddau Pensiwn PPC

- Dim wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod hwn

Cyfarfodydd eraill yn y cyfnod

- Diweddariad gan yr Awdurdod Lletya - bob pythefnos
- Symposiwm Cyfuno Cyhoeddi DG, Belfry - Mai 2025

Cyfarfodydd eraill yn y chwarter nesaf

- Symposiwm Cyfuno LGC, Stratford upon Avon - Gorffennaf 2025

Amserlen Cyfarfodydd

Adolygiad Gweithredol	Amllder	Amcan
	- Lled-flynyddol - Nesaf: 17 Medi 2025	- Sicrhau aliniad strategol - Adolygiad ar y cyd o'r busnes a nodau, blaenoriaethau ac amcanion strategol
Mynychwyr		
PPC Chris Moore, Anthony Parnell a dau swyddog Adran 151 / Dirprwy swyddog Adran 151		Waystone Management (UK) Limited - Karl Midl, Pennaeth Gwlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol, Waystone Management UK - Rachel Wheeler, Pen Swyddog Cynnyrch - Regulated Fund Solutions
Cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu	Amllder	Amcan
	Chwarterol	- Metrigau allweddol - Materion perthnasol - Cyflawni'n strategol
Mynychwyr		
PPC Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI)		Waystone Management (UK) Limited - Karl Midl, Pennaeth Gwlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol, Waystone Management UK - Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau - James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau - Russell Investments
Cyfarfodydd Gweithgor Swyddogion	Amllder	Amcan
	Chwarterol	- Adnabod a chyflawni cyfleoedd i wella ac ehangu'r berthynas - Darparu diweddariad ar brosiectau neu faterion sydd heb eu datrys - Adolygiad DPA Misol (Data'n cael ei gyflenwi'n chwarterol)
Mynychwyr		
PPC Gweithgor Swyddogion (GS)		Waystone Management (UK) Limited - James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau - Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau - Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau - Presenoldeb Waystone ad-hoc o adrannau swyddogaethol (yn ôl yr angen): - Goruchwyliaeth Rheoli Buddsoddiadau CIO - Pennaeth Cynnyrch - Pennaeth Cydymffurfio - Pennaeth Goruchwyllo - Russell Investment



Amserlen Cyfarfodydd (parhad)

Diweddariad yr Awdurdod Lletya	Amllder	Amcan
	Bob hanner-wythnos	Awdurdod Lletyol Rheolaidd – WMUK i drafod beth sy'n bosib i'w gyflawni, a diweddariadau busnes
Mynychwyr		
PPC Anthony Parnell Tracey Williams		Waystone Management (UK) Limited Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau Rheolwr Gwasanaeth Cleient (fel bo'r angen)
Pwyllgorau Pensiwn	Amllder	Amcan
	Blynyddol	Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Mynychwyr		
PPC Cyfarfodydd Pwyllgor y Cronfeydd Pensiwn unigol		Waystone Management (UK) Limited Richard Thornton, Pennaeth Rheoli Perthnasau, Perchnogion Asedau James Zealander, Uwch Reolwr Perthnasau Heidi Robinson, Rheolwr Perthnasau Russell Investments
Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn	Amllder	Amcan
	Lled-flynyddol	Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd ar y gweill
Mynychwyr		
PPC Cadeiryddion yr Awdurdodau Cyfansoddol Awdurdod Lletya		Waystone Management (UK) Limited Tîm Perthynas Waystone Russell Investment
Diwrnodau Ymgysylltu â Rheolwyr	Amllder	Amcan
	Blynyddol 15 / 16 Hydref 2025	Diwrnod agored i gael cyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda IM)
Mynychwyr		
PPC Yn agored i bawb sy'n gysylltiedig â PPC		Waystone Management (UK) Limited Tîm Cleient Waystone gan gynnwys y Tîm Gweithredol Northern Trust Russell Investments a Rheolwyr Buddsoddi eraill Ymgynghorwyr eraill yn ôl yr angen (e.e. bFinance/Hymans)

Tud. 38



Diolch

Tîm Perthynas

Enw: James Zealander
Rôl: Uwch Reolwr Perthnasau
Rhif: +44 (0)7522 348 474
E-bost: James.Zealander@waystone.com

Heidi Robinson
Rheolwr Perthynas
+44 (0) 7843 804917
E-bost: Heidi.Robinson@waystone.com

Enw: Richard Thornton
Rôl: Pennaeth Rheoli Perthnasau - Perchnogion Asedau
Rhif: +44 (0) 7765 220277
E-bost: Richard.Thornton@waystone.com

Cyswllt Gweithredol

Enw: Karl Midl
Rôl: Pen Swyddog y Wlad, y DU a Phrif Swyddog Gweithredol
Rhif +44 (0)7951 266225
E-bost: karl.midl@waystone.com


CBLI – Crynodeb Perfformiad PPC Ch2 2025

Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Cododd Mynegai Net y Byd MSCI 11.5% (USD) mewn chwarter a fu'n anwadal ond yn gadarnhaol yn y pen draw ar gyfer ecwitiâu byd-eang wrth i ofnau dros dariffau bygythiol yr Uned Daleithiau gilio. Adroddodd yr holl farchnadoedd enillion, y rhan fwyaf mewn ffigyrau dwbl, gan adlamu o wendid ym mis Ebrill. Arweiniodd Canada ac Asia Pacific tra bo'r DU ar ei hôl hi. Ar ôl cyrraedd y lefel uchel newydd ynghanol mis Mehefin, gostyngodd y mynegai byd-eang yn dilyn ymosodiadau milwrol Israel ar Iran. Fodd bynnag, codi wnaeth y sentiment yn dilyn y cadoediad a gyfryngwyd gan yr Unol Daleithiau, gan gynyddu gwerth ecwitiâu. Roedd prisiau olew yn anwadal, gan gynyddu'r ofnau o darfu ar gyflenwadau yn y Dwyrain Canol, ond gostyngodd y pryderon gyda'r cadoediad bregus. Ymysg nerfusrwydd y farchnad, cyrhaeddodd aur uchafbwynt newydd. Torrodd Banc Canolog Ewrop (ECB) gyfraddau o 25 pwynt sylfaen (bps) ym mis Ebrill, ac eto ym mis Mehefin, pan ddangosodd ei fod yn dod at ddiwedd ei gylch torri cyfraddau. Ni newidiodd y Federal Reserve (Fed) gyfraddau llog tra bo Banc Lloegr wedi torri ei brif gyfradd ym mis Mai 25 bps i 4.25% ond ni newidiodd y cyfraddau ym mis Mehefin.

Yn y DU, cafodd giltiau eu heffeithio yn sgil gwerthiant Trysorlys yr Unol Daleithiau, ymysg amheuron cynyddol dros statws hafan ddiogel asedau'r Unol Daleithiau. Neidiodd costau benthyca tymor hir gyda'r cynnyrch ar giltiau 30-mllynedd yn cynyddu i lefelau a welwyd diwethaf ar ddiwedd y 1990au. Parhau'n anwadal wnaeth y marchnadoedd wrth i'r cweryla rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina barhau. Yn ddiweddarach, disgynnodd y cynnyrch ar y giltiau 10-mllynedd yn dilyn data chwyddiant oedd yn wannach na'r disgwyl. Cafodd prisiau bond eu cefnogi ymhellach gan benderfyniad y Swyddfa Rheoli Dyledion i leihau cyflwyniad gwerthiannau bond dyddiad-hir newydd. Ym mis Mai, fe wnaeth Banc Lloegr leihau cyfraddau llog 25 bps gyda phleidlais fwyafrifol o 5:4. Cododd y cynnyrch ar y giltiau 10-mllynedd yn dilyn penderfyniad y banc a'r newyddion am gytundeb masnachu rhwng yr Unol Daleithiau a'r DU. Fe wnaeth twf cyflogau araf a chynnydd mewn diweithdra atgyfnerthu'r disgwyliadau y bydd Banc Lloegr yn parhau gyda'i lwybr lleddfu ariannol. Er bod data cychwynnol wedi dangos bod yr economi wedi ehangu 0.7% o chwarter i chwarter yn y chwarter cyntaf, gostyngodd GDP o 0.3% ym mis Ebrill, i lawr fwy na'r disgwyl, wedi'i yrru gan lai o allbwn gwasanaethau a llai o allforion i'r Unol Daleithiau. Arweiniodd hyn, ynghyd â data economaidd isel eraill, at lai o gynnyrch giltiau a chryfhodd y disgwyliadau y byddai Banc Lloegr yn torri cyfraddau ymhellach. Er nad oedd y banc wedi newid cyfraddau ym mis Mehefin, dangosodd bod posib torri cyn gynted â mis Awst wrth ystyried yr arwyddion o wendid yn y farchnad swyddi. Dros y cyfnod, cwmpodd y cynnyrch ar giltiau 10-mllynedd meincnod o 19 bps i 4.49%.

Perfformiad dosbarth asedau – Y Chwarter hyd yma (Mehefin 2025)



Meincnodau: Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Ecwiti Marchnadoedd Datblygol (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi ar gyfer swyddogion PPC yn seiliedig ar berfformiad gan Northern Trust. Mae dyddiadau cychwyn yn seiliedig ar y NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall dyddiadau cychwyn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Crynodeb o Is-gronfa'r PPC (Gros):

Perfformiad Gros y PPC	Ch2 2025			Blwyddyn			3 Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad cychwyn
	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	
Cronfa Twf Byd-eang	5.0	5.1	-0.1	6.8	5.4	1.4	10.2	12.1	-1.9	9.9	11.1	-1.2	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	3.7	5.1	-1.4	8.6	7.2	1.4	12.9	12.7	0.2	12.2	11.4	0.8	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	3.7	5.1	-1.4	3.4	7.2	-3.8	-	-	-	9.5	14.4	-4.9	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	7.8	5.9	1.9	10.0	7.9	2.1	6.6	7.0	-0.4	1.6	2.6	-1.0	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	6.9	4.4	2.5	11.4	11.2	0.2	12.7	10.7	2.0	6.4	6.6	-0.2	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang	1.6	1.4	0.2	5.7	5.2	0.5	2.1	1.6	0.5	-0.7	-1.5	0.8	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-eang	1.9	1.9	0.0	6.7	6.8	-0.1	3.9	3.9	0.0	-0.4	-0.4	0.0	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	2.5	2.1	0.4	8.6	9.0	-0.4	8.0	8.6	-0.6	3.9	6.9	-3.0	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	1.3	1.6	-0.3	7.0	7.0	0.00	6.5	6.6	-0.1	4.4	5.0	-0.7	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	2.9	2.9	0.0	5.8	6.0	-0.2	3.8	3.1	0.7	-0.3	-0.6	0.3	27/07/2020

Crynodeb o Is-gronfa'r PPC (Net):

Perfformiad Net PPC	Ch2 2025			Blwyddyn			3 Blynedd			Ers Cychwyn			Dyddiad cychwyn
	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	Is-gronfa	Meincnod	Gormodedd	
Cronfa Twf Byd-eang	4.9	5.1	-0.2	6.5	5.4	1.1	9.9	12.1	-2.2	9.5	11.1	-0.6	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang	3.6	5.1	-1.5	8.3	7.2	1.1	12.6	12.7	-0.1	11.9	11.4	0.5	31/01/2019
Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy	3.6	5.1	-1.5	3.0	7.2	-4.2	-	-	-	9.1	14.4	-5.3	23/06/2023
Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	7.8	5.9	1.9	9.5	7.9	1.6	6.2	7.0	-0.8	1.2	2.6	-1.4	20/10/2021
Cronfa Ecwiti Cyfleoedd y DU	6.8	4.4	2.4	11.1	11.2	-0.1	12.3	10.7	1.6	6.0	6.6	-0.6	23/09/2019
Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang	1.5	1.4	0.1	5.5	5.2	0.3	1.9	1.6	0.3	-1.0	-1.5	0.5	30/07/2020
Cronfa Credyd Byd-eang	1.8	1.9	-0.1	6.6	6.8	-0.2	3.8	3.9	-0.1	-0.6	-0.4	-0.2	27/07/2020
Cronfa Credyd Aml-ased	2.4	2.1	0.3	8.2	9.0	-0.8	7.7	8.6	-0.9	3.5	6.9	-3.4	27/07/2020
Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt	1.2	1.6	-0.4	6.6	7.0	-0.4	6.1	6.6	-0.5	4.0	5.0	-1.0	30/09/2020
Cronfa Credyd Sterling	2.9	2.9	0.0	5.7	6.0	-0.3	3.7	3.1	0.6	-0.4	-0.6	0.2	27/07/2020

Noder: Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Mae'n bosib bod y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad gwirioneddol) yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod o drawsnewid.

Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o 2.0% sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	5.0	6.8	10.2	9.3	9.9
Net	4.9	6.5	9.9	8.9	9.5
Mynegai Net MSCI AC World*	5.1	5.4	12.1	10.9	11.1
Gwarged enillion (gros)	-0.1	1.4	-1.9	-1.6	-1.2
Enillion dros ben (Net)	-0.2	1.1	-2.2	-2.0	-1.6

Dyddiad Cychwyn: 18 Tachwedd 2024
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025
Meincnod: Mynegai Dychweliad MSCI AC World GBP
*Mae ffigyrau yn cynnwys saib yn y perfformiad ym mis Tachwedd 2024 wrth bontio'r Gronfa.

Noder bod Russell Investments wedi cymryd drosodd mandad Cronfa Ecwiti Twf Byd-eang ar 18 Tachwedd 2024.
Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif dros yr ail chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Yn amgylchedd y farchnad, bu tuedd y Gronfa at gapiau bychan ac amlygiad gwerth yn rhwystr. O ran sectorau, amlygiad o dan bwysau a dewis stoc o fewn gofal iechyd oedd y prif dynnwr, yn benodol y gor-bwysau i UnitedHealth. Ni fu gor-bwysau i Bristol-Myers Squibb a Baxter International o gymorth chwaith. Mewn nwyddau dewisol defnyddwyr, cafodd gor-bwysau i AutoZone a LVMH eu tynnu yn ôl. Roedd amlygiad o dan bwysau i dechnoleg gwybodaeth yn aneffeithiol. Roedd hyn yn cynnwys tan-bwysau i Nvidia a Broadcom, er bod tan-bwysau i Apple a gor-bwysau i TSMC ac Oracle wedi cyfrannu'n gadarnhaol, a lliniaru peth o'r effaith. Cafodd tan-bwysau i ynni, y sector a berfformiodd waethaf, a'r dewis stociau eu gwobrwyo (tan-bwysau Exxon Mobil). Roedd amlygiad i gyfleustodau hefyd yn effeithiol. Mewn mannau eraill, cyfrannodd dewis stociau o fewn gwasanaethau cyfathrebu (tan-bwysau Tencent) a diwydiannau (gor-bwysau AeroVironment) yn gadarnhaol. Baillie Gifford oedd y rheolwr a berfformiodd orau, a chafodd ei wobrwyo am ei ogwydd twf a'r dewis o fewn technoleg gwybodaeth. Pzena berfformiodd waethaf. Ni wnaeth ei ffocws gwerth a thuedd at gapiau bychan elwa yn amgylchedd y farchnad. Hefyd, roedd ei ddewis stoc o fewn technoleg gwybodaeth yn aneffeithiol, yn enwedig dim amlygiad i Nvidia a Microsoft.

Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o 2.0% sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	3.7	8.6	12.9	12.2	12.2
Net	3.6	8.3	12.6	11.9	11.9
Mynegai MSCI AC World Net	5.1	7.2	12.7	11.3	11.4
Gwarged enillion (gros)	-1.4	1.4	0.2	0.9	0.8
Enillion dros ben (Net)	-1.5	1.1	-0.1	0.6	0.5

Dyddiad cychwyn: COB 31 Ionawr 2019
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025
Meincnod: Mynegai MSCI AC World Cyfanswm Enillion Net GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliad absoliwt positif dros yr ail chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Yn yr amgylchedd hwn, bu amlygiad gwerth y Gronfa a'r gogwydd i gapiau bach yn rhwystr yn y cyfnod hwn. Mewn sectorau, cafodd y dewis stoc o fewn diwydiannau ei dynnu'n ôl, yn enwedig safle oddi-ar-y-meincnod yn y MISUMI Group. Ni chafodd dewis stoc o fewn prif gynnyrch defnyddwyr eu gwobrwyo chwaith (gor-bwysau Clorox Co). Mewn technoleg gwybodaeth, nid oedd amlygiad tan-bwysau i'r sector a dewis stoc o gymorth, yn enwedig tan-bwysau i Nvidia a Broadcom, er bod tan-bwysau i Apple a gor-bwysau i TSMC yn effeithiol. Y cyfrannwr mwyaf cadarnhaol i berfformiad oedd dewis stoc o fewn ariannol tra bo' gor-bwysau i Commerzbank a than-bwysau i Berkshire Hathaway yn fuddiol. Bu dewis stoc o fewn gwasanaethau cyfathrebu hefyd yn fuddiol (gor-bwysau Meta). Mewn mannau eraill, bu amlygiad o dan bwysau i ynni yn gadarnhaol, wedi'u helpu gan dan-bwysau i Exxon Mobil a Chevron, gan mai dyma oedd y sector a berfformiodd waethaf yn y cyfnod. Ar lefel y rheolwr, Morgan Stanley berfformiodd orau, a gafodd ei wobrwyo am ei ffocws twf ac amlygiad i wasanaethau cyfathrebu (gor-bwysau Spotify). I'r gwrthwyneb, Nissay oedd yr unig reolwr i gofnodi colledion. Ni wnaeth ei ffocws gwerth elwa yn amgylchedd y farchnad, ac fe ddioddefodd o ddewis stoc gwael o fewn diwydiannau, yn enwedig gor-bwysau i MISUMI Group.

Cronfa Ecwiti Actif Cynaliadwy:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o 2.0% sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	3.7	3.4	9.5
Net	3.6	3.0	9.1
Mynegai MSCI AC World Net	5.1	7.2	14.4
Gwarged enillion (gros)	-1.4	-3.8	-4.9
Enillion dros ben (Net)	-1.5	-4.2	-5.3

Dyddiad cychwyn: COB 23 Mehefin 2023
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025
Meincnod: Mynegai MSCI AC World Cyfanswm Enillion Net GBP

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliad absoliwt positif dros yr ail chwarter ond gorffennodd y tu ôl i'r meincnod ar sail gymharol. Ni chafodd lleoliad ffactor y Gronfa ei wobrwyo o fewn yr amgylchedd hwn. Cafodd y gogwydd tuag at stociau cap bach, ynghyd ag amlygiad cadarnhaol i werth a than-bwysau i fomentwm, eu tynnu yn ôl o enillion cymharol. Bu dewis stoc yn gadarnhaol ar y cyfan, ond yn negyddol o fewn yr Unol Daleithiau, gyda than-bwysau i Nvidia, Broadcam a Meta yn amharwyr nodedig. Ar lefel sector, roedd dewis stoc yn negyddol o fewn diwydiannau a nwyddau dewisol ond yn gryf o fewn technoleg gwybodaeth (tan-bwysau Apple) ac ariannol (tan-bwysau Berkshire Hathaway). Cafodd y tan-bwysau strategol a'r dewis effeithiol o fewn y sector ynni eu gwobrwyo hefyd. Ar lefel y rheolwr, Sparinvest oedd y strategaeth a berfformiodd waethaf. Ni chafodd y tuedd gwerth mawr a'r gogwydd tuag at stociau cap bach eu gwobrwyo. Neuberger Berman oedd yr unig reolwr i berfformio'n well yn y chwarter hwn, gan wrthdroi rhai o'i dan-berfformio yn gynnar yn y flwyddyn, drwy ei safle twf ansawdd.

Sylwadau ar y Farchnad Ddatblygol

Adroddodd y rhan fwyaf o Farchnadoedd Datblygol (EM) enillion yn ystod y chwarter. De Korea oedd y farchnad a berfformiodd orau, gyda Gwlad Groeg a Taiwan yn dilyn hynny. Cyrhaeddodd prif fynegai De Korea uchafbwynt tair blynedd a hanner ym mis Mehefin wrth i fuddsoddwyr gael eu hannog gan ymdrechion y llywodraeth ar drafodaethau masnachu ar ôl iddo sefydlu tasglu arbennig dan y gweinidog masnach i gyflymu negodiadau gyda'r Unol Daleithiau. Roedd buddsoddwyr hefyd yn croesawu cynllunio gan y llywodraeth adain chwith newydd sy'n cael ei arwain gan Arlywydd Lee Jae-myung i weithredu diwygiadau llywodraethu corfforaethol gyda'r nod o ddarparu mwy o warchodaeth ar gyfer rhanddeiliaid a chodi prisiau ecwiti isel. Un o'r nodau a nodwyd yw i'r mynegai Kospi gyrraedd 5,000 yn ystod tymor 5 mlynedd yr arlywydd (3,072 fel ar 30 Mehefin). Yn ychwanegol, cynigiodd y llywodraeth i gynyddu gwariant er mwyn gwella twf. Fe wnaeth dychweliad marchnad ecwiti Taiwan elwa o'r doler Taiwan newydd, gan arbrizio yn erbyn doler yr Unol Daleithiau. Fe wnaeth hefyd elwa o'i ffocws ar dechnoleg, yn enwedig dominyddiaeth TSMC mewn lled-ddargludyddion. Mewn sioe dechnoleg ym mhrif ddinas Taiwan, Taipei, amlinellodd Jensen Huang, Prif Swyddog Gweithredol Nvidia, sefydliad lleol newydd i'w adeiladu yn y ddinas ac ail-ddatganodd ei ymrwymiad i'r wlad. Roedd Tsieina, Gwlad Thai a Saudi Arabia ymysg y rhai a berfformiodd waethaf. Yn Tsieina, bu i densiynau masnach gyda'r Unol Daleithiau ac economi wan leihau'r galw am ecwitiâu wedi'u rhestru ar y tir mawr. Fe wnaeth optimistiaeth y byddai'r llywodraeth yn cyflwyno mesurau ysgogi i hybu'r economi a marchnadoedd ariannol y wlad bylu heb unrhyw gynigion newydd. Yng Ngwlad Thai, fe wnaeth aflonyddwch gwleidyddol cynyddol a diffyg cynnydd ar drafodaeth masnach gyda'r Unol Daleithiau danbwysu ar sentiment. Cafodd y Prif Weinidog Paetongtarn Shinawatra, sydd â mwyafrif seneddol bychan, dipyn o ergyd ar ôl i ail blaid fwyaf y glymblaid dynnu yn ôl. Cafodd marchnad Saudi Arabia ei heffeithio gan gyfnod hir o brisiau olew is.

Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o 1.5% sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	7.8	10.0	6.6	1.6
Net	7.8	9.5	6.2	1.2
Mynegai Marchnadoedd Datblygol yr MSCI	5.9	7.9	7.0	2.6
Gwarged enillion (gros)	1.9	2.1	-0.4	-1.0
Enillion dros ben (Net)	1.9	1.6	-0.8	-1.4

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Hydref 2021

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025

Meincnod: Mynegai Marchnadoedd Datblygol Net yr MSCI

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) hefyd fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa berfformio'n well na'r enillion meincnod cadarnhaol. Yn amgylchedd y farchnad, cafodd tuedd y Gronfa at stociau cyfalafu bychan ac amlygiad twf cadarnhaol eu gwobrwyo. Roedd dewis dros bwysau a stoc effeithiol o fewn De Korea yn brif yrrwr o berfformio'n well. Roedd hyn yn cynnwys amlygiad i sawl enw megis SK Hynix, Korea Investment Holdings a Korea Electric Power Corporation. Cafodd tanbwysiad at, a'r dewis stociau effeithiol o fewn India eu gwobrwyo. Roedd dyraniad gwlad cadarnhaol hefyd yn cynnwys tan-bwysau i Saudi Arabia, er bod y tan-bwysau i Taiwan (tan-bwysau TSMC) wedi cael eu tynnu'n ôl. Cafodd dewis stoc hefyd ei wobrwyo o fewn Brasil a Saudi Arabia. Pwysodd dewis negyddol o fewn Tsieina (JD.com, Great Wall Motor Company Limited) ar enillion cymharol ychwanegol. Artisan oedd y rheolwr arweiniol yn y chwarter hwn, gan elwa o ddewis stoc cryf sylweddol o fewn De Korea (enw diwydiannol cryf Doosan Enerbility Co) a Brasil (enw e-fasnach MercadoLibre). Oaktree oedd yr unig reolwr i dan-berfformio, gan ddychwelyd rhai o'i berfformio gwell yn gynnar yn y flwyddyn. Cafodd gor-bwysau i Tsieina, tan-bwysau i Taiwan a dewis negyddol o fewn De Korea eu tynnu'n ôl.

Sylwadau ar Farchnad y DU

Roedd perfformiad ecwitiâu'r DU yn is na'r mynegai byd-eang a marchnadoedd eraill. Industrials (Babcock) a thelathrebu oedd y sectorau a berfformiodd orau, tra bo' gofal iechyd (AstraZeneca) ac ynni (BP) ar ei hôl hi, yn cofnodi colledion. Cafodd y sentiment ei hybu ym mis Mai yn dilyn adroddiadau am gytundeb masnachu rhwng yr Unol Daleithiau a'r DU, y cytundeb cyntaf o'r fath. Cafodd cytundeb pellach ei gyhoeddi yn y Gynhadledd G7 ym mis Mehefin, ac fe wnaeth hyn leihau tariffau'r Unol Daleithiau ar geir (o fewn cyfyngiad cwota) a diddymu tariffau ar nwyddau awyrfod. Cyhoeddodd Canghellor Rachel Reeves arolwg gwariant tair blynedd, gan flaenoriaethu buddsoddiadau mewn iechyd, amddiffyn ac isadeiledd. Er bod data cychwynnol wedi dangos bod yr economi wedi ehangu 0.7% o chwarter i chwarter yn y chwarter cyntaf, gostyngodd y GDP 0.3% ym mis Ebrill, i lawr fwy na'r disgwyl, wedi'u gyrru gan lai o allbwn gwasanaethau a llai o allforion i'r Unol Daleithiau. Disgynnodd gweithgynhyrchu a gweithgynhyrchu diwydiannol fwy na'r disgwyl ym mis Ebrill. Yn ychwanegol, cyrhaeddodd diweithdra lefel uchel pedair blynedd, fe wnaeth twf mewn enillion arafu a rhoddodd gwerthiant manwerthu oedd yn gwanhau arwydd o economi oedd yn arafu. Cododd chwyddiant ym mis Ebrill i 3.5% FI ar FI, o 2.6% cyn disgyn i 3.4% FI ar FI ym mis Mai. Roedd chwyddiant craidd yn cydweddu rhagolygon ym mis Mai ar 3.5%, i lawr o 3.8%. Yn y cyfamser, cafodd PMIs mis Mai eu adolygu yn uwch, ac fe wnaeth hyn wthio'r cyfansawdd i 50.3, gan fynd i faes ehangu. Bu PMIs cychwynnol ar gyfer mis Mehefin hefyd yn gadarnhaol gyda'r cyfansawdd a PMIs gweithgynhyrchu yn uwch na disgwyliadau a gwasanaethau yn unol â rhagolygon.

Cronfa Cyfleoedd Ecwiti y DU:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **2.0%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	5 Mlynedd	Ers Cychwyn
Gros	6.9	11.4	12.7	10.8	6.4
Net	6.8	11.1	12.3	10.4	6.0
FTSE All Share	4.4	11.2	10.7	10.8	6.6
Gwarged enillion (gros)	2.5	0.2	2.0	0.0	-0.2
Enillion dros ben (Net)	2.4	-0.1	1.6	-0.4	-0.6

Dyddiad Cychwyn: COB 23 Medi 2019

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025

Meincnod: Mynegai FTSE All Share

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa berfformio'n well na'r enillion meincnod cadarnhaol. Cyfrannodd gogwydd y Gronfa at stociau cyfalafu bach at berfformio'n well – cyferbyniad â'r chwarter blaenorol. Roedd dethol stoc yn effeithiol yn tanategu enillion perthynol, yn enwedig ymysg stociau oedd yn dangos ansawdd uwch a chyfraddau twf rhagdybiedig uwch. Roedd safle a detholiadau o fewn y sectorau dewisol defnyddwyr (gor-bwysau) a gofal iechyd (tan-bwysau) yn brif yrwyr o berfformiad. Roedd y gor-bwysau i Burberry Group a'r tan-bwysau i AstraZeneca yn berfformwyr arweiniol ar lefel y stoc. Roedd dewis stoc o fewn prif gynnyrch defnyddwyr (gor-bwysau Tesco) ac ariannol (gor-bwysau AJ Bell) yn gadarnhaol. Cafodd y tan-bwysau i ynni – y sector gwanaf yn y chwarter hwn – hefyd ei wobrwyo (tan-bwysau Shell). Ar lefel y rheolwr, Ninety One berfformiodd orau yn y chwarter hwn, yn arbennig yn perfformio'r meincnod yn well drwy ddewis stoc cryf a dyraniad sector. Fidelity oedd yr unig reolwr i danberfformio; ni chafodd ei ogwydd i ffwrdd o enwau twf eu gwobrwyo tra bo'r tan-bwysau i, a'r dewis negyddol o fewn y sector diwydiannau, yn gyrru enillion cymharol negyddol.

Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Cynyddodd Mynegai Bond Agregau Byd-eang Bloomberg (USDH) 1.6% dros y chwarter. Fe wnaeth enillion hir gynyddu neu aros yn sefydlog yn y farchnadoedd mwyaf datblygedig. Roedd y cynnyrch ar feincnod 10 mlynedd o Drysorlysoedd Unol Daleithiau gan fwyaf yn wastad ar ôl codi pryderon dros y diffyg yn y gyllideb a bil gwario'r llywodraeth a'r ffaith ei bod yn torri trethi. Fe wnaeth adferiad mewn archwaeth risg, ynghyd â'r damcaniaethu dros doriadau i gyfraddau'r Federal Reserve (Fed), wanhau pryderon cyllidol. Yn y sector corfforaethol, wrth i asedau risg gynyddu, fe wnaeth credyd cynnyrch uchel berfformio'n well na'r raddfa fuddsoddi. Dibrisiodd doler yr Unol Daleithiau yn erbyn y rhan fwyaf o arian cyfred, yn bennaf oherwydd pryderon buddsoddwyr dros bolisïau masnachu'r Arlywydd Trump a dyledion cynyddol y wlad. Torrodd Banc Canolog Ewrop (ECB) gyfraddau o 25 pwynt sylfaen (bps) ym mis Ebrill, ac ym mis Mehefin. Ni newidiodd y Fed gyfraddau llog tra bod Banc Lloegr wedi torri ei brif gyfradd 25 bps i 4.25% ym mis Mai ond ni newidiodd y cyfraddau ym mis Mehefin.

Fe wnaeth lledaeniad credyd gulhau dros y chwarter wrth i asedau gyda fwy o risg gynyddu yn dilyn anwadalrwydd ym mis Ebrill. Cafodd cynnydd mewn optimistiaeth y farchnad ei broptio gan arwyddion o gynnydd mewn negodiadau masnach a thôn mwy cymodol gan yr Arlywydd Trump. Yn yr amgylchedd hwn, bu i enillion uchel berfformio'n well na chredyd graddfa fuddsoddi. US HY berfformiodd orau gyda lledaeniad yn culhau 57 bps i 290. Mae hyn yn cymharu â lledaeniad HY byd-eang a dynhaodd 46 bps i 332. Roedd lledaeniad HY Ewropeaidd wedi culhau dros y cyfnod, ar 303. Roedd y patrwm yn debyg mewn graddfa fuddsoddi, er bod tynhau lledaeniad yn fwy cymedrol. Fe wnaeth lledaeniad US IG gulhau 10 bps i 79, tra bo' tynhau'r lledaeniad IG Ewropeaidd yn 5 bps i 80. Fe wnaeth UK IG hefyd gulhau i ffigyrau sengl (-7 bps i 83). Fel yn y chwarter blaenorol, fe wnaeth dyled marchnadoedd datblygol arian cyfred lleol (EMD), fel y'i mesurir gan y Mynegai JP Morgan GBI-EM Global Diversified, elwa o wendid yn noler yr Unol Daleithiau, gan offen y chwarter yn 7.6% uwch. Roedd hyn yn cymharu ag EMD arian cyfred caled, a gynyddodd 3.1% fel y'i mesurir gan y Fynegai Byd-eang JPM EMBI.

Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.70%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.6	5.7	2.1	-0.7
Net	1.5	5.5	1.9	-1.0
Mynegai FTSE World Gvt Bond (GBP Hedged)	1.4	5.2	1.6	-1.5
Gwarged enillion (gros)	0.2	0.5	0.5	0.8
Enillion dros ben (Net)	0.1	0.3	0.3	0.5

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025

Meincnod: FTSE World Government Bond Index (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Perfformiodd y Gronfa Bondiau Llywodraeth Byd-eang yn well na'r meincnod y chwarter hwn. Roedd gorbwysau'r Gronfa i gyfraddau ym Mecsico yn gyfrannwr allweddol bositif yn y cyfnod hwn – yn debyg i'r chwarter cyntaf. Roedd tan-bwysiad i faterion 30 mlynedd yn ardal yr Ewro yn gweddu i amgylchedd y farchnad. Cafodd amlygiad bach at gyfraddau yn Indonesia, De Affrica a Colombia eu gwobrwyo hefyd. Fe wnaeth tan-bwysiad i gyfraddau yn yr Unol Daleithiau a Japan roi pwysau ar berfformiad gwell ychwanegol yn y chwarter hwn.

O ran rheolwyr, tanberfformiodd RBC yn y chwarter hwn, gydag amlygiad i gyfraddau hirach yn Japan yn dynnwyr allweddol yn y cyfnod hwn. Fe wnaeth Colchester berfformio'n well er mwyn ehangu ei berfformiad cadarnhaol 2025-hyd yma. Parhaodd gor-bwysau i gyfraddau ym Mecsico yn brif yrrwr o berfformio'n well.

Cronfa Credyd Byd-eang:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.75%** sy'n fwy na meincnod yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	1.9	6.7	3.9	-0.4
Net	1.8	6.6	3.8	-0.6
Mynegai Bloomberg Barclays Global Agg Credit (GBP Hedged)	1.9	6.8	3.9	-0.4
Gwarged enillion (gros)	0.0	-0.1	0.0	0.0
Enillion dros ben (Net)	-0.1	-0.2	-0.1	-0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020

Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025

Meincnod: Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index (GBP Hedged)

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Roedd y Gronfa yn wastad yn erbyn y meincnod dros yr ail chwarter. Fe wnaeth amlygiad gor-bwysau'r Gronfa i gyfrannau credyd enillion uchel yr Unol Daleithiau (ariannol, diwydiannol) gyfrannu'n gadarnhaol. Fodd bynnag, cafodd hyn ei wrthbwyso gan yr effaith negyddol o amlygiad tan-bwysau i radd buddsoddi'r Unol Daleithiau (ariannol, diwydiannol). Mewn credyd yn Ewrop, roedd gorbwysau i enillion uchel elfennau diwydiannol yn ddefnyddiol. Mewn mannau eraill, fe wnaeth tanbwysau i raddfa buddsoddi Canada (ariannol, diwydiannol) leihau. Roedd amlygiad i arian cyfred caled dyled y farchnad ddatblygol yn aneffeithiol oherwydd tanbwysau i radd buddsoddi yn Asia, America Ladin, Ewrop a'r Dwyrain Canol. Bu i danbwysau i ddyled sofren Sbaeneg fod yn negyddol hefyd. Effeithiwyd yn negyddol ar berfformiad y Gronfa gan safle cyfraddau, yn bennaf Trysorlysoedd yr UD.

Robeco oedd y rheolwr a berfformiodd orau, wedi'i gefnogi gan or-bwysau i gyllid Ewrop ar draws enillion uchel a chredyd gradd buddsoddi. Fidelity berfformiodd waethaf. Tra bo' enillion a chredyd wedi cyfrannu'n gadarnhaol, fe wnaeth effeithiau cyfred leihau'n gymedrol. Ynglŷn â sector, fe wnaeth quasi, asiantaeth a thechnegol a chyfathrebu ychwanegu gwerth, tra bo' cyfleustodau a bancio wedi lleihau. Fel yn y chwarter blaenorol, y prif ran ar enillion cymharol oedd y tan-bwyso i radd buddsoddi Ewropeaidd. Fe wnaeth arbenigwr o'r UDA, Metlife, orffen y chwarter fwy neu lai yn unol â'r meincnod. Y prif gyfrannwr cadarnhaol oedd amlygiad gor-bwysau i enillion uchel elfennau ariannol a diwydiannol yr Unol Daleithiau, tra bo' tan-bwysau i raddfa buddsoddi diwydiannol yn aneffeithiol. Fel rhywbeth yn lle Western, cafodd Strategaeth Gredyd Byd-eang Coolabah ei hychwanegu i'r portfolio ar ddiwedd y chwarter.

Cronfa Credyd Aml-ased:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 4%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.5	8.6	8.0	3.9
Net	2.4	8.2	7.7	3.5
3 Mis GBP SONIA + 4%	2.1	9.0	8.6	6.9
Gwarged enillion (gros)	0.4	-0.4	-0.6	-3.0
Enillion dros ben (Net)	0.3	-0.8	-0.9	-3.4
Meincnod dyrannu asedau strategol	2.4	8.2	8.1	

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 30 Mehefin 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

*Nid yw amlygiad arian cyfred lleol EMD yn cael ei rag-fantoli yn y cyfanswm SAA hwn.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu i'r Gronfa gofnodi enillion cadarnhaol yn yr ail chwarter. Roedd safleoedd credyd a chyfraddau'r Gronfa yn bositif tra bod dyraniadau arian cyfred wedi lleihau. Mewn cyfraddau, gwobrwywyd amlygiad i Drysorlysoedd yr UD a byndiau'r Almaen. Roedd dyraniadau i giltiau'r DU hefyd yn ddefnyddiol. Mewn credyd, cyfrannwr cadarnhaol allweddol oedd amlygiad gor-bwysau i fenthyciadau banc, yn enwedig benthyciadau blwyddyn. Bu i amlygiad gor-bwysau i gredyd enillion uchel Ewropeaidd a'r Unol Daleithiau hefyd yn fuddiol. Mewn dyledion marchnadoedd datblygol arian cyfred, bu gor-bwysau i America Ladin yn gyfrannwr amlwg; bu gor-bwysau i Ewrop a'r Dwyrain Canol hefyd yn ychwanegyn. Mewn mannau eraill, roedd amlygiad i gredyd dyled gwarantedig yr Unol Daleithiau yn effeithiol oherwydd gor-bwyso i drosglwyddiadau risg credyd asiantaeth, gwarantau morgeisi masnachol nad ydynt yn rhai asiantaeth a rhwymedigaethau benthyciadau cyfochrog.

Adroddodd pob rheolwr enillion absoliwt positif. Ar sail gymharol, RBC UK (BlueBay) oedd y rheolwr a berfformiodd orau, yn perfformio'n well na'i feincnod yn sylweddol. Fe wnaeth Voya a GLG hefyd gyflawni enillion uwch na'r meincnod, gyda pherfformiad GLG yn cael ei yrru gan estyniadau cyfnod tactegol ym Mrasil, Mecsico a'r Unol Daleithiau. I'r gwrthwyneb, fe wnaeth arbenigwyr enillion uchel, Barings ac ICG, danberfformio eu meincnodau perthnasol.

Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

Mae'r is-gronfa yn anelu at gyflawni cyfanswm enillion (y cyfuniad o incwm a thwf cyfalaf), sy'n cyfateb i'r 3 Mis **GBP SONIA + 2%**, dros unrhyw gyfnod o bum mlynedd, ar ôl i'r holl gostau a ffioedd gael eu cymryd.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros*	1.3	7.0	6.5	4.4
Net*	1.2	6.6	6.1	4.0
3 Mis GBP SONIA + 2%	1.6	7.0	6.6	5.0
Gwarged enillion (gros)	-0.3	0.00	-0.1	-0.6
Gwarged enillion (Net)	-0.4	-0.4	-0.5	-1.0

Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020

Ffynhonnell: Russell Investments fel ar 30 Mehefin 2025

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Bu'r Gronfa ar ei hôl hi gyda'r targed yn y chwarter hwn. Cafodd perfformiad ei gefnogi gan ychwanegiad diweddar DNCA, a gyfrannodd yn gadarnhaol, gan ddychwelyd 1.67% ers cychwyn ar 23 Ebrill. Roedd safleoedd cyfnod rhanbarthol gweithredol DNCA yn brif yrrwr o'r perfformio gwell hyn.

Fe ychwanegodd Oaktree 1.66% yn ystod y chwarter, oedd hefyd yn cwrdd â'r targed enillion. Cynhyrchodd marchnadoedd credyd enillion cryf yn ystod yr ail chwarter, wedi'u gyrru gan ledaenu credyd yn tynhau a chyfradd y Trysorlys yn dirywio. Yn ôl diwydiant, fe wnaeth daliadau Meddalwedd/Gwasanaethau gyfrannu fwyaf at enillion absoliwt chwarterol, gyda REITs a Health Facilities yn dilyn hynny. Fe wnaeth daliadau fferyllol leihau. Fe wnaeth Aegon, rheolwr ABS y gronfa, ddychwelyd 0.97% yn y chwarter. Fe wnaeth perfformiad elwa o adfer lledaeniad ABS Ewropeaidd yn dilyn adlamu ar ôl 'Liberation Day'. Ar ôl prif farchnad tawel yn gynnar ym mis Ebrill, fe wnaeth ymdeimlad marchnad gwell ym mis Mai arwain at dynhau lledaeniad a gwell amodau cyhoeddiadau. Fe wnaeth galw cryf gan fuddsoddwyr, wedi'i danategu gan arian uwch, amsugno'r cynnydd mewn cyflenwad. Dychwelodd Wellington 0.66% yn ystod y chwarter, gan danberfformio'r SONIA Overnight Rate Index o 43bps. Fe wnaeth safleoedd parhad ardal yr Ewro a'r DU, wedi'u cyfuno â thuedd oedd yn mynd yn fwy serth, dynnu oddi ar berfformiad. Fodd bynnag, cafodd gwerth ei ychwanegu drwy leoli arian cyfred – yn fwyaf amlwg, tan-bwysau mewn doler yr Unol Daleithiau – a mwy o amlygiad i gredyd enillion uchel, gan gyfalafu ar ledaenu yn gynnar yn y chwarter.

Cronfa Credyd Sterling:

Mae disgwyl i'r is-gronfa gael perfformiad gwell o **0.65%** sy'n fwy na meincnod net yr is-gronfa o ffioedd, dros y tymor hwy.

	Ch2 2025	Blwyddyn	3 Blynedd	Ers Cychwyn
Gros	2.9	5.8	3.8	-0.3
Net	2.9	5.7	3.7	-0.4
Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling	2.9	6.0	3.1	-0.6
Gwarged enillion (gros)	0.0	-0.2	0.7	0.3
Enillion dros ben (Net)	0.0	-0.3	0.6	0.2

Dyddiad Cychwyn: COB 27 Gorffennaf 2020
Ffynhonnell: Northern Trust fel ar 31 Mehefin 2025
Meincnod: Mynegai ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling.

Mae'r dyddiad cychwyn yn seiliedig ar NAV cychwynnol ar gyfer yr is-gronfa. Gall y dyddiad cychwyn hwn (ac felly'r perfformiad) fod yn wahanol i'r rheolwr buddsoddi, sydd fel arfer yn cymryd drosodd ar ôl cyfnod pontio.

PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

GCM GROSVENOR PPC ISADEILEDD BYD-EANG LP

17 MEDI 2025

CYFRINACHOL - DDIM I'W AIL-DDOSBARTHU

Mae'r Nodiadau a'r Datgeliadau yn dilyn y cyflwyniad hwn yn rhan greiddiol ohono ac mae'n rhaid eu darllen mewn cysylltiad â'ch adolygiad o'r cyflwyniad hwn.

Mae GCM Grosvenor® a Grosvenor® yn nodau masnach i GCM Grosvenor L.P. a'i endidau cysylltiedig.

Paratowyd y cyflwyniad hwn gan GCM Grosvenor L.P. ac, os yn gymwys, GRV Securities LLC.

©2025 GCM Grosvenor L.P. a GRV Securities LLC. Cedwir pob hawl.

TABL CYNNWYS

Caeedig	GCM Grosvenor
Penagored	IFM, CBRE, Octopus
Atodiad	Nodiadau a Datgeliadau

CRONFEYDD CYFRANOGOL

Isadeiledd Caeedig

- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cronfa Bensiwn Clwyd
- Cronfa Bensiwn Dyfed
- Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Cronfa Bensiwn Powys
- Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
- Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
- Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Isadeiledd Penagored

- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
- Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Cronfa Bensiwn Powys
- Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
- Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

ADEILADU'R PORTFFOLIO


GCM PPC ISADEILEDD BYD-EANG LP

Rhaglen gaeedig yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau amrywiol ar draws buddsoddiadau cynradd, eilaidd a chyd-fuddsoddiadau yn y D.G, Ewrop a Gogledd America


TROSOLWG O'R RHAGLEN

Vintage: 2023	Tymor y Gronfa: Caedig	Math: Buddsoddiadau Cynradd, Eilaidd a Chyd- fuddsoddiadau
Strategaeth		
Is-ffocws: Buddsoddiadau cynaliadwy, effaith leol yng Nghymru		


CRYNODEB O'R RHAGLEN




Dyraniad yn ôl Daeryddiaeth



Dyraniad yn ôl Sector



Dyraniad yn ôl Math o Ased



Data fel ar 30 Mehefin 2025

1. Yn cynnwys Mehefin tri buddsoddiad ar ôl diwedd y chwarter.

Mae'r portfolio yma'n amodol i newid. **Ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y bydd unrhyw fuddsoddiad yn cyflawni eu hamcanion neu yn osgoi colledion.**




CRONFA ISADEILEDD BYD-EANG IFM

Mae'r Gronfa Isadeiledd Byd-eang yn buddsoddi mewn portffolio amrywiol o asedau isadeiledd ar draws y sectorau trafnidiaeth, ynni, cyfleustodau a digidol fydd yn ceisio cyflawni referniw sefydlog yn yr hirdymor.

TROSOLWG O'R RHAGLEN

Vintage 2004	Tymor y Gronfa: Penagored	Math: Isadeiledd Amrywiol
Strategaeth		
Buddsoddiadau mewn llwyfannau amrywiol, isadeiledd craidd ac asedau gyda ffocws ar wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)		

CRYNODEB O'R RHAGLEN




CRONFA ISADEILEDD BYD-EANG CBRE

Mae Cronfa Isadeiledd Byd-eang CBRE yn buddsoddi mewn asedau ar draws sectorau isadeiledd digidol, trafnidiaeth a phontio ynni, sydd â nodweddion cynhyrchu arian parod gyda chontract fanwl.


TROSOLWG O'R RHAGLEN

Vintage: 2018	Tymor y Gronfa: Penagored	Math: Isadeiledd Amrywiol:
Strategaeth		
Buddsoddiadau mewn isadeiledd amrywiol asedau yng nghanol y farchnad gyda llif arian wedi ei gontractio efo'r ffocws ar Ewrop a Gogledd America.		


CRYNODEB O'R RHAGLEN



Dyraniad yn ôl Sector



Dyraniad yn ôl Daeryddiaeth




ISADEILEDD ADNEWYDDADWY OCTOPUS SCSP (SKY)

Mae Cronfa Sky sydd yn bennaf mewn asedau trawsnewid craidd, wedi eu contractio a asedau sy'n rhoi arian parod ac asedau pontio ar draws y DG, Ewrop, Gogledd America ac APAC


TROSOLWG O'R RHAGLEN

Vintage: 2021	Tymor y Gronfa: Penagored	Math: Isadeiledd Adnewyddadwy:
Strategaeth		
Mae'r buddsoddiadau yn bennaf oll mewn asedau adnewyddadwy craidd ac asedau pontio ynni sy'n targedu awdurdodaethau yn y DG, Ewrop, Gogledd America ac APAC		


CRYNODEB O'R RHAGLEN



Dyraniad yn ôl Sector



Dyraniad yn ôl Daeryddiaeth



Tud. 59

Data fel ar 30 Mehefin 2025

Mae'r portfolio yma'n amodol i newid. Ni ellir rhoi unrhyw sicrwydd y bydd unrhyw fuddsoddiad yn cyflawni ei amcanion neu yn osgoi colledion.



Atodiad

NODIADAU A DATGELIADAU

Tud. 60

GCM GROSVENOR

Nodiadau a Datgeliadau (1 o 2)

Darparwyd y cyflwyniad hwn gan GCM Grosvenor L.P. (ynghyd â'i gysylltedigion, "GCM Grosvenor"). Mae GCM Grosvenor (NASDAQ:GCMG) yn ddarparwr atebion rheoli asedau byd-eang amgen ar draws ecwiti preifat, isadeiledd, eiddo tiriog, credyd a strategaethau buddsoddi enillion absoliwt.

Mae'r wybodaeth sydd yn y cyflwyniad hwn ("Gwybodaeth GCM") yn ymwneud â GCM Grosvenor, i un neu fwy o ffyrdd/cyfrifon buddsoddi a rheoli neu a gyfarwyddir gan GCM Grosvenor ("Cronfeydd GCM") a/neu un neu fwy o fuddsoddiadau ("Buddsoddiadau") wnaed gan Gronfeydd GCM. **Mae Gwybodaeth GCM yn gyffredinol ei natur ac nid yw'n ystyried amgylchiadau penodol unrhyw fuddsoddwr Nid yw Gwybodaeth GCM yn gyfystyr â chynnyg i werthu neu ddeisyfiad am gynnig i brynu buddiant mewn unrhyw Gronfa GCM. Rhaid i unrhyw gynnig i werthu neu ddeisyfiad am gynnig i brynu buddiant yng Nghronfa GCM fod gyda chynnyg cyfrinachol cyfredol Cronfa GCM neu ddogfen datgelu risg ("Dogfen y Gronfa").** Mae holl wybodaeth GCM yn amodol yn gyfangwbl i wybodaeth yn y Ddogfen Gronfa gymwys. Darllenwch Dogfen y Gronfa berthnasol cyn buddsoddi. **Ac eithrio fel y cytunwyd yn benodol, nid yw GCM Grosvenor yn gweithredu fel asiant/brocer i ddarpar fuddsoddwyr, Rhaid i fuddsoddwr ddibynnu ar ei archwiliad ei hun i adnabod ac asesu rhinweddau a risgiau buddsoddi mewn Cronfa GCM neu Fuddsoddiad (ynghyd â "Chynnyrch Buddsoddi") a dylai pob darpar fuddsoddwr ymgynghori gyda'i gyfreithiwr ei hun, ymgynghorydd busnes ac ymgynghorydd treth am faterion cyfreithiol, busnes, treth a materion cysylltiedig am unrhyw Gynhyrchion Buddsoddi.**

Gwelir crynodeb isod o rai risgiau ac ystyriaethau arbennig sy'n ymwneud â buddsoddi yng Nghronfa/Nghronfeydd GCM fel a drafodir yn y cyflwyniad hwn. Darperir crynodeb eglurhaol manylach yn Rhan 2A perthnasol o Ffurflen ADV i endid GCM Grosvenor (ar gael yn: <http://www.adviserinfo.sec.gov>) a hefyd fel a ddisgrifiwyd dan y rhan gyda'r pennawd "Factorau Risg" yn ffeiliau GCM Grosvenor gyda SEC, sydd yn hygyrch ar wefan SEC yn www.sec.gov. **Statws Rheoleiddio** - Nid yw Cronfeydd GCM na'r buddiannau yng Nghronfeydd GCM wedi eu cofrestru dan unrhyw ddeddfau gwarannau ffederal na gwladwriaeth, yn cynnwys Deddf Cwmni Buddsoddi 1940. Ni fydd buddsoddwyr yn derbyn gwarhodaeth deddfau o'r fath. **Risgiau'r Farchnad** - sef y risgiau sy'n gallu effeithio yn andwyol yn faterol ar werth Cronfa GCM. **Risgiau Hylifedd** - Mae gan fuddsoddwyr yng Nghronfeydd GCM unai hawliau cyfyngedig iawn neu ddim hawliau o gwbl i adbrynu neu drosglwyddo buddiannau. Nid yw buddiannau yn cael eu masnachu ar unrhyw gyfnewidfa gwarannu nac unrhyw farchnad arall. **Risgiau Strategaeth** - Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig gyda methiant posibl y fethodoleg dyrannu asedau, strategaethau buddsoddi neu dechnegau a ddefnyddir gan GCM Grosvenor neu Fuddsoddiad. Gall Cronfeydd GCM a Buddsoddiadau ddefnyddio trosoli, sy'n cynyddu'r risgiau o anwadalrwydd a cholled. Gall y ffioedd a godir gan Gronfeydd a Buddsoddiadau GCM wrthbwysio elw masnachu cronfeydd o'r fath. **Risgiau Prisio** - mae'r risgiau sy'n ymwneud â'r ffaiith bod prisiadau cronfeydd GCM Grosvenor yn gallu bod yn sylweddol wahanol i'r gwerthoedd llifedd yn y pendraw, a bod buddsoddwyr yn gallu bod yn prynu/adbrynu ar brisiadau a fedrai fod yn anghywir. **Risgiau Treth** - y risgiau treth ac ystyriaethau treth arbennig a gyfyd o weithredu a buddsoddi mewn cyfryngau buddsoddi wedi eu cronni. **Risgiau Sefydliadol** - sef y risgiau y gallai Cronfa GCM achosi colledion oherwydd methiant gwrth-bartion a sefydliadau ariannol eraill. **Risgiau Rheoli** - y risgiau sy'n gysylltiedig gyda Buddsoddiadau a wnaed gyda rheolwr buddsoddi trydydd parti neu noddwyr. **Risgiau Strwythurol a Risgiau Gweithredol** - y risgiau a gyfyd o strwythur y system a thelerau gweithredol y Gronfa GCM berthnasol a Buddsoddiadau. **Risgiau Seiber Ddiogelwch** - Gallai'r dechnoleg a ddefnyddir gan GCM Grosvenor fod mewn perygl gan drydydd parti di-awdurdod. **Risg Buddsoddi Tramor** - y risgiau o fuddsoddi mewn Cynhyrchion Buddsoddi nad ydynt yn rhai Gogledd America Cynhyrchion Buddsoddi nad ydynt yn rhai Gogledd America Arian cyfred y Ddoler. **Risg Dwysedd** - Gall Cronfeydd GCM wneud nifer gyfyngedig o fuddsoddiadau sy'n gallu arwain at newidiadau ehangach mewn gwerth a gall perfformiad gwael gan rai o'r buddsoddiadau effeithio yn ddifrifol ar gyfanswm yr enillion o Gronfeydd GCM o'r fath. Yn ychwanegol, mae GCM Grosvenor yn amodol i rai buddiannau posib a gwirioneddol sy'n gwrthdaro. Ni ddylid ystyried fod y ffactorau hyn yn oll-gynhwysol a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r datganiadau rhybuddiol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y cyflwyniad hwn a ffeiliau GCM Grosvenor gyda'r SEC.

NID YW PERFFORMIAD YN Y GORFFENNOL O ANGHENRAID YN DDANGOSOL O GANLYNIADAU'R DYFODOL, A GALL PERFFORMIAD POB CYNNYRCH BUDDSODDI FOD YN ANWADAL. MAE BUDDSODDI MEWN CYNNYRCH BUDDSODDI I'W HAPFASNACHOL SY'N GOLYGU RISG SYLWEDDOL (GAN GYNNWYS Y POSIBILRWYDD O GOLLI'R HOLL FUDDSODDIAD). NI ELLIR RHOI UNRHYW SICRWYDD Y BYDD UNRHYW GYNNYRCH BUDDSODDI YN CYFLAWNI EI AMCANION NEU YN OSGOI COLLEDION SYLWEDDOL.

Trwy dderbyn Gwybodaeth GCM, rydych yn deall, yn cydnabod ac yn cytuno bod: (a) Gwybodaeth GCM yn gyfrinachol ac yn briodol, ac ni chewch gopïo, trosglwyddo na dosbarthu Gwybodaeth GCM, neu unrhyw ddata neu wybodaeth arall a gynhwysir yn y ddogfen, nac awdurdodi camau o'r fath gan eraill, heb ganiatâd ysgrifenedig penodol GCM Grosvenor ymlaen llaw, ac eithrio y gellwch rannu gwybodaeth GCM gyda'ch cyngorwyr buddsoddi proffesiynol i gynorthwyo i werthuso GCM Grosvenor neu Gynnyrch Buddsoddi, a (b) Dim ond at ddibenion gwerthuso GCM Grosvenor neu Gynnyrch Buddsoddi y gellir defnyddio'r wybodaeth gennyh chi ac nid i unrhyw ddiben arall. Os ydych yn ymgynghorydd ariannol proffesiynol, gallwch rannu Gwybodaeth GCM gyda'r rhai hynny o'ch cleientiaid yr ydych yn rhesymol yn penderfynu sy'n gymwys i fuddsoddi yn y Cynnyrch Buddsoddi perthnasol (nid yw GCM Grosvenor yn tybio unrhyw gyfrifoldeb o safbwynt Gwybodaeth GCM a rennir sydd wedi ei chyflwyno mewn fformat sy'n wahanol i'r cyflwyniad hwn). Bydd mynd yn groes i'r uchod yn gallu golygu torri contract a deddfau hawlfraint cymwys. Yn ychwanegol, rydych yn (i) cydnabod y gallwch dderbyn gwybodaeth sydd ddim i'r cyhoedd sy'n ymwneud â gwarannau penodol neu offerynnau ariannol eraill a / neu gan gwyboddwyr y rhain; (ii) yn cydnabod eich bod yn ymwybodol bod deddfau gwarannau cymwys yn atal unrhyw berson sydd wedi derbyn deunydd, gwybodaeth sydd ddim i'r cyhoedd ynglŷn â gwarannau penodol a/neu dosbarthwr y rhain rhag (a) prynu neu werthu gwarannau o'r fath neu warannau eraill gan gyhoeddwr o'r fath neu b) drwy gyfathrebu gwybodaeth o'r fath i unrhyw berson arall o dan amgylchiadau pan fo'n rhesymol ragweladwy y bydd y person hwnnw yn debygol o brynu neu werthu gwarannau o'r fath neu warannau eraill cyhoeddwr; a (iii) yn cytuno i gydymffurfio gyda'r holl ddeunydd o safbwynt deddfau gwarannau o'r fath. **Felly, mae yn bosibl y gall masnachu mewn gwarannau a/neu gyhoeddwr y rhain sy'n destun y wybodaeth sydd yn y cyflwyniad hwn gael eu hatal gan y gyfraith.** Rydych hefyd yn cytuno bod gan Wybodaeth GCM efallai gyfyngiadau penodol yn gysylltiedig â (e.e. cyfnod segur, cyfyngiadau peidio â dosbarthu neu dim deisyfu) ac yn cytuno i gadw at gyfyngiadau o'r fath y rhoddid gwybod amdanynt. Nid yw GCM Grosvenor a'i gysylltedigion wedi yn annibynnol wirio gwybodaeth trydydd parti sydd wedi ei gynnwys yn y Wybodaeth GCM ac nid yw'n gwneud unrhyw sylw neu'n rhoi unrhyw warant o ran cywirdeb neu gyfanrwydd unrhyw wybodaeth gan drydydd parti. Mae'r wybodaeth a'r farn a fynegir ar y dyddiad a nodwyd yma ac ni ellir eu diweddarau i ddangos gwybodaeth newydd.

GCM GROSVENOR

Nodiadau a Datgeliadau (2 o 2)

Efallai nad yw Gwybodaeth GCM yn cynnwys data perfformiad diweddaraf y Cynhyrchion Buddsoddi. Os defnyddir dehongliad o'r ystadegau perfformiad (gan gynnwys dulliau ystadegol), bydd yn amodol i rai cyfyngiadau presennol. Bydd unrhyw ddata mynegai yng Ngwybodaeth GCM i ddibenion eglurhaol yn unig. Ac eithrio fel y darparwyd yn benodol fel arall, bydd y ffigurau i bob mynegai yn cael eu cyflwyno mewn doleri yr U.D. Mae'r ffigurau ar gyfer unrhyw fynegai yn cynnwys ail-fuddsoddi difidendau neu incwm llog a gallent gynnwys ffigurau wedi eu "hamcangyfrif" mewn amgylchiadau lle nad yw ffigurau "terfynol" ar gael eto. Nid yw'r mynegeion a ddangosir yn cael eu rheoli ac nid ydynt yn destun ffioedd a threuliau sy'n nodweddiadol o gyfryngau/cyfrifon buddsoddi. Efallai na fydd rhai mynegeion yn "fuddsoddadwy".

Mae GCM Grosvenor yn ystyried nifer o ffactorau wrth werthuso a dewis buddsoddiadau, a gall GCM Grosvenor ddefnyddio rhai neu bob un o'r prosesau a ddisgrifir yma wrth weithredu diwydrwydd dyladwy ar gyfer buddsoddiad. Mae asedau a reolir ar gyfer buddsoddiadau cronfeydd penagored Cronfeydd GCM yn cynnwys yr holl danysgrifiadau i, a chânt eu lleihau gan bob adbrynt o, Gronfa GCM a weithredir ar y cyd â chau busnes ar y dyddiad a nodir. Mae asedau a reolir ar gyfer cronfeydd caeedig Cronfeydd GCM yn cynnwys gwerth ased net Cronfa GCM ac unrhyw ymrwymadau buddsoddwyr heb eu dyrannu yn ystod cyfnod ymrwymiad Cronfa GCM yn ogystal ag unrhyw ymrwymadau heb eu hariannu i fuddsoddiadau sylfaenol wrth gau'r busnes ar y dyddiad a nodir. Gall GCM Grosvenor ddsbarthu Buddsoddiadau fel rhai sy'n dilyn "strategaethau" neu "is-strategaethau" penodol (gyda'i gilydd, "strategaethau") gan ddefnyddio ei ddisgresiwn rhesymol; gall GCM Grosvenor ddsbarthu Buddsoddiad mewn strategaeth benodol er na fydd efallai yn buddsoddi ei holl asedau mewn strategaeth o'r fath.

Gall Gwybodaeth GCM gynnwys gwybodaeth datguddiad y mae GCM Grosvenor wedi'i hamcangyfrif ar sail "edrych drwodd" yn seiliedig ar: (i) y wybodaeth ddatguddiad ddiweddaraf, ond nid o reidrwydd cyfredol, a ddarparwyd gan Fuddsoddiad, neu (ii) amcangyfrif GCM Grosvenor, sydd yn ei hanfod yn anfanwl. Mae GCM Grosvenor yn defnyddio confensiynau a methodolegau penodol wrth ddarparu Gwybodaeth GCM a all fod yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir gan reolwyr buddsoddi eraill. Nid yw Gwybodaeth GCM yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch gwarannau, strategaethau buddsoddi, diwydiannau neu sectorau penodol. Mae prosesau rheoli risg, arallgyfeirio a diwydrwydd dyladwy yn ceisio lliniaru, ond ni allant ddileu risg, ac nid ydynt ychwaith yn awgrymu risg isel.

I'r graddau y mae Gwybodaeth GCM yn cynnwys datganiadau "sy'n edrych i'r dyfodol", gan gynnwys o fewn ystyr Adran 27A o Ddeddf Gwarannau 1933, fel y'i diwygiwyd, ac Adran 21E o Ddeddf Cyfnewid Gwarannau 1934, fel y'i diwygiwyd, mae datganiadau o'r fath yn cynrychioli disgwyliadau GCM Grosvenor o ran didwylledd ynghylch gweithredoedd, digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, ac ni ellir byth eu hystyried fel arwydd a fydd gweithredoedd, digwyddiadau neu amodau penodol yn digwydd. Gallwch adnabod y datganiadau hyn sy'n "edrych i'r dyfodol" trwy ddefnyddio geiriau fel "rhagolwg", "dangosydd", "yn credu", "disgwyl", "posiblirwydd", "yn parhau", "gall", "bydd", "dylai", "yn ceisio", "oddeutu", "rhagfynegi", "bwriadu", "cynlluniau", "amcangyfrif", "rhagweld" neu fersiwn negyddol y geiriau hyn neu eiriau tebyg eraill. Yn unol â hynny, mae neu fe fydd ffactorau pwysig a allai achosi i ddeilliannau neu ganlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhai a nodir yng Ngwybodaeth GCM. Gall pob mynegiant o farn newid yn ddirybudd mewn ymateb i newid yn y farchnad, amodau economaidd neu amodau eraill. Nid yw GCM Grosvenor yn rhoi unrhyw sicrwydd y bydd yn cyflawni unrhyw un o'i disgwyliadau. Nid yw GCM Grosvenor yn ymgymryd ag unrhyw rwymedigaeth i ddiweddarau nac adolygu'n gyhoeddus unrhyw ddatganiadau sy'n edrych i'r dyfodol, boed hynny o ganlyniad i wybodaeth newydd, datblygiadau yn y dyfodol neu fel arall, ac eithrio fel sy'n ofynnol gan gyfraith berthnasol.

Mae GCM Grosvenor® a Grosvenor® yn nodau masnach i GCM Grosvenor L.P. a'i endidau cysylltiedig. ©2025 GCM Grosvenor L.P. Cedwir pob hawl. Mae GCM Grosvenor L.P. yn aelod o National Futures Association. Mae GRV Securities LLC ("GSLLC") yn gysylltiedig â GCM Grosvenor ac yn aelod o Awdurdod Rheoleiddio Diwydiant Ariannol yr U.D., Inc., yn gweithredu fel asiant lleoli ar ran rhai Cronfeydd GCM. Nid yw GSLLC yn cynnig unrhyw gynhyrchion buddsoddi ac eithrio'r buddiannau i rai cronfeydd penodol a reolir gan GCM Grosvenor a/neu ei gysylltiedigion. Nid yw GCM Grosvenor nac unrhyw un o'i gysylltiedigion yn gweithredu fel asiant/brocer i unrhyw Fuddsoddiad.

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	24 TACHWEDD 2025
TEITL	Cyfrifon Terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025 ac Archwiliad perthnasol
PWRPAS	Cyflwyno – • Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad; • Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru; • Llythyr Sylwadau
ARGYMHELLIAD	Ystyried adroddiad yr archwilydd, cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r llythyr.
SWYDDOGION PERTHNASOL	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi

1. CYFRIFON 2024/25

Mae Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2024/25 (ôl- archwiliad) wedi'u amgau yma ac yn rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Mae'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ddarganfyddiadau yr archwiliad.

3. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Gronfa Bensiwn ar 24 Tachwedd 2025.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau –

- Nodi'r adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru, a derbyn sylwadau'r archwilwyr,
- Ystyried a cymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ol-archwiliad ar gyfer 2024/25, a
- Awdurdodi'r Cadeirydd a s.151 (yn electroneg) i ardystio'r Llythyr Sylwadau ar ôl i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r uchod.

Cronfa Bensiwn Gwynedd

DATGANIAD O'R CYFRIFON 2024/25

ADRODDIAD NARATIF

Rhagarweiniad

Mae cyfrifon a nodiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2024/25 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 5 i 44.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys Cyfrif a Datganiad Asedau Net Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisiau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

Mae cyfrifon y Gronfa Bensiwn a'r nodiadau ynghlwm yn crynhoi trafodion ariannol ac asedau net ar gyfer darparu pensiynau a buddiannau taladwy eraill ar gyfer cyn-weithwyr holl gyflogwyr y Gronfa, gan gynnwys Cyngorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Cartrefi Conwy, Adra, amryw o gynghorau tref a chymuned, cyrff ar yr atodlen a chyrff a ganiateir.

Mae Datganiad o'r Cyfrifon a gwybodaeth pellach ar gael ar wefan Cronfa Bensiwn Gwynedd sef www.cronfabensiwnwynedd.cymru.

Mae gan y Gronfa ddau ddatganiad pwysig sydd yn gosod allan strategaethau er mwyn sicrhau bod y pensiynau wedi cael eu cyllido nawr ac yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Datganiad Strategaeth Gyllido – mae'r datganiad yn gosod allan strategaeth benodol i'r gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd orau wrth symud ymlaen. Caiff ei adolygu bob tair blynedd yn dilyn y prisiad actiwaraid ac mae'n cynnwys cyfraddau unigol i bob cyflogwr ar gyfer y cyfnod dilynol.
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi – mae'r datganiad yn gosod y math o fuddsoddiadau a therfynau llydan ar gyfer bob math o fuddsoddiad.

Mae'r ddau ddatganiad yma ar gael ar safle we y Gronfa o dan yr adran buddsoddiadau.

Mae'n ofynnol i gael Prisiad Actiwaraid bob tair blynedd er mwyn sefydlu'r lefel o asedau sydd ar gael er mwyn talu pensiynau nawr ac yn y dyfodol. Y prisiad diweddaraf yw fel ar 31 Mawrth 2022 a gwnaed unrhyw newidiadau i gyfraniadau y cyflogwyr o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Bydd y prisiad nesaf ar 31 Mawrth 2025 a bydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr yn effeithiol o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Delyth Jones-Thomas

Rheolwr Buddsoddi

01286 679128

delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru

Adran Cyllid

Cyngor Gwynedd

Swyddfa'r Cyngor

Caernarfon

Gwynedd

LL55 1SH

Mae yn rhan o bolisi'r Gronfa i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Gronfa. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Gronfa Bensiwn ar yr adeg briodol.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y GRONFA BENSIWN

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd fel awdurdod gweinyddu (i bob pwrpas yr ymddiriedolwr) ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

24 Tachwedd 2025

Cynghorydd Elin Hywel
Cadeirydd, Pwyllgor Pensiynau

CYFRIFOLDEBAU Y PENNAETH CYLLID

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus; ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 31 Mawrth 2025, ac incwm a gwariant y Gronfa Bensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



Dewi Morgan CIPFA
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

12 Tachwedd 2025

CYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

CYFRIF Y GRONFA

31 Mawrth 2024 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2025 £'000
	Delio gydag aelodau, cyflogwyr ac eraill sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r Gronfa		
94,278	Cyfraniadau	7	101,760
3	Incwm arall	8	3
8,575	Trosglwyddiadau i mewn o gronfeydd pensiwn eraill	9	9,156
102,856			110,919
(82,931)	Buddion	10	(94,520)
(5,068)	Taliadau i ac oherwydd ymadawyr	11	(7,870)
(87,999)			(102,390)
14,857	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net yn sgil ymwneud ag aelodau		8,529
(15,042)	Costau rheoli	12	(18,282)
(185)	Ychwanegiadau/ (alldyniadau) net gan gynnwys costau rheoli'r gronfa		(9,753)
	Enillion ar fuddsoddiadau		
47,956	Incwm buddsoddi	13	65,847
260,095	Elw a cholledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	14	105,626
308,051	Enillion net ar fuddsoddiadau		171,473
307,866	Cynnydd/ (Lleihad) yn yr asedau net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn		161,720
2,762,129	Asedau net agoriadol y gronfa		3,069,995
3,069,995	Asedau net terfynol y gronfa		3,231,715

Mae'r nodiadau ar dudalennau 7 i 44 yn rhan o'r Datganiadau Cyllidol

DATGANIAD ASED AU NET

31 Mawrth 2024 £'000		Nodiadau	31 Mawrth 2025 £'000
3,036,264	Asedau Buddsoddi	14	3,192,243
499	Adneuon arian parod	14	1,546
(333)	Ymrwymadau Buddsoddi	14	(642)
3,036,430	Cyfanswm buddsoddiadau net		3,193,147
37,723	Asedau cyfredol	20	42,580
(4,158)	Ymrwymadau cyfredol	21	(4,012)
3,069,995	Asedau net y gronfa ar gael i ariannu buddion ar ddiwedd y cyfnod adrodd		3,231,715

Nid yw'r Datganiadau Cyllidol yn cynnwys ymrwymadau'r Gronfa i dalu pensiynau a budd-daliadau eraill i holl gyfranwyr presennol y Gronfa ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ond yn hytrach mae'n crynhoi trafodion ac asedau net y Gronfa. Ystyrir ymrwymadau'r Gronfa ym mhresiadau cyfnodol yr actiwari o'r Gronfa (y mwyaf diweddar ar 31 Mawrth 2022) ac fe'u hadlewyrchir yn lefelau cyfraniadau'r cyflogwyr a bennir gan y prisiad hwn, fel bydd y Gronfa yn gallu cwrdd ag ymrwymadau'r dyfodol. Dangosir gwerth presennol actiwariaidd ar gyfer buddiannau a addawyd yn Nodyn 19.

NODIADAU AR GYFRIFON CRONFA BENSIWN GWYNEDD

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd ("y Gronfa") yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ac fe'i gweinyddir gan Gyngor Gwynedd.

a) Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd);
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig cyfrannol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd i roi pensiynau a buddion eraill i weithwyr pensynadwy Cyngor Gwynedd, dau awdurdod lleol arall a chyrff ar yr atodlen, cyrff a benderfynir a chyrff eraill a ganiateir sydd o fewn cyn ardal Cyngor Sir Gwynedd. Nid yw athrawon, swyddogion yr heddlu a gweithwyr y gwasanaeth tân wedi'u cynnwys gan eu bod yn rhan o gynlluniau pensiwn cenedlaethol eraill. Mae'r Gronfa'n cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Pensiynau, sef un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd.

b) Aelodaeth

Mae bod yn aelod o'r CPLIL yn rhywbeth gwirfoddol ac mae gweithwyr yn rhydd i ddewis p'un a ydynt am ymuno â'r cynllun, parhau'n aelod o'r cynllun neu wneud eu trefniadau personol y tu allan i'r cynllun. Ymysg y sefydliadau sy'n cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd mae:

- Cyrff ar yr atodlen, sy'n awdurdodau lleol a chyrff tebyg ble mae gan eu staff hawl awtomatig i fod yn aelodau o'r Gronfa.
- Cyrff a benderfynir, sy'n gyngor dinas, tref neu gymuned. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu os caiff eu gweithwyr ymuno â'r CPLIL ac i fabwysiadu'r penderfyniad yn unol â hynny.
- Cyrff a ganiateir, sy'n sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Gronfa dan gytundeb mynediad rhwng y Gronfa a'r sefydliad perthnasol. Mae'r cyrff a ganiateir yn cynnwys cyrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol wedi i'r swyddogaeth gael ei allanoli i'r sector preifat.

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Mae'r cyrff canlynol yn gyflogwyr gweithredol yn y Gronfa Bensiwn:

Cyrff ar yr Atodlen	
Cyngor Gwynedd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Ysgol Bryn Elan
Cyngor Sir Ynys Môn	Ysgol Emrys ap Iwan
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Ysgol Pen y Bryn
Grŵp Llandrillo – Menai	Ysgol Uwchradd Eirias
GwE	Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	
Cyrff a Benderfynir	
Cyngor Cymuned Llanllyfni	Cyngor Tref Ffestiniog
Cyngor Dinas Bangor	Cyngor Tref Llandudno
Cyngor Tref Abergele	Cyngor Tref Llangefni
Cyngor Tref Bae Colwyn	Cyngor Tref Porthaethwy
Cyngor Tref Biwmares	Cyngor Tref Towyn a Bae Cinnel
Cyngor Tref Caergybi	Cyngor Tref Tywyn
Cyngor Tref Caernarfon	Cyngor Tref Conwy
Cyngor Tref Llanfairfechan	Cyngor Tref Llanrwst
Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf (ers 01/08/2024)	
Cyrff a Ganiateir	
Addysg Oedolion Cymru	Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
Adferiad Recovery	Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy
Cydbwyllgor Claddu Caergybi	Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin
Cwmni'r Frân Wen	Mantell Gwynedd
Menter Môn	Medrwn Môn
Cyrff Cymunedol a Ganiateir	
Cartrefi Conwy	Adra
Byw'n Iach	
Cyrff Trosglwyddai a Ganiateir	
ABM Catering	A E & A T Lewis
Kingdom Services Group	Chartwells

NODYN I – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

Nodir manylion aelodaeth isod:

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Nifer y cyflogwyr	46	47
Nifer y gweithwyr yn y cynllun		
Cyngor Sir	15,236	15,198
Cyflogwyr eraill	4,112	4,214
Cyfanswm	19,348	19,412
Nifer y pensiynwyr		
Cyngor Sir	10,194	10,746
Cyflogwyr eraill	2,310	2,530
Cyfanswm	12,504	13,276
Pensiynwyr gohiriedig		
Cyngor Sir	12,093	12,435
Cyflogwyr eraill	2,326	2,411
Cyfanswm	14,419	14,846
Buddion heb eu hawlio		
Cyngor Sir	3,473	4,055
Cyflogwyr eraill	533	628
Cyfanswm	4,006	4,683
Ymadawyr heb benderfynu		
Cyngor Sir	2,738	1,604
Cyflogwyr eraill	300	188
Cyfanswm	3,038	1,792
Cyfanswm yr aelodau yn y cynllun Pensiwn	53,315	54,009

c) Cyllid

Mae'r buddion yn cael eu cyllido gan gyfraniadau ac enillion ar fuddsoddiadau. Mae aelodau gweithredol y Gronfa'n talu cyfraniadau yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ac roeddent yn amrywio o 2.75% i 12.5% o dâl pensiynadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Gosodir cyfraniadau cyflogwyr yn seiliedig ar brisiadau actiwaraid a gynhelir pob tair blynedd. Roedd y prisiad perthnasol ar gyfer y flwyddyn yma ar 31 Mawrth 2022. Mae cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr yn amrywio o 0.0% i 31.8% o dâl pensiynadwy.

NODYN 1 – DISGRIFIAD O'R GRONFA (parhad)

d) Buddion

Mae buddion pensiwn dan y CPLIL cyn 1 Ebrill 2014, yn seiliedig ar y tâl pensiynadwy terfynol a hyd y gwasanaeth pensiynadwy; gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth cyn 1 Ebrill 2008	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2008
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/80 x cyflog pensiynadwy terfynol.	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/60 x cyflog pensiynadwy terfynol.
Lwmp swm	Lwmp swm awtomatig o 3 x cyflog. Yn ogystal, gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

O 1 Ebrill 2014, daeth y Gronfa yn gynllun cyfartaledd cyflog gyrfa. Gweler y crynodeb isod:

	Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014
Pensiwn	Mae pob blwyddyn a weithiwyd gwerth 1/49 x cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbriso (CARE)
Lwmp Swm	Dim lwmp swm awtomatig. Gellir cyfnewid rhan o'r pensiwn blynyddol am daliad arian parod di-dreth unwaith ac am byth. Telir lwmp swm o £12 am bob £1 o bensiwn a ildir.

Caiff pensiwn cronedig ei gynyddu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Darperir amrediad o fuddion eraill dan y cynllun yn cynnwys ymddeoliad cynnar, pensiynau anabledd a buddion marwolaeth. Am fwy o fanylion, cyfeiriwch at lawlyfr cynllun Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd ar gael gan Adain Pensiynau Cyngor Gwynedd.

NODYN 2 – SAIL PARATOI

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn ar 31 Mawrth 2025. Mae'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024/25 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh), fel y'u diwygiwyd ar gyfer sector cyhoeddus y DU. Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae paragraff 3.3.1.2 o'r Côt yn gofyn i unrhyw safonau cyfrifyddu sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadau eto gael eu datgan. Nid oes safonau cyfrifyddu o'r fath wedi'u nodi ar gyfer 2024/25.

Mae'r cyfrifon yn crynhoi trafodion y Gronfa ac yn adrodd ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion pensiwn. Nid yw'r cyfrifon yn rhoi ystyriaeth i rwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, na gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol. Gweler gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo, ble bo'u gwerth wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar Safon Cyfrifo Genedlaethol (SCC) 19, yn Nodyn 19 y cyfrifon hyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL

Cyfrif y Gronfa – cydnabyddiaeth refeniw

a) Incwm o Gyfraniadau

Cyfrifir cyfraniadau arferol ar sail gronadol fel a ganlyn:

- Mae cyfraddau cyfraniadau gweithwyr yn cael eu gosod yn unol â rheoliadau CPLIL, gan ddefnyddio cyfraddau canrannol cyffredin ar gyfer pob cynllun sy'n codi yn ôl tâl pensiynadwy.
- Mae cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar y gyfradd ganrannol a argymhellir gan actiwari'r gronfa yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo.

Mae cyfraniadau cyflogwyr i ddiffygion cronfeydd yn cael eu cyfrif ar y dyddiadau y maent yn daladwy dan atodlen cyfraniadau a gosodwyd gan actwari y Gronfa, neu wrth eu derbyn os yw hynny'n digwydd cyn y dyddiad maent yn ddyledus.

Cyfrifir am gyfraniadau ychwanegol cyflogwyr a chyfraniadau straen pensiwn yn y cyfnod ble mae'r ymrwymadau dan sylw yn codi. Ystyrir bod unrhyw swm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn, ond nad ydyw wedi'i dalu, yn ased ariannol cyfredol. Ystyrir bod unrhyw swm nad ydyw'n ddyledus nes flynyddoedd yn y dyfodol yn ased ariannol tymor hir.

b) Trosglwyddiadau o gynlluniau eraill ac i gynlluniau eraill

Mae trosglwyddiadau i mewn ac allan yn ymwneud ag aelodau sydd wedi ymuno neu adael y gronfa.

Mae trosglwyddiadau unigol i mewn/ allan yn cael eu cyfrifo pan gânt eu derbyn neu eu talu. Cyfrifir am drosglwyddiadau i mewn gan aelodau sy'n dymuno defnyddio'r enillion o'u cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (gweler isod) i brynu buddion ar sail derbynion ac maent wedi'u cynnwys dan Drosglwyddiadau i Mewn (gweler Nodyn 9).

Cyfrifir am drosglwyddiadau swmp (grŵp) yn seiliedig ar groniadau yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

c) Incwm buddsoddi

i) Incwm llog

Cydnabyddir incwm llog yng nghyfrif y Gronfa wrth iddo gronni, gan ddefnyddio cyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol ar dyddiad caffael neu fan cychwyn.

ii) Incwm difidend

Cydnabyddir incwm difidend ar y dyddiad pan fo'r cyfranddaliadau'n cael eu dyfynnu fel rhai cyn-ddifidend. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iii) Dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno yn cynnwys eiddo

Cydnabyddir dosbarthiadau o gronfeydd wedi'u cyfuno ar y dyddiad pan maent yn cael eu cyflwyno. Cyfeirir at unrhyw swm nad ydyw wedi'i dderbyn erbyn diwedd y cyfnod adrodd yn y datganiad asedau net fel ased ariannol cyfredol.

iv) Newid yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad

Cydnabyddir newidiadau yng ngwerth net buddsoddiadau ar y farchnad fel incwm ac maent yn cynnwys yr holl elw/colledion a wireddwyd ac na wireddwyd yn ystod y flwyddyn.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISÏAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Cyfrif y Gronfa – eitemau sy'n creu costau

d) Buddion sy'n daladwy

Mae'r buddion pensiwn a lwmp swm sy'n daladwy'n cynnwys yr holl symiau a wyddys eu bod yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cyfeirir at unrhyw swm sy'n ddyledus ond nad ydyw wedi'i dalu yn y datganiad asedau net fel ymrwymïadau cyfredol, ar yr amod bod y taliad wedi'i gymeradwyo.

e) Costau rheoli

Mae'r gronfa'n datgelu ei chost reoli yn unol â chanllawiau CIPFA, *Accounting for Local Government Pension Scheme Management Expenses (2016)*, fel y dangosir isod. Codir pob eitem o wariant ar y gronfa ar sail gronol fel a ganlyn:

Costau gweinyddol

Mae holl gostau staff y tîm gweinyddu pensiynau'n cael eu codi'n uniongyrchol ar y Gronfa. Mae ad-daliadau'r Cyngor am gostau rheoli, llety a gorbenion eraill hefyd yn cael eu cyfrif fel costau gweinyddol y gronfa.

Costau arolygu a llywodraethu

Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â goruchwyllo a llywodraethu yn cael eu nodi ar wahân, eu dosrannu i'r gweithgaredd hwn a'u codi fel costau i'r gronfa.

Costau rheoli buddsoddiadau

Codir ffioedd buddsoddi yn uniongyrchol ar y gronfa fel rhan o gostau rheoli ac ni chânt eu cynnwys yn yr enillion a adroddwyd ar fuddsoddiadau, na'u netio oddi wrthynt. Pan fydd ffioedd yn cael eu netio oddi ar enillion gan reolwyr buddsoddi, mae'r costau hyn yn cael eu grosio i fyny i gynyddu'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ffioedd y rheolwyr buddsoddi a'r gwarcheidwad allanol wedi'u nodi yn y mandadau perthnasol sy'n llywodraethu eu penodiadau. Yn fras, mae'r rhain yn seiliedig ar werth marchnad y buddsoddiadau sydd o dan eu rheolaeth ac felly'n cynyddu neu'n lleihau wrth i werth y buddsoddiadau hyn newid.

Mae costau trafodion yn ymwneud a prynu a gwerthu asedau'r cronfeydd ac yn cael eu egluro yn y nodiadau i'r cyfrifon.

f) Treth

Mae'r Gronfa'n gynllun gwasanaeth cyhoeddus cofrestredig dan adran I(1) Atodlen 36 Deddf Cyllid 2004 ac o ganlyniad mae'r llog a dderbynnir yn eithriedig rhag treth incwm y DU a rhag treth ar enillion cyfalaf ar yr enillion a geir o'r buddsoddiadau a werthir. Mae treth atal yn daladwy ar incwm a geir o fuddsoddiadau tramor yn y wlad ble maent yn tarddu, oni bai bod eithriad wedi'i ganiatáu. Cyfrifir am dreth anadferadwy fel cost i'r Gronfa fel mae'n codi.

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

Datganiad asedau net

g) Asedau ariannol

Mae'r holl asedau buddsoddi wedi'u cynnwys yn y datganiad asedau net yn seiliedig ar eu gwerth teg ar y dyddiad adrodd. Cydnabyddir ased ariannol yn y datganiad asedau net ar y dyddiad y caiff y Gronfa gytundeb ei fod yn cael yr ased. Cydnabyddir unrhyw enillion neu golledion ar werthiannau buddsoddi sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ased yng nghyfrif y gronfa.

Mae gwerth y buddsoddiadau fel sy'n ymddangos yn y datganiad asedau net wedi'u pennu ar werth teg yn unol â gofyniad y Côt ac SAARh 13 (gweler nodyn 15). Ar gyfer dibenion datgelu lefelau hierarchaeth gwerth teg, mae'r gronfa wedi mabwysiadu'r canllawiau dosbarthu a argymhellir yn y Canllawiau Ymarferol ar Ddatgeliadau Buddsoddi (PRAG/ Investment Association, 2016).

h) Trafodion arian tramor

Mae difidendau, llog a phryniannau a gwerthiannau buddsoddiadau mewn arian tramor wedi'u cyfrifo'n seiliedig ar y cyfraddau cyfredol ar y farchnad ar ddyddiad y trafodion. Defnyddir cyfraddau cyfnewid cyfredol ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn i gyfrifo gwerth balansau arian parod a ddelir mewn cyfrifon banc arian tramor, gwerth buddsoddiadau tramor ar y farchnad a gwerthiannau sy'n aros ar ddiwedd y cyfnod adrodd.

i) Arian a chywerthoedd arian

Mae arian parod yn cynnwys arian parod sydd ar gael ac adneuon ar alw ac mae'n cynnwys symiau a ddelir gan reolwyr allanol y gronfa. Mae'r holl falansau arian parod yn fuddsoddiadau byrdymor, hylifol iawn y gellir eu trosglwyddo'n arian parod yn rhwydd, ac nad oes llawer o risg y bydd eu gwerth yn newid.

j) Ymrwymadau ariannol

Cydnabyddir ymrwymiad ariannol yn y datganiad ased net ar y dyddiad y daw'r gronfa yn gyfreithiol gyfrifol am yr ymrwymiad hwnnw. Mae'r gronfa'n cydnabod ymrwymadau ariannol sy'n ymwneud â masnachu buddsoddiadau ar werth teg ac mae unrhyw enillion a cholledion sy'n deillio o newidiadau yng ngwerth teg yr ymrwymiad rhwng dyddiad y contract, dyddiad diwedd y flwyddyn a'r dyddiad setliad yny pen draw yn cael eu cydnabod yng nghyfrif y gronfa fel rhan o'r newid yng ngwerth buddsoddiadau.

Mae ymrwymadau ariannol eraill sy'n cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio yn cael eu cario yn y datganiad asedau net ar werth y brifswm sy'n ddyledus ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae unrhyw log sy'n ddyledus ond heb ei dalu eto yn cael ei gyfrif ar sail croniadau ac mae'n cael ei gynnwys mewn costau gweinyddol.

k) Gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo

Asesir gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo teirblynyddol gan actiwari'r Gronfa yn unol â gofynion SCCI9 a'r safonau actiwaraid perthnasol.

Fel y caniateir o dan y Côt, mae'r Gronfa wedi dewis datgelu gwerth actiwaraid cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo drwy gynnwys hysbysiad yn y datganiad asedau net (Nodyn 19).

NODYN 3 – CRYNODEB O BOLISIAU CYFRIFEG ARWYDDOCAOL (parhad)

l) Cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn darparu cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC) ar gyfer ei aelodau ac mae asedau'r cynllun hwnnw'n cael eu buddsoddi ar wahân i asedau'r Gronfa Bensiwn. Mae tair cronfa AVC. Delir y cronfeydd hyn gyda Clerical Medical, Utmost Life a Standard Life. Mae'r darparwyr AVC yn diogelu buddion ychwanegol ar sail prynu arian ar gyfer yr aelodau hynny sy'n dewis talu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol. Mae pob aelod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hyn yn derbyn datganiad blynyddol hyd at 31 Mawrth yn cadarnhau'r symiau a ddelir yn eu cyfrif a'r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

Nid yw AVCs yn cael eu cynnwys yn y cyfrifon, yn unol ag Adran 4(1)(b) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ond fe'u datgelir er gwybodaeth yn unig yn Nodyn 22.

m) Asedau dibynnol ac ymrwymadau dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd gan arwain at ased posibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Mae ymrwymiad dibynnol yn codi pan fydd digwyddiad cyn diwedd y flwyddyn wedi creu ymrwymiad ariannol bosibl y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau neu fel arall gan ddigwyddiadau yn y dyfodol. Gall ymrwymadau dibynnol godi hefyd pan nad yw'n bosib ar y Fantolen fesur gwerth yr ymrwymiad ariannol yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir asedau ac ymrwymadau dibynnol yn y datganiad asedau net ond fe'u datgelir trwy naratif yn y nodiadau.

NODYN 4 – DYFARNIADAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU POLISIAU CYFRIFO

Buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd heb eu dyfynnu

Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn seiliedig yn bennaf ar amcangyfrifon a dyfarniadau sy'n edrych tua'r dyfodol sy'n cynnwys sawl ffactor. Mae rheolwyr buddsoddi'n pennu gwerth buddsoddiadau ecwiti heb eu dyfynnu, credyd preifat ac isadeiledd gan ddefnyddio canllawiau sydd wedi'u gosod gan safon cyfrifo SAARh. Roedd gwerth y gwarantau preifat heb eu dyfynnu ar 31 Mawrth 2025 yn £413.0 miliwn (£267.2 miliwn ar 31 Mawrth 2024).

Ymrwymadau'r gronfa pensiwn

Cyfrifir ymrwymadau'r gronfa pensiwn pob tair blynedd gan yr actiwari sydd wedi'i benodi, a darperir diweddariadau blynyddol yn ystod y blynyddoedd rhwng pob prisiad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn unol â chanllawiau cymeradwy ac yn unol ag SCC19. Mae'r rhagdybiaethau sy'n tanategu'r prisiadau yn cael eu cytuno gyda'r actiwari a cheir crynodeb ohonynt yn Nodyn 18. Mae'r amcangyfrif hwn yn destun amrywiaethau arwyddocaol yn seiliedig ar newidiadau i'r rhagdybiaethau gwaelodol.

NODYN 5 – RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU PWYSIG ERAILL SY’N RHOI ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIFO

Wrth baratoi datganiadau ariannol, mae gofyn i’r rheolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau sy’n effeithio ar y symiau yr adroddir arnynt. Amcangyfrifir a rhagdybiaethir drwy roi ystyriaeth i brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a disgwyliadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai’r gwir ganlyniadau fod yn bur wahanol i’r rhagdybiaethau a’r amcangyfrifon.

Mae’r eitemau yn y datganiad asedau net ble mae risg arwyddocaol o amrywiaethau materol yn y flwyddyn ariannol i ddod, fel a ganlyn:

Eitem	Ansicrwydd	Effaith os yw’r gwir ganlyniadau’n wahanol i’r rhagdybiaethau
Gwerth cyfredol actiwaraid y buddion ymddeol a sydd wedi’u haddo (Nodyn 19)	Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau’n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy’n ymwneud â’r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir, codiadau cyflog, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaeth ac enillion ar asedau’r gronfa. Cyflogir Hymans Robertson i roi cyngor arbenigol i’r gronfa am y rhagdybiaethau i’w defnyddio.	Gellir mesur effeithiau newidiadau mewn rhagdybiaethau unigol ar ymrwymadau pensiynau net. Fodd bynnag, mae’r rhagdybiaethau’n rhyngweithio mewn ffyrdd cymhleth.
Ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd	Mae gwerth teg buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn cael ei bennu’n unol ag arweiniad y <i>British Venture Capital Association</i> (Rhagfyr 2018). Nid yw’r buddsoddiadau hyn yn cael eu rhestru’n gyhoeddus ac fel y cyfryw, mae elfen o amcangyfrif yn gysylltiedig â’r prisiad.	Mae cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti preifat, credyd preifat ac isadeiledd yn y datganiadau ariannol yn £413.0 miliwn. Mae risg bod y buddsoddiad wedi’i nodi’n rhy isel neu’n rhy uchel yn y cyfrifon.

NODYN 6 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD ADRODD

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl diwedd y flwyddyn i’w adrodd.

NODYN 7 – CYFRANIADAU DERBYNIADWY

Yn ôl categori

2023/24		2024/25
£'000		£'000
23,500	Cyfraniadau gweithwyr	24,831
	Cyfraniadau cyflogwyr:	
70,948	• Cyfraniadau arferol	76,844
(170)	• Eraill*	85
70,778	Cyfanswm cyfraniadau cyflogwyr	76,929
94,278	Cyfanswm cyfraniadau derbyniadwy	101,760

Yn ôl math o gyflogwr

2023/24		2024/25
£'000		£'000
30,331	Cyngor Gwynedd	32,503
58,497	Cyrff eraill ar yr atodlen	63,001
1,799	Cyrff a ganiateir	1,872
3,269	Cyrff cymunedol a ganiateir	3,691
151	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	150
403	Cyrff a benderfynir	458
(172)	Cronfeydd caeedig*	85
94,278		101,760

* Cyfraniadau cyflogwyr eraill - mae hyn yn ymwneud â thaliad credyd ymadael i gyflogwr a oedd gynt yn y Gronfa.

** Cronfeydd caeedig - mae hyn yn ymwneud â thaliad credyd ymadael ar ôl i gyflogwr orffen yn y gronfa. Roedd y cyflogwr yn flaenorol yn gorff a ganiateir ond bellach yn gronfa caeedig.

NODYN 8 – INCWM ARALL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
2	Llog ar gyfraniadau gohiriedig	0
1	Incwm ar gyfrifo ysgariad	3
3		3

NODYN 9 – TROSGLWYDDIADAU I MEWN O GRONFEYDD PENSIWN ERAILL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
8,575	Trosglwyddiadau unigol	9,156
8,575		9,156

NODYN 10 – BUDDION A DALWYD

Yn ôl categori

2023/24		2024/25
£'000		£'000
62,931	Pensiynau	70,063
16,841	Cymudiad a buddion ymddeol lwmp swm	21,597
3,159	Buddion marwolaeth – lwmp swm	2,860
82,931		94,520

Yn ôl math o gyflogwr

2023/24		2024/25
£'000		£'000
25,340	Cyngor Gwynedd	28,742
40,911	Cyrff eraill ar yr atodlen	48,151
1,671	Cyrff a ganiateir	2,085
1,916	Cyrff cymunedol a ganiateir	2,417
50	Cyrff trosglwyddo a ganiateir	56
189	Cyrff a benderfynir	133
12,854	Cronfeydd gaeedig	12,936
82,931		94,520

NODYN 11 – TALIADAU I RAI SY’N YMADAEL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
271	Ad-daliadau i aelodau sy’n ymadael â’r gwasanaeth	209
(1)	Taliadau i aelodau sy’n ymuno â chynllun y wladwriaeth	0
4,798	Trosglwyddiadau unigol	7,661
5,068		7,870

NODYN 12 – COSTAU RHEOLI

2023/24		2024/25
£'000		£'000
12,866	Costau rheoli buddsoddiadau	15,738
1,720	Costau gweinyddol	1,988
456	Costau arolygaeth a llywodraethu	556
15,042		18,282

NODYN 12a- COSTAU RHEOLI BUDDSODDIADAU

2024/25	Ffioedd rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	594	101	695
Ecwiti	1,807	986	2,793
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,708	0	1,708
Credyd preifat	990	0	990
Ecwiti preifat	4,370	0	4,370
Isadeiledd	4,763	88	4,851
	14,232	1,175	15,407
Ffioedd gwarchodaeth			331
Cyfanswm			15,738

2023/24	Ffioedd Rheolwyr £'000	Costau trafodion £'000	Cyfanswm £'000
Cronfeydd cyfun			
Incwm sefydlog	502	28	530
Ecwiti	1,910	944	2,854
Buddsoddiadau eraill			
Buddsoddiadau eiddo cyfun	1,740	0	1,740
Credyd preifat	722	0	722
Ecwiti preifat	3,871	0	3,871
Isadeiledd	2,875	0	2,875
	11,620	972	12,592
Ffioedd gwarchodaeth			274
Cyfanswm			12,866

Mae'r ffioedd rheoli uchod yn cynnwys yr holl ffioedd rheoli buddsoddiadau a grëwyd yn uniongyrchol gany Gronfa, yn cynnwys y ffioedd a godwyd ar gronfeydd buddsoddi wedi'u cyfuno. Ni thalwyd unrhyw ffioedd sy'n gysylltiedig â pherfformiad i'r rheolwyr buddsoddi. Yn ogystal a'r costau hyn, rhaid talu costau anuniongyrchol a ddaw yn sgil y gwasgariad bid-cynnig ar werthu a phrynu buddsoddiadau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu yng nghostau prynu buddsoddiadau ac yn yr enillion a geir wrth werthu buddsoddiadau yn Nodyn 14a.

Mae cronfeydd PPC Global Growth, Global Opportunities, Sustainable Equity, Multi Asset Credit, Absolute Return Bond, Global Credit ac Emerging Markets yn fuddsoddiadau a benodir drwy ddull rheolwr o reolwyr sydd â'u ffioedd sylfaenol eu hunain. Mae'r adenillion ar gyfer y mandad hwn yn net o'r ffioedd rheolwr sylfaenol a adlewyrchir yn Nodyn 14a o fewn y 'Newid mewn Gwerth Marchnad'. Er mwyn tryloywder, roedd y ffioedd yn 2024/25 yn £4,125,186 (£3,074,340 yn 2023/24).

NODYN 12b- COSTAU GWEINYDDOL

2023/24		2024/25
£'000		£'000
794	Costau staff uniongyrchol	903
494	Costau uniongyrchol eraill	648
432	Gwasanaethau cefnogol, yn cynnwys TG	437
1,720		1,988

Mae'r costau gweinyddol yn cynnwys y symiau a godir ar y Gronfa Bensiwn gan Gyngor Gwynedd am gostau staff, gwasanaethau cefnogol a llety.

NODYN 12c- COSTAU AROLYGU A LLYWODRAETHU

2023/24		2024/25
£'000		£'000
87	Ffioedd actiwari	143
78	Ffioedd ymgynghorwyr buddsoddi	68
6	Gwasanaeth monitro perfformiad	47
43	Ffioedd archwilwyr allanol	44
16	Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd Pensiwn Lleol	13
226	Partneriaeth Pensiwn Cymru	241
456		556

NODYN 12ch- PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Mae'r Costau Rheoli Buddsoddiadau yn Nodyn 12a yn cynnwys ffioedd sy'n daladwy i Waystone (gweithredwr y PPC) ac maent yn cynnwys ffioedd rheolwyr buddsoddi (sydd hefyd yn cynnwys ffi'r gweithredwr a chostau cysylltiedig eraill), costau trafodion a ffioedd gwarchodaeth. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gyfran ganrannol pob cronfa o asedau cyfun PPC ac fe'u didynnir o'r Gwerth Ased Net (NAV).

Y costau arolygu a llywodraethu yn Nodyn 12c yw costau rhedeg blynyddol y pŵl sy'n cynnwys costau'r awdurdod lletya a chostau ymgynghorwyr allanol eraill. Caiff y costau hyn eu hariannu'n gyfartal gan bob un o'r wyth Cronfa Bensiwn awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r ffioedd canlynol wedi'u cynnwys yn Nodyn 12 mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru a cheir rhagor o wybodaeth am y PPC ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol.

	2023/24	2024/25
	£'000	£'000
Costau rheoli buddsoddiadau		
Ffioedd rheolwyr	3,193	5,624
Costau trafodion	972	1,175
Costau gwarchodaeth	268	331
	4,433	7,130
Costau arolygu a llywodraethu		
Costau rhedeg	226	241
Cyfanswm	4,659	7,371

NODYN 13 – INCWM BUDDSODDI

2023/24		2024/25
£'000		£'000
16,175	Incwm sefydlog	28,082
20,964	Ecwiti	20,417
750	Credyd Preifat	1,252
880	Ecwiti preifat	2,408
765	Isadeiledd	5,924
7,168	Buddsoddiadau eiddo cyfun	6,242
1,254	Llog ar adneuon arian parod	1,522
47,956	Cyfanswm cyn trethi	65,847

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc sy'n cael eu dal fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian dros ben sy'n cael ei ddal yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi yn ddyddiol. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, sy'n seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa yn ystod y flwyddyn.

Mae gan y Gronfa Bensiwn gyfrif Ewro i ymdrin â derbyniadau a thaliadau mewn Ewros ac i leihau'r trafodion cyfnewid a chostau perthnasol.

NODYN 14 – BUDDSODDIADAU

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
	Asedau buddsoddi	
	Cronfeydd cyfun	
861,232	Incwm sefydlog	878,523
1,697,436	Ecwiti	1,725,148
	Buddsoddiadau eraill	
210,350	Buddsoddiadau eiddo cyfun	175,589
10,235	Credyd preifat	50,748
167,029	Ecwiti preifat	162,518
89,982	Isadeiledd	199,717
3,036,264		3,192,243
499	Adneuon arian parod	1,546
3,036,763	Cyfanswm asedau buddsoddi	3,193,789
	Ymrwymïadau buddsoddi	
(333)	Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(642)
(333)	Cyfanswm ymrwymïadau buddsoddi	(642)
3,036,430	Asedau buddsoddi net	3,193,147

NODYN I 4a – CYSONI SYMUDIADAU MEWN BUDDSODDIADAU A DEILLIADAU

2024/25	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2024	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau cyfun	2,558,668	59,499	(90,100)	75,604	2,603,671
Buddsoddiadau eiddo cyfun	210,350	3,980	(45,410)	6,669	175,589
Credyd preifat	10,235	37,642	0	2,871	50,748
Ecwiti preifat / Isadeiledd	257,011	118,878	(22,930)	9,276	362,235
	3,036,264	219,999	(158,440)	94,420	3,192,243
Adneuon arian parod	499				1,546
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(333)				(642)
Ffioedd o fewn buddsoddiadau wedi'u cyfuno				11,206	
Asedau buddsoddi net	3,036,430			105,626	3,193,147

2023/24	Gwerth marchnad ar 1 Ebrill 2023	Pryniannau yn ystod y flwyddyn	Gwerthia- nnau yn ystod y flwyddyn	Newid mewn gwerth marchnad yn ystod y flwyddyn	Gwerth marchnad ar 31 Mawrth 2024
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Buddsoddiadau cyfun	2,287,448	536,033	(523,948)	259,135	2,558,668
Buddsoddiadau eiddo cyfun	221,297	2,981	0	(13,928)	210,350
Credyd preifat	0	13,404	(3,332)	163	10,235
Ecwiti preifat / Isadeiledd	234,188	37,053	(18,208)	3,978	257,011
	2,742,933	589,471	(545,488)	249,348	3,036,264
Adneuon arian parod	963				499
Symiau taladwy ar gyfer pryniant Buddsoddiadau	(960)				(333)
Ffioedd o fewn buddsoddiadau wedi'u cyfuno				10,747	
Asedau buddsoddi net	2,742,936			260,095	3,036,430

Nid oedd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd unrhyw ddeilliadau ar 31 Mawrth 2025 na ar 31 Mawrth 2024.

NODYN I4b – DADANSODDIAD O FUDDSODDIADAU

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2024			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2025		
£'000	%		£'000	%	
2,118,741	69.8	Partneriaeth Pensiwn Cymru	2,326,430	72.9	
524,137	17.3	BlackRock	521,850	16.3	
236,679	7.8	Grŵp Partners	226,167	7.1	
72,160	2.4	UBS	76,742	2.4	
50,779	1.6	Lothbury	6,263	0.2	
34,267	1.1	Threadneedle	36,337	1.1	
3,036,763	100.0		3,193,789	100.0	

Mae'r buddsoddiadau a ganlyn yn cynrychioli mwy na 5% o asedau net y Gronfa:

Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2024			Gwerth Marchnad ar 31 Mawrth 2025		
£'000	%		£'000	%	
434,566	14.2	WS Wales PP Global Opportunities Equity Fund	460,613	14.3	
415,429	13.5	WS Wales PP Global Growth Fund	418,895	13.0	
412,216	13.4	WS Wales PP Absolute Return Bond Fund	403,246	12.5	
317,063	10.3	WS Wales PP Sustainable Active Equity Fund	317,658	9.8	
267,131	8.7	Black Rock Aquila Life UK Equity Index Fund	294,958	9.1	
226,013	7.4	WS Wales PP Multi Asset Credit Fund	241,859	7.5	
223,004	7.3	WS Wales PP Global Credit Fund	233,417	7.2	
203,363	6.6	Black Rock ACS World Low Carbon Fund	170,002	5.3	

NODYN I4c – BENTHYCA STOC

Mae strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn nodi y caniateir benthyca stoc yn amodol ar ganiatâd penodol. Yr incwm a enillodd y Gronfa trwy fenthyca stoc oedd £135,500 (£99,730 yn 2023/24). Ar hyn o bryd, mae gan y Gronfa gyfanswm ecwiti a ddyfynnwyd o £44.7m ar fenthyg (£52.2m ar 31 Mawrth 2024). Mae'r ecwiti hyn yn parhau i gael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y Gronfa. Nid oes unrhyw rwymedigaethau'n gysylltiedig â'r asedau a fenthycwyd.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO

Mae'r holl asedau wedi'u prasio gan ddefnyddio technegau gwerthoedd teg yn seiliedig ar nodweddion pob offeryn, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n seiliedig ar y farchnad lle bo hynny'n bosibl. Ni fu unrhyw newid yn y technegau prasio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae asedau ac ymrwymadau wedi'u dosbarthu i dair lefel, yn unol ag ansawdd a dibynadwyedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i bennu gwerthoedd teg.

Lefel 1 - ble mae gwerthoedd teg wedi eu pennu drwy ddefnyddio prisiau wedi'u dyfynnu a heb eu haddasu ar farchnadoedd gweithredol am asedau neu rywmedigaethau cyfwerth, sy'n cynnwys ecwiti wedi'u dyfynnu, bondiau wedi'u dyfynnu ac ymddiriedolaethau uned.

Lefel 2 - ble nad oes prisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu ar gael, neu pan ddefnyddir technegau prasio i bennu gwerth teg yn seiliedig ar ddata gweladwy.

Lefel 3 - ble nad yw o leiaf un mewnbwn a allai gael effaith sylweddol ar brisiad yr offeryn yn seiliedig ar ddata gweladwy'r farchnad.

NODYN 15 – GWERTH TEG - SAIL GWERTHUSO (parhad)

Disgrifiad o'r Ased	Hierarchaeth brisio	Sail y prisiad	Mewnbynnau arsylladwy ac na ellir eu harsylwi	Materion o sensitifrwydd allweddol sy'n effeithio ar y Prisiadau a Ddarperir
Arian a chyfwerthoedd arian	Lefel 1	Bernir bod gwerth i'w gario yn werth teg oherwydd natur tymor byr yr offerynnau ariannol hyn	Dim angen	Dim angen
Buddsoddiadau cyfun- cronfeydd ecwiti	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' (net asset value) ar sail gwerth yr asedau sylfaenol ar y farchnad	Mewnbwn prisiau wedi'i werthuso	Dim angen
Buddsoddiadau cyfun- incwm sefydlog	Lefel 2	Cyfrifir y 'NAV' ar sail gwerth marchnadol y gwarantau incwm sefydlog sylfaenol	Mewnbwn prisiau wedi'i werthuso	Dim angen
Buddsoddiadau eiddo cyfun	Lefel 3	Pris cynnig cau pan gyhoeddir prisiau cynnig; pris sengl cau lle cyhoeddir pris sengl	Wedi'i seilio ar 'NAV' wedi'i osod ar sail blaen-brisio	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwyledig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau
Ecwiti preifat	Lefel 3	Prisiad cymaradwy cwmnïau tebyg yn unol ag <i>International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines 2018</i> ac <i>IPEV Board's Special Valuation Guidance</i> (Mawrth 2020)	- Lluosrif EBITDA - Lluosrif referiw - Gostyngiad am ddiffyg marchnadwyedd - Rheoli premiwm	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwyledig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar Brisiadau
Isadeiledd	Lefel 3	Wedi'i brisio gan ddefnyddio technegau llif arian disgowntiedig i gynhyrchu gwerth presennol net	Cyfradd ddisgownt a llif arian a ddefnyddir yn y modelau	Cyfradd chwyddiant, llog, treth a chynnewid tramor

Credyd preifat	Lefel 3	Defnyddir technegau prisio yn unol â GAAP yr UD i fesur gwerth teg sy'n gyson â dull y farchnad a/neu ddull incwm, yn dibynnu ar y math o warant a'r amgylchiadau	Mae buddsoddiadau preifat yn cael eu prisio i ddechrau yn seiliedig ar bris trafodion heb gynnwys treuliau. Mae dull y farchnad yn defnyddio prisiau a gynhrychir gan drafodion marchnad sy'n cynnwys gwarantau unfath neu debyg. Mae'r dull incwm yn defnyddio technegau prisio i ddisgowntio llif arian amcangyfrifedig y dyfodol i'r gwerth presennol.	Gallai newidiadau i lifoedd arian disgwyledig neu wahaniaethau rhwng cyfrifon archwiliedig a chyfrifon nas archwiliwyd effeithio ar brisiadau.
----------------	---------	---	---	--

Sensitifrwydd asedau a werthir ar lefel 3

Mae'r gwerthoedd a adroddir yn y prisiadau Lefel 3 yn cynrychioli'r amcangyfrif mwyaf cywir gwerthoedd y portffolio ar 31 Mawrth 2025. Mae unrhyw oddrychedd sy'n gysylltiedig â'r gwerth buddsoddi wedi'i ymgorffori yn y prisiad a gellir gweld y dadansoddiad sensitifrwydd yn Nodyn 17.

Trosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2

Ni chafwyd unrhyw drosglwyddiadau rhwng buddsoddiadau lefelau 1 a 2 yn ystod 2024/25.

NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG

Mae gwerth y buddsoddiad mewn ecwiti preifat yn seiliedig ar brisiadau a ddarparwyd gan bartneriaid cyffredinol y cronfeydd ecwiti preifat y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi ynddynt. Paratoir y prisiadau hyn yn unol â'r *International Private Equity and Venture Capital Valuation Guidelines*, sy'n dilyn egwyddorion prisio'r SAARh ac US GAAP.

Mae'r tabl isod yn crynhoi gwerth cario'r asedau ariannol a'r ymrwymadau ariannol fesul lefel o 1 i 3, yn seiliedig ar y lefel â'u gwerth teg.

Gwerth ar 31 Mawrth 2025	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio mewnbwn gweladwy	Heb fewnbwn gweladwy sylweddol	Cyfanswm
	Lefel 1 £'000		Lefel 2 £'000	
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Incwm sefydlog	0	878,523	0	878,523
Ecwiti	0	1,725,148	0	1,725,148
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	175,589	175,589
Credyd preifat	0	0	50,748	50,748
Ecwiti preifat	0	0	162,518	162,518
Isadeiledd	0	0	199,717	199,717
Adneuon arian parod	1,546	0	0	1,546
	1,546	2,603,671	588,572	3,193,789
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(642)	0	0	(642)
Cyfanswm	904	2,603,671	588,572	3,193,147

NODYN 15a – HIERARCHAETH GWERTH TEG (parhad)

	Pris y farchnad a ddyfynnwyd	Gan ddefnyddio mewnbyn gweladwy	Heb fewnbwn gweladwy sylweddol	Cyfanswm
Gwerth ar 31 Mawrth 2024	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Incwm sefydlog	0	861,232	0	861,232
Ecwiti	0	1,697,436	0	1,697,436
Buddsoddiadau eiddo cyfun	0	0	210,350	210,350
Credyd preifat	0	0	10,235	10,235
Ecwiti preifat	0	0	167,029	167,029
Isadeiledd	0	0	89,982	89,982
Adneuon arian parod	499	0	0	499
	499	2,558,668	477,596	3,036,763
Ymrwymadau ariannol wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled				
Symiau taladwy ar gyfer pryniant buddsoddiadau	(333)	0	0	(333)
Cyfanswm	166	2,558,668	477,596	3,036,430

NODYN 15b – CYSONIAD MESURIADAU GWERTH TEG O FEWN LEFEL 3

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2024 £'000	Trosglwyddiadau o Lefel 3 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn £'000	Enillion/ (colledion) na wireddwyd £'000	(Enillion)/ colledion a wireddwyd £'000	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2025 £'000
Eiddo	210,350	0	3,980	(45,410)	6,669	0	175,589
Credyd preifat	10,235	0	37,642	0	2,871	0	50,748
Ecwiti preifat	167,029	0	12,230	(7,646)	1,177	(10,272)	162,518
Isadeiledd	89,982	0	106,648	(1,552)	8,099	(3,460)	199,717
Cyfanswm Lefel 3	477,596	0	160,500	(54,608)	18,816	(13,732)	588,572

	Gwerth y Farchnad I Ebrill 2023 £'000	Trosglwyddiadau o Lefel 3 £'000	Pryniannau yn ystod y flwyddyn £'000	Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn £'000	Enillion/ (colledion) na wireddwyd £'000	(Enillion)/ colledion a wireddwyd £'000	Gwerth y Farchnad 31 Mawrth 2024 £'000
Eiddo	221,297	0	2,981	0	(13,928)	0	210,350
Credyd preifat	0	0	13,404	(3,332)	163	0	10,235
Ecwiti preifat	166,622	0	10,001	(4,692)	1,419	(6,321)	167,029
Isadeiledd	67,566	0	27,052	(2,447)	2,559	(4,748)	89,982
Cyfanswm Lefel 3	455,485	0	53,438	(10,471)	(9,787)	(11,069)	477,596

NODYN I6 – DOSBARTHIAD OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae polisiâu cyfrifo'n disgrifio sut mae gwahanol ddosbarthiadau o asedau offerynnau ariannol yn cael eu mesur a sut mae incwm a chostau, yn cynnwys enillion a cholledion gwerth teg, yn cael eu cydnabod. Mae'r tabl a ganlyn yn dadansoddi'r symiau cario o asedau ag ymrwymïadau ariannol fesul categori a phennawd datganiad asedau net. Ni ail-ddosbarthwyd unrhyw asedau ariannol yn ystod y cyfnod cyfrifo.

Fel ar 31 Mawrth 2024			Fel ar 31 Mawrth 2025		
Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymïadau ariannol	Wedi'u pennu fel gwerth teg drwy elw a cholled	Asedau ar gost wedi'i amorteiddio	Cost ymrwymïadau ariannol
£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Asedau ariannol					
2,558,668	0	0	Buddsoddiadau cyfun	2,603,671	0
210,350	0	0	Buddsoddiadau eiddo cyfun	175,589	0
10,235	0	0	Credyd preifat	50,748	0
167,029	0	0	Ecwiti preifat	162,518	0
89,982	0	0	Isadeiledd	199,717	0
0	31,650	0	Arian parod	0	36,963
0	6,572	0	Dyledwyr	0	7,163
3,036,264	38,222	0	3,192,243	44,126	0
Ymrwymïadau ariannol					
0	0	(4,491)	Credydwyr	0	(4,654)
0	0	(4,491)	0	0	(4,654)
3,036,264	38,222	(4,491)	3,192,243	44,126	(4,654)

NODYN I6a – ENILLION A CHOLLEDION NET AR OFFERYNNAU ARIANNOL

31 Mawrth 2024		31 Mawrth 2025	
Gwerth teg		Gwerth teg	
£'000		£'000	
Asedau Ariannol			
249,348	Gwerth teg drwy elw a cholled	94,420	
0	Benthyciadau a derbyniadau	0	
249,348	Cyfanswm yr asedau Ariannol	94,420	
Ymrwymïadau Ariannol			
0	Gwerth teg drwy elw a cholled	0	
0	Cost ymrwymïadau Ariannol	0	
0	Cyfanswm yr ymrwymïadau Ariannol	0	
249,348	Asedau ariannol net	94,420	

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Risg a rheoli risg

Prif risg hirdymor y Gronfa yw y bydd asedau'r Gronfa'n annigonol i ymdrin â'i hymrwymiaidau (h.y. y buddion a gafodd eu haddo i aelodau sy'n daladwy). Felly, nod rheoli risg buddsoddi yw lleihau'r risg o weld gostyngiad cyffredinol yng ngwerth y Gronfa a gwneud y mwyaf o'r cyfle i wneud enillion ar draws portffolio'r Gronfa yn ei gyfanrwydd. Mae'r Gronfa'n cyflawni hyn drwy amrywio'i asedau i leihau risg y farchnad (risg pris, risg arian tramor a risg cyfradd llog) a risg credyd y mae'n agored iddo ar lefel dderbyniol. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n rheoli ei risg o hylifedd i sicrhau bod digon o hylifedd ar gael i fodloni llif arian rhagweladwy'r Gronfa. Mae'r Cyngor yn rheoli'r risgiau buddsoddi hyn fel rhan o'i raglen gyffredinol i reoli risg y Gronfa Bensiwn.

Y Pwyllgor Pensiynau sy'n gyfrifol am strategaeth rheoli risg y Gronfa. Sefydlir polisiau rheoli risg i nodi a dadansoddi'r risgiau sy'n wynebu gweithrediadau'r Gronfa Bensiwn, yna eu hadolygu'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn gweithgaredd ac amodau'r farchnad.

a) Risg y farchnad

Risg y farchnad yw'r risg o golledion yn sgil amrywiad ym mhrisiau ecwiti a nwyddau, llog, cyfraddau cyfnewid arian tramor a gwasgariad credyd. Mae'r Gronfa'n agored i risg y farchnad yn sgil ei weithgareddau buddsoddi, yn enwedig drwy'r ecwiti mae'n eu dal. Mae lefel y risg yn dibynnu ar amgylchiadau'r farchnad, disgwyliadau o ran prisiau yn y dyfodol, newidiadau mewn enillion a'r gymysgedd o asedau.

Nod strategaeth rheoli risg y Gronfa yw adnabod a rheoli risgiau'r farchnad i'r Gronfa o fewn paramedrau derbyniol, gan sicrhau'r enillion buddsoddiad gorau posibl.

Yn gyffredinol, rheolir anwedddolrwydd gormodol yn risg y farchnad drwy amrywio'r portffolio yn ddaearyddol ac o ran sectorau diwydiant a gwarantau unigol. I leihau risg y farchnad, mae'r Gronfa a'i ymgynghorwyr buddsoddi'n monitro cyflwr y farchnad a dadansoddiadau meincnod yn briodol.

Mae'r Gronfa'n rheoli'r risgiau hyn mewn dwy ffordd:

- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risg y farchnad yn cael ei fonitro drwy ddadansoddi ffactorau risg i sicrhau bod y risg yn parhau o fewn lefelau goddefol;
- mae pa mor agored yw'r Gronfa i risgiau penodol yn cael ei gyfyngu drwy bennu risgiau penodol goddefol ar gyfer buddsoddiadau unigol.

Risg prisiau eraill

Mae risg prisiau eraill yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth offeryn ariannol yn amrywio o ganlyniad i newid ym mhris y farchnad (ac eithrio'r risgiau sy'n codi o risg cyfradd llog neu risg cyfradd cyfnewid arian tramor), boed y newidiadau'n cael eu hachosi gan ffactorau sy'n benodol i'r offeryn unigol neu'r sawl a'i cyflwynodd neu ffactorau sy'n effeithio ar bob offeryn o'r fath yn y farchnad.

Mae'r Gronfa'n agored i risg prisiau cyfranddaliadau. Mae rheolwyr buddsoddi'r Gronfa'n lliniaru'r perygl pris hwn trwy amrywio a dewis gwarantau ac offerynnau ariannol eraill sy'n cael eu monitro gan y Cyngor i sicrhau ei fod o fewn y cyfyngiadau a nodir yn strategaeth buddsoddi'r Gronfa.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Risg prisiau eraill – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol a'r enillion ar fuddsoddiadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn ariannol, mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r Gronfa wedi pennu bod y newidiadau a ganlyn mewn risg pris y farchnad yn rhesymol bosib ar gyfer cyfnod adrodd 2023/24 a 2024/25.

Math o ased	Symudiad posib y farchnad (+/-)	
	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
	%	%
Ecwiti DU	16.0	16.3
Ecwiti Byd-Eang	16.7	18.6
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	23.0	24.3
Ecwiti Preifat	31.2	26.6
Bondiau Corfforaethol	7.0	6.5
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)	8.8	7.6
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	2.7	2.7
Isadeiledd	13.6	14.5
Eiddo	15.6	15.2
Credyd Amrywiol	7.1	7.5
Arian	0.3	0.3
Cronfa Gyfan	10.7	11.6

Mae'r newid posibl a ddatgelir uchod yn gyson a un symudiad gwyriad safonol yn y newid yng ngwerth yr asedau dros y tair blynedd ddiweddaraf. Mae cyfanswm newid posibl y gronfa yn ystyried y berthynas disgwyliedig rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau a ddangosir, yn seiliedig ar gyfnewidioldeb sylfaenol a chydberthynas yr asedau, yn unol a theori portffolio amrywiant cymedrig.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Pe byddai pris buddsoddiadau'r Gronfa ar y farchnad wedi cynyddu/gostwng yn unol â'r uchod, byddai'r newid ym mhpris y farchnad yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion wedi bod fel a ganlyn:

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2025 £'000	Canran Newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	294,958	16.3	343,036	246,880
Ecwiti Byd-eang	1,367,167	18.6	1,621,460	1,112,874
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	63,023	24.3	78,338	47,709
Ecwiti Preifat*	162,518	26.6	205,748	119,288
Bondiau Corfforaethol	233,417	6.5	248,589	218,245
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	50,748	7.6	54,605	46,891
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	403,247	2.7	414,134	392,359
Isadeiledd*	199,717	14.5	228,676	170,758
Eiddo*	175,588	15.2	202,278	148,899
Credyd Amrywiol	241,859	6.3	257,097	226,622
Arian	36,963	0.3	37,073	36,851
Dyledwyr a Chredydwyr	2,510	0.0	2,510	2,510
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	3,231,715		3,693,544	2,769,886
*Agedau lefel 3	588,571		691,307	485,836

Math o ased	Gwerth fel ar 31 Mawrth 2024 £'000	Canran Newid %	Gwerth ar ôl cynnydd £'000	Gwerth ar ôl gostyngiad £'000
Ecwiti DU	267,131	16.0	309,872	224,390
Ecwiti Byd-eang	1,370,421	16.7	1,599,281	1,141,561
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,884	23.0	73,657	46,111
Ecwiti Preifat*	167,029	31.2	219,141	114,916
Bondiau Corfforaethol	223,004	7.0	238,614	207,393
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)*	10,235	8.8	11,136	9,335
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	412,215	2.7	423,345	401,086
Isadeiledd*	89,982	13.6	102,219	77,744
Eiddo*	210,350	15.6	243,164	177,535
Credyd Amrywiol	226,013	7.1	242,060	209,966
Arian	31,650	0.3	31,745	31,555
Dyledwyr a Chredydwyr	2,081	0.0	2,081	2,081
Cyfanswm asedau sydd ar gael i dalu buddion	3,069,995		3,496,315	2,643,673
*Agedau lefel 3	477,596		575,661	379,350

Risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn asedau ariannol yn bennaf er mwyn cael enillion ar fuddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i risgiau cyfraddau llog, sy'n cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau llog y farchnad.

Mae cyfradd llog y Gronfa'n cael ei monitro'n gyson, yn unol â strategaeth rheoli risg y Gronfa, yn cynnwys monitro pa mor agored ydyw i'r cyfraddau llog ac asesiad o'r gwir gyfraddau llog yn erbyn y meincnodau perthnasol.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler pa mor agored yn uniongyrchol yw'r Gronfa i newidiadau mewn cyfraddau llog fel ar 31 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2025 isod. Mae'r ffigyrau isod yn cyflwyno'r gyfradd llog yn seiliedig ar werth teg yr asedau ariannol gwaelodol:

Math o ased	Fel ar 31 Mawrth 2024	Fel ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	31,151	35,417
Balansau arian parod	499	1,546
Cronfa Incwm Sefydlog	861,232	878,523
Cyfanswm	892,882	915,486

Dadansoddiad sensitifrwydd risg cyfraddau llog

Mae'r Gronfa yn cydnabod y gall cyfraddau llog amrywio ac effeithio ar incwm i'r Gronfa a gwerth yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion. Mae newid 1% mewn cyfraddau llog yn gyson â lefel y sensitifrwydd a ddefnyddiwyd fel rhan o strategaeth rheoli risg y Gronfa. Mae'r dadansoddiad isod yn rhagdybio bod pob newidyn arall, yn enwedig cyfraddau cyfnewid, yn parhau'n gyson, ac mae'n dangos yr effaith yn ystod y flwyddyn ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion o newid o +/- 1% mewn cyfraddau llog:

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2025	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
	£'000	+1%	-1%
		£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	35,417	354	(354)
Balansau arian parod	1,546	15	(15)
Cronfa Incwm Sefydlog *	878,523	8,785	(8,785)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	915,486	9,154	(9,154)

Math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2024	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
	£'000	+1%	-1%
		£'000	£'000
Arian a chyfwerthoedd arian	31,151	312	(312)
Balansau arian parod	499	5	(5)
Cronfa Incwm Sefydlog *	861,232	8,612	(8,612)
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	892,882	8,929	(8,929)

* Nid yw newid 1% ar gyfradd llog yn cael effaith uniongyrchol ar warantau llog sefydlog ond mae'n cael effaith rhannol fel y cyfrifir yn y tablau uchod.

5.07% oedd cyfartaledd y gyfradd llog a dderbyniwyd ar arian yn ystod y flwyddyn, gan roi cyfanswm llog o £1,087,938 am y flwyddyn (cyfartaledd cyfradd llog o 4.99% a chyfanswm llog o £1,020,271 yn 2023/24).

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cynnydd 1% mewn cyfraddau llog yn effeithio'r llog a dderbynnir ar asedau llog sefydlog ond byddai'n lleihau'r gwerth teg, fel y dangosir yn y tablau uchod. Nid yw newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio y gwerth arian / arian a'u cyffelyb ond byddai'n effeithio'r llog a dderbynnir ar y balansau. Mae newidiadau i werth teg yr asedau ac incwm a dderbynnir o fuddsoddiadau yn cael effaith ar yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion ond fel y nodir uchod nid yw'n cael effaith sylweddol ar y Gronfa.

Risg arian tramor

Mae risg arian tramor yn cynrychioli'r risg y bydd gwerth teg llif arian offeryn ariannol yn y dyfodol yn amrywio yn sgil newidiadau yng nghyfraddau cyfnewid arian tramor. Mae'r Gronfa'n agored i risg arian tramor ar offerynnau ariannol sy'n cael eu cynrychioli mewn unrhyw arian ac eithrio arian swyddogaethol y Gronfa (£DU). Mae'r Gronfa'n dal asedau sy'n cael eu cynrychioli mewn arian ac eithrio £DU.

Mae gan y Gronfa ymrwymïadau ecwiti preifat ac isadeiledd mewn arian tramor (€69.1 miliwn a UD\$30.4 miliwn). Mae'r ymrwymïadau hyn yn cael eu tynnu i lawr ar gais y rheolwr buddsoddi dros nifer o flynyddoedd. Gweler yr ymrwymïadau cyfredol sy'n aros yn Nodyn 24. Y risg dan sylw yw y bydd y bunt yn wan o'i chymharu â'r ddoler a'r ewro pan fydd yr ymrwymïadau'n cael eu tynnu i lawr ac y bydd yn cryfhau pan fo'r Gronfa wedi'i chyllido'n llawn. Mae'r Gronfa wedi bod yn ariannu'r ymrwymïadau ers 2005 felly mae'r ymrwymïadau wedi'i gydbwyso dros gyfnod maith o amser.

Mae risg cyfradd cyfnewid arian y Gronfa'n cael ei gyfrifo ar sail anweddolrwydd yr arian tramor fyddai'n effeithio ar werth y buddsoddiadau ac unrhyw arian fyddai'n cael ei ddal yn yr arian tramor hynny.

Risg arian tramor – dadansoddiad sensitifrwydd

Yn dilyn dadansoddiad o ddata hanesyddol mewn ymgynghoriad ag ymgynghorwyr buddsoddi'r Gronfa, mae'r anweddolrwydd sy'n gysylltiedig â newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid arian tramor wedi cael ei gyfrifo wrth ddefnyddio anweddolrwydd hanesyddol yr arian tramor a'r symiau cymharol ym muddsoddiadau'r Gronfa.

Y gwyriad safonol disgwylidig l blwyddyn ar gyfer un arian tramor unigol ar 31 Mawrth 2025 yw 9.1%. Y gyfradd gyfatebol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 oedd 9.3%. Mae'r dadansoddiad hwn yn tybio bod yr holl amrywiadau eraill, yn enwedig cyfraddau llog, yn aros yn gyson.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r tablau isod yn dangos dadansoddiad o ddatguddiad y Gronfa at arian tramor unigol fel ar 31 Mawrth 2025 ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol cynt:

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2025	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar leihad
	£'000	£'000	£'000
Ecwiti Byd-eang	1,367,167	1,491,579	1,242,755
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	63,023	68,758	57,288
Ecwiti Preifat	162,518	177,307	147,729
Bondiau Corfforaethol	233,417	254,658	212,176
Benthyciadau Uwch (Graddfa fuddsoddi is)	50,748	55,366	46,130
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	403,247	439,942	366,551
Isadeiledd	199,717	217,891	181,543
Credyd Amrywiol	241,859	263,869	219,851
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,721,696	2,969,370	2,474,023

Agored i newidiadau mewn arian tramor – math o ased	Swm cario fel ar 31 Mawrth 2024	Newid yn y flwyddyn yn yr asedau net sydd ar gael i dalu buddion	
		Gwerth ar gynnydd	Gwerth ar leihad
	£'000	£'000	£'000
Ecwiti Byd-eang	1,370,421	1,497,870	1,242,972
Ecwiti Marchnadoedd sy'n datblygu	59,884	65,453	54,315
Ecwiti Preifat	167,029	182,562	151,495
Bondiau Corfforaethol	223,004	243,743	202,264
Bondiau Dychwelyd Absoliwt	412,216	450,552	373,880
Isadeiledd	89,982	98,350	81,614
Credyd Amrywiol	226,013	247,032	204,994
Cyfanswm y newid yn yr asedau sydd ar gael	2,548,549	2,785,562	2,311,534

b) Risg credyd

Mae risg credyd yn cynrychioli'r risg y bydd gwrth barti i drafodion neu offeryn ariannol yn methu â gwireddu goblygiad ac yn creu colled ariannol i'r Gronfa o ganlyniad i hynny. Yn gyffredinol, mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad yn adlewyrchu asesiad o gredyd wrth eu prisio ac felly darperir ar gyfer y risg o golled yng ngwerth cario asedau ariannol ag ymrwymadau'r Gronfa.

Yn ei hanfod, mae portffolio buddsoddi cyfan y Gronfa'n agored i ryw fath o risg credyd. Fodd bynnag, mae dewis gwrth bartion, broceriaid a sefydliadau ariannol o ansawdd uchel yn isafu'r risg credyd a allai godi yn sgil methiant i setlo trafodion yn brydlon.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Gweler isod meincnod ar gyfer y canran o'r cronfeydd a ddelir gan y rheolwyr buddsoddi:

Cronfa	Canran o'r Portffolio
Ecwiti DU (Black Rock)	8.00%
Ecwiti Carbon Isel (Black Rock)	4.20%
Ecwiti Cynaliadwy (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.10%
Marchnadoedd Datblygol (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	2.50%
Twf Byd Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.10%
Cyfleoedd Byd Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	10.10%
Credyd Aml Ased (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	7.50%
Bond Dychwelyd Absoliwt (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	12.50%
Credyd Preifat (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	5.00%
Credyd Byd- Eang (Partneriaeth Pensiwn Cymru)	7.50%
Eiddo (UBS, Threadneedle, Lothbury, BlackRock)	10.00%
Isadeiledd (Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners)	7.50%
Ecwiti Preifat (Partneriaeth Pensiwn Cymru a Partners)	5.00%

Mae'r holl fuddsoddiadau a ddelir gan reolwyr buddsoddi'n cael eu dal yn enw'r Gronfa Bensiwn felly, os yw'r rheolwr buddsoddi'n methu, nid yw buddsoddiadau'r Gronfa yn cael eu cyfrif yn rhan o'i asedau.

Cynrychiolir risg credyd contract gan y taliad net neu'r enillion sy'n aros. Mae'r risg weddilliol yn fân yn sgil polisïau yswiriant amrywiol a ddelir i ymdrin â gwrth bartïon sy'n diffygdlu.

Er mwyn uchafu'r dychweliadau o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon arian parod, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian gwarged dros dro yn ei gyfrifon banc gydag unrhyw arian gwarged dros ben yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn. Telir rhaniad priodol o'r llog a enillir i'r Gronfa Bensiwn a rhennir unrhyw golledion wrth fuddsoddi ar sail yr un gyfran. Oherwydd natur y trefniadau banc, nid yw unrhyw arian gwarged yng nghyfrifon banc y Gronfa Bensiwn yn cael ei drosglwyddo i gyfrifon banc y Cyngor.

Ni adneuir arian mewn banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn cael eu graddio o ran statws credyd yn annibynnol, a'u bod yn bodloni meini prawf credyd y Cyngor. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gosod cyfyngiadau ar y ganran uchaf o adneuon y gellir eu gwneud mewn unrhyw ddosbarth o sefydliad ariannol penodol. Hefyd, mae'r Cyngor yn buddsoddi canran a gytunwyd o arian yn y marchnadoedd arian er mwyn cael buddsoddiadau amrywiol. Mae'r cronfeydd marchnad arian a ddewiswyd oll wedi derbyn statws credyd AAA gan asiantaeth statws credyd blaenllaw.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Nid yw cyflogwyr y Gronfa'n cael eu hasesu ar hyn o bryd ar gyfer eu statws credyd neu ar gyfer y cyfyngiadau credyd unigol sydd wedi'u gosod. Mae risg yn bodoli na ellir casglu cyfraniadau gan gyflogwyr ble nad oes ganddynt unrhyw aelodau sy'n cyfrannu (e.e. y risg sy'n gysylltiedig â chyflogwyr gyda nifer fechan o aelodau sy'n dewis peidio â chyfrannu), felly mae'r Awdurdod Gweinyddu'n monitro newidiadau mewn aelodaeth bob blwyddyn.

Bydd angen i gyflogwyr newydd sy'n dod yn rhan o'r Gronfa gytuno i ddarparu bond neu gael gwarant i leihau'r risg o golledion ariannol i'r Gronfa yn y dyfodol pe na fyddai'r cyflogwr dan sylw'n medru bodloni ei hymrwymiaidau pensiwn pe byddai'n ymadael â'r Gronfa. Fel y dangosir yn Nodyn 25 mae dau gyflogwr wedi darparu bondiau. Bydd unrhyw ymrwymiaidau eraill ar y Gronfa yn y dyfodol o ganlyniad i gyflogwr yn ymadael yn cael eu cario gan y Gronfa a'u rhannu dros yr holl gyflogwyr. Gwneir hyn i sicrhau bod y cyfnodau a'r symiau adfer actiwaraidd yn cael eu cadw ar lefel y gall cyflogwyr llai ymdopi â hi.

Mae'r risg wedi cynyddu yn sgil dyfarniad cyfreithiol diweddar, fydd o bosib yn pennu na ellir codi cyfraniadau ar gyflogwyr nad oes ganddynt aelodau sy'n cyfrannu dan Reoliadau Gweinyddu'r CPLIL. Fodd bynnag, nid yw'r dyfarniad hwn yn effeithio ar allu'r Gronfa i gasglu cyfraniadau yn dilyn prisiad ymadael dan Reoliad 38(2). Gellir rhoi cyfarwyddyd i'r Actiwari ystyried adolygu'r cyfraddau a'r dystysgrif addasiadau i gynyddu cyfraniadau cyflogwr dan Reoliad 38 o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2008 rhwng y prisiad a gynhelir yn dairblynyddol.

c) Risg hylifedd

Mae'r risg hylifedd yn cynrychioli'r risg na fydd modd i'r Gronfa fodloni ei oblygiadau ariannol wrth iddynt ddod yn ddyledus. Felly, mae'r Cyngor yn cymryd camau i sicrhau bod gan y Gronfa Bensiwn ddigon o adnoddau arian parod i fodloni ei hymrwymiaidau i dalu pensiynwyr ac i fodloni ymrwymiaidau buddsoddi.

Mae gan y Cyngor llif arian sy'n ceisio sicrhau bod arian parod ar gael pe bai ei angen. Yn ogystal, mae'r cyfraniadau cyfredol a dderbynnir gan gyflogwyr ac aelodau yn cyfrannu'n llawer mwy na'r hyn a delir allan mewn buddion. Buddsoddir yr arian parod dros ben ac ni ellir ei dalu'n ôl i gyflogwyr. Mae Actiwari'r Gronfa yn sefydlu'r cyfraniadau y dylid eu talu fel y gellir bodloni holl rwymedigaethau'r dyfodol.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar y swm y gall cyfrif banc y Gronfa Bensiwn ei ddal. Dylai'r symiau a ddelir yn y cyfrif hwn fodloni anghenion hylifedd arferol y Gronfa. Mae unrhyw arian dros ben dros dro yn cael ei fuddsoddi gan y Cyngor yn unol â'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn darparu incwm ychwanegol i'r Gronfa Bensiwn. Buddsoddir arian parod dros ben yn unol â'r Datganiad Egwyddorion Buddsoddi.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa fynediad at gyfleuster gorddrafft trwy drefniadau cyfrifon banc grŵp y Cyngor. Dim ond i fodloni gwahaniaethau amseru tymor byr ar daliadau pensiwn y defnyddir y cyfleuster hwn. Gan mai benthyciadau byrdymor eu natur fyddai'r rhain, ystyrir bod pa mor agored i risg credyd yw'r Gronfa yn hyn o beth yn ddibwys.

NODYN 17 – NATUR A GRADDDFA'R RISGIAU SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r Gronfa'n diffinio asedau hylifol fel asedau y gellir eu trosglwyddo'n arian parod o fewn tri mis. Asedau anhylif yw'r asedau fydd yn cymryd cyfnod mwy na thri mis i'w trosglwyddo'n arian parod. Ar 31 Mawrth 2025, roedd gwerth yr asedau anhylif yn £589m, sy'n cynrychioli 18.2% o gyfanswm asedau'r Gronfa (31 Mawrth 2024: £478m, oedd yn cynrychioli 15.6% o gyfanswm asedau'r Gronfa).

Mae rheolwyr yn paratoi rhagolygon llif arian cyfnodol er mwyn deall a rheoli amseriad llif arian y Gronfa. Mae lefel strategol briodol y balans arian parod i'w ddal yn ffurfio rhan o strategaeth fuddsoddi'r Gronfa.

Mae'r holl ymrwymadau ariannol ar 31 Mawrth 2025 yn ddyledus o fewn blwyddyn, yn yr un modd ag ar 31 Mawrth 2024.

Risg ail ariannu

Y risg allweddol yw y bydd y Gronfa wedi'i rwymo i ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i hofferynnau ariannol pan fo cyfraddau llog yn anffafriol. Nid oes gan y Gronfa unrhyw offerynnau ariannol sydd â risg ail ariannu'n rhan o'i strategaethau rheoli trysorlys a buddsoddi.

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO

Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013, mae actiwari'r Gronfa yn ymgymryd â phrasiad teirblynyddol er mwyn sefydlu'r gyfradd cyfraniadau i gyflogwyr ar gyfer y tair blynedd i ddod. Cynhaliwyd y prasiad diwethaf fel ar 31 Mawrth 2022.

Disgrifiad o'r Polisi Cyllido

Amlinellir y polisi cyllido yn Natganiad Strategaeth Cyllido yr Awdurdod Gweinyddu a gafodd ei adolygu ym Mawrth 2023.

I grynhoi, mae'r egwyddorion ariannu allweddol fel a ganlyn:

- cymryd golwg hirdymor darbodus i sicrhau'r gofyniad rheoliadol ar gyfer hylifedd hirdymor, gyda digon o arian i dalu buddion i aelodau a'u dibynyddion
- defnyddio strategaeth fuddsoddi gytbwys i leihau cyfraniadau arian parod hirdymor gan gyflogwyr a chwrdd â'r gofyniad rheoliadol ar gyfer effeithlonrwydd cost hirdymor
- lle bo'n briodol, sicrhau cyfraddau cyfraniadau sefydlog gan gyflogwyr
- adlewyrchu nodweddion gwahanol gyflogwyr i osod eu cyfraddau cyfrannu, gan ddefnyddio strategaeth gyllido dryloyw
- defnyddio mesurau rhesymol i leihau'r risg y bydd cyflogwr yn methu â chyflawni ei ymrwymadau pensiwn.

Amlinella'r Datganiad Strategaeth Cyllido sut mae'r Awdurdod Gweinyddu yn ceisio cydbwysu'r nodau croestynnol o ddiogelu hydaledd y Gronfa a chadw cyfraniadau cyflogwyr yn sefydlog.

NODYN I8 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

O ran cyflogwyr oedd â chyfamod digon cryf yn ôl yr Awdurdod Gweinyddu, mae cyfraniadau wedi cael eu sefydlogi i fod yn debygol iawn o gyflawni'r targed cyllido dros 17 mlynedd. Defnyddiwyd dull modelu ymrwymadau asedau sy'n dangos os caiff y cyfraddau cyfrannu hyn eu talu a bod newidiadau cyfraniadau yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, fod yna o leiaf siawns o 70% y bydd y Gronfa yn cyrraedd lefel ariannu'n llawn dros yr 17 mlynedd.

Sefyllfa Gyllido ar adeg y Prisiad Cyllido Ffurfiol Diwethaf

Cynhaliwyd y prisiad actwaraidd mwyaf diweddar dan Reoliad 62 Rheoliadau (Gweinyddol) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar 31 Mawrth 2022. Datgelodd y prisiad hwn fod asedau'r Gronfa, oedd wedi'u priso'n £2,776 miliwn ar 31 Mawrth 2022, yn ddigon i dalu 120% o'r ymrwymadau (h.y. gwerth cyfredol y buddion ymddeol sydd wedi'u haddo) oedd wedi'u cronni hyd at y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, y gwared ym mhrisiad 2022 oedd £468 miliwn.

Gosodwyd allan cyfraniad pob cyflogwr yn y prisiad, gyda'r nod o gyflawni cyllido llawn o fewn gorwel amser a thebygolrwydd a fesurwyd yn unol â'r Datganiad Strategaeth Cyllido. Cafodd cyfraniadau cyflogwyr unigol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2026 eu pennu yn unol â pholisi cyllido'r Gronfa fel y nodir yn y Datganiad Strategaeth Cyllido.

Prif Rhagdybiaethau Actwaraidd a'r Dull a ddefnyddiwyd i Brisio'r Ymrwymadau

Disgrifir y manylion llawn am y dulliau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad priso 2022.

Dull

Aseswyd yr ymrwymadau drwy ddefnyddio dull buddion cronedig sy'n ystyried aelodaeth bensiynadwy hyd at y dyddiad priso, ac yn ystyried cynnydd disgwylidig mewn cyflog yn y dyfodol, ymddeoliad neu ddyddiad disgwylidig cynharach o adael aelodaeth bensiynadwy.

Rhagdybiaethau

Dilynwyd dull sy'n gysylltiedig â'r farchnad i brisio'r ymrwymadau er mwyn sicrhau cysondeb gyda phrisiad o asedau'r Gronfa yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Roedd y rhagdybiaethau ariannol allweddol a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2022 fel a ganlyn:

Rhagdybiaethau Ariannol	31 Mawrth 2022
Cyfradd disgownt	4.1 % y.f
Cynnydd mewn cyflog	3.2 % y.f
Cynnydd mewn pensiwn	2.7 % y.f

Y rhagdybiaeth demograffig allweddol oedd yr ystyriaeth a roddwyd i hirhoedledd. Mae'r rhagdybiaethau disgwylidig oes yn seiliedig ar *VitaCurves* y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda 0% o bwysau ar data 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd hirdymor o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae'r disgwylidig oes cyfartalog yn y dyfodol i oed 65 fel a ganlyn:

NODYN 18 – TREFNIADAU CYLLIDO (parhad)

Rhagdybiaethau marwolaeth	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	21.1	24.0
Pensiynwyr y dyfodol (45 oed ym mhrisiad 2022)	22.3	25.9

Mae copïau o adroddiad Prisiad 2022 a'r Datganiad Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa Bensiwn www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Profiad yn ystod y Cyfnod ers 31 Mawrth 2022

Cafodd marchnadoedd eu tarfu gan y rhyfel parhaus yn yr Wcráin a phwysau chwyddiant yn 2022 a 2023, gan effeithio ar enillion buddsoddi a gyflawnir gan asedau'r Gronfa. Gwellodd perfformiad asedau yn 2024 a dechrau 2025; fodd bynnag, mae'r cynnydd diweddar mewn tariffau'r Unol Daleithiau ar fewnforion wedi achosi anwadalrwydd sylweddol yn y farchnad. Profwyd uchafbwynt anwadalrwydd y farchnad hon yn syth ar ôl 31 Mawrth 2025, fodd bynnag, profwyd enillion asedau is na'r disgwyl yn gyffredinol yn y mis yn union cyn hyn.

Mae lefelau uchel o chwyddiant yn y DU (o'i gymharu â phrofiad diweddar), wedi arwain at gynydd uwch na'r disgwyl mewn buddion CPLIL o 10.1% ym mis Ebrill 2023 a 6.7% ym mis Ebrill 2024. Fodd bynnag, mae chwyddiant wedi gostwng tuaf at lefelau hanesyddol a tharged Banc Lloegr (2% y flwyddyn) gyda buddion CPLIL yn cynyddu o 1.7% yn Ebrill 2025.

Bu newid sylweddol yn yr amgylchedd economaidd ehangach ers 2022, gan arwain at enillion buddsoddi disgwyliedig uwch yn y dyfodol gan leihau'r gwerth a roddir ar ymrwymïadau'r Gronfa. Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa ariannu yn debygol o fod yn gryfach nag ar y prisiad ffurfiol blaenorol ar 31 Mawrth 2022.

Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth 2025. Bydd y Datganiad Strategaeth Cyllido hefyd yn cael ei adolygu bryd hynny, a bydd fersiwn ddiwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2026.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI'U HADDO

Yn ogystal â'r prisiad cyllido teirblynnyddol, mae'r actiwari hefyd yn cynnal prisiad o rwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar SCC19 bob blwyddyn gan ddefnyddio'r un data sylfaenol â'r prisiad cyllido wedi'i dynnu ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan ystyried y newidiadau yn niferoedd yr aelodau a diweddarau rhagdybiaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Nid yw'r gwerthusiad yn cael ei ymgymryd yn yr un modd a ddefnyddir ar gyfer gosod cyfraddau cyfrannu i'r Gronfa, ac nid yw cyfrifon y Gronfa yn ystyried ymrwymïadau talu pensiynau na buddion eraill yn y dyfodol.

Er mwyn asesu gwerth y buddion yn seiliedig ar hyn, mae'r actiwari wedi diweddarau'r rhagdybiaethau actiwaraidd (gweler isod) o'r rhai a ddefnyddir er dibenion cyllido (gweler Nodyn 18) a hefyd mae wedi'u defnyddio i ddarparu'r adroddiadau SCC19 ac SAA102 ar gyfer cyflogwyr unigol yn y Gronfa. Yn ogystal, mae'r actiwari wedi prisiau buddion salwch a marwolaeth yn unol â SCC19.

NODYN 19 – GWERTH CYFREDOL ACTIWARAIDD Y BUDDION YMDDEOL SYDD WEDI’U HADDO (parhad)

Roedd gwerth cyfredol actiwaraidd y buddion ymddeol sydd wedi’u haddo ar 31 Mawrth 2024 ac 2025, fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
	£m	£m
Aelodau Gweithredol	1,140	1,004
Aelodau Gohiriedig	381	314
Pensiynwyr	842	735
Cyfanswm	2,363	2,053

Rhagamcanwyd y buddion ymddeol a addawyd ar 31 Mawrth 2025 gan ddefnyddio brasamcan ymlaen o'r prisiad cyllid ffurfiol diweddaraf ar 31 Mawrth 2022.

Y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Defnyddiwyd y tybiaethau ariannol sydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer adroddiad SCC19 yr Awdurdod Gweinyddol fel y ganlyn ac maent yn wahanol ar 31 Mawrth 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae’r actiwari yn amcanu mai effaith y newid mewn tybiaethau i 31 Mawrth 2025 yw i leihau y gwerth presennol actiwaraidd o £405m. Amcanir mai effaith y newid mewn demograffiaeth a hirhoedledd ydi lleihau y gwerth presennol actiwaraidd o £5m.

	31 Mawrth 2024	31 Mawrth 2025
Rhagdybiaeth	%	%
Cyfradd cynnydd mewn pensiwn	2.75	2.75
Cyfradd cynnydd mewn cyflog	3.25	3.25
Cyfradd ddisgownt	4.85	5.80

Mae’r disgwyliad oes ar gyfer y dybiaeth hirhoedledd yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2023, gyda 15% o bwysau ar ddata 2023 (a 2022), 0% o bwysau ar ddata 2021 (a 2020), llyfnhau safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwella tymor hir o 1.5% y flwyddyn. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn, mae’r disgwyliad oes gyfartalog yn y dyfodol i oed 65 wedi’u crynhoi isod:

	Gwryw Blynnyddoedd	Benyw Blynnyddoedd
Pensiynwyr cyfredol	20.7	23.7
Pensiynwyr y dyfodol (tybir ei fod yn 45 oed ar y dyddiad priso diweddaraf)	21.6	25.3

Nid yw’r rhagdybiaethau demograffig eraill wedi newid ers y flwyddyn diwethaf ac yn unol â phrasiad diweddaraf y gronfa.

Mae’r sensitifrwydd ynghylch y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd i fesur ymrwymadau wedi’u nodi isod:

Sensitifrwydd i’r Rhagdybiaethau am y flwyddyn sy’n gorffen 31 Mawrth 2025	Amcan cynnydd mewn ymrwymadau %	Amcan swm Ariannol £m
0.1% y.f. o gynnydd mewn chwyddiant CPI	2	37
0.1% y.f. o gynnydd mewn cyflog	0	2
0.1% y.f. o leihad yn y gyfradd ddisgownt	2	39
I mlynedd o gynnydd yn disgwyliad oes aelod	4	82

NODYN 20 – ASED AU CYFREDOL

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
930	Cyfraniadau sy'n ddyledus – gweithwyr	966
2,853	Cyfraniadau sy'n ddyledus – cyflogwyr	3,004
2,789	Amrywiol ddyledwyr	3,193
6,572	Cyfanswm dyledwyr	7,163
31,151	Arian	35,417
37,723	Cyfanswm	42,580

NODYN 21 – YMRWYMIADAU CYFREDOL

31 Mawrth 2024 £'000		31 Mawrth 2025 £'000
2,781	Credydwyr amrywiol	2,215
1,377	Buddion sy'n daladwy	1,797
4,158	Cyfanswm	4,012

NODYN 22 – CYFRANIADAU GWIRFODDOL YCHWANEGOL (AVC)

Mae gwerth y cronfeydd ar y farchnad wedi'i nodi isod:

	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2024 £'000	Gwerth ar y Farchnad 31 Mawrth 2025 £'000
Clerical Medical	5,596	5,852
Utmost Life	153	125
Standard Life	5	5
Cyfanswm	5,754	5,982

Talwyd cyfraniadau AVC yn uniongyrchol i'r rheolwr yma fel a ganlyn:

	2023/24 £'000	2024/25 £'000
Clerical Medical	1,062	1,135
Cyfanswm	1,062	1,135

NODYN 23 – TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Cyngor Gwynedd

Cyngor Gwynedd sy'n gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd. O ganlyniad, mae perthynas gryf rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.

Cafodd y Cyngor gostau o £1,787,170 (£1,605,596 yn 2023/24) mewn perthynas â gweinyddu'r Gronfa ac yn dilyn hynny, cafodd ad-daliad am y costau hyn gan y Gronfa. Yn ogystal, y Cyngor yw un o gyflogwyr mwyaf aelodau'r Gronfa a chyfrannodd £32.5m tuag at y Gronfa yn 2024/25 (£30.33m yn 2023/24). Ar ddiwedd y flwyddyn, £1.12m oedd dyled y Cyngor i'r Gronfa yn bennaf mewn perthynas â llôg a dalwyd ar fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn, a £1.8m oedd dyled y Gronfa i'r Cyngor yn bennaf mewn perthynas ag ad-daliadau i'r Cyngor am y costau gweinyddol.

Mae gan Gronfa Bensiwn Gwynedd ddau gyfrif banc a ddelir fel rhan o Grŵp o Gyfrifon Banc Cyngor Gwynedd. Mae'r arian parod dros ben a ddelir yn y Grŵp o Gyfrifon Banc yn cael ei fuddsoddi bob dydd. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, mae Cyngor Gwynedd yn talu llog i'r Gronfa Bensiwn, yn seiliedig ar falansau dyddiol y Gronfa dros y flwyddyn. Yn ystod 2024/25, derbyniodd y Gronfa log o £1,087,938 (£1,020,271 yn 2023/24) gan Gyngor Gwynedd.

Llywodraethu

Roedd un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25 (yr aelod pwyllgor J.B.Hughes). Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor S.W.Churchman, R.W.Williams, J.B.Hughes, I.Thomas, G.Edwards, J.P.Roberts, R.M.Hughes a E.Hywel yn aelodau actif o'r Gronfa Bensiwn. Mae aelod pwyllgor I. Huws yn aelod gohiriedig o'r Gronfa Bensiwn.

Roedd dau aelod o'r Bwrdd Pensiwn yn derbyn buddion pensiwn o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25 (yr aelodau bwrdd H.E.Jones a A.Deakin). Yn ogystal, mae aelodau Bwrdd B.Roberts, O.Richards, N.Michael a S.E.Parry yn aelodau gweithredol o'r Gronfa Bensiwn.

Prif Bersonél Rheoli

Y Pennaeth Cyllid (s151), Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau a Cyfarwyddwr y Gronfa (hyd at 30/06/23) yw prif bersonél rheoli'r gronfa.

Mae'r cyflog sy'n daladwy i brif bersonél rheoli y gellir ei phriodoli i'r gronfa wedi'i nodi isod:

2023/24		2024/25
£'000		£'000
36	Buddion tymor byr	31
6	Buddion ôl-gyflogaeth	5
42		36

NODYN 24 – YMRWYMIADAU DAN GONTRACTAU BUDDSODDI

Roedd yr ymrwymadau (buddsoddiadau) cyfalaf sy'n aros ar 31 Mawrth fel a ganlyn:

	Cyfanswm ymrwymadau	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2024	Ymrwymiad ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000
Schroders Capital WPP Global Private Equity I L.P	12,500	9,056	7,556
Schroders Capital WPP Global Private Equity II L.P	25,000	0	18,250
GCM WPP Global Infrastructure L.P	15,000	11,481	7,551
Capital Dynamics CEI (WPP), L.P	10,000	7,082	5,869
Octopus Renewables Infrastructure	34,500	24,824	0
Russell Investments WPP Global Private Credit L.P	110,000	99,927	62,286
IFM Global Infrastructure UK (GB) L.P	57,500	0	0
Cyfanswm GBP	264,500	152,370	101,512
	€'000	€'000	€'000
Partners Group Direct 2006	20,000	0	0
Partners Group Global Value 2006	50,000	3,477	3,477
Partners Group Secondary 2008	15,000	1,960	1,960
Partners Group Global Value 2011	15,000	2,096	2,096
Partners Group Global Infrastructure 2012	40,000	7,019	3,419
Partners Group Direct 2012	12,000	1,181	1,181
Partners Group Global Value 2014	12,000	1,531	1,531
Partners Group Direct Equity 2016	50,000	2,826	2,826
Partners Group Global Value 2017	42,000	11,570	11,570
Partners Group Global Infrastructure 2018	28,000	4,631	4,631
Partners Group Direct Equity 2019	48,000	6,192	4,992
Partners Group Direct Infrastructure 2020	32,000	12,000	9,120
Partners Group Direct Equity V	30,000	25,586	22,279
Cyfanswm Ewro	394,000	80,069	69,082
	UD\$'000	UD\$'000	UD\$'000
Partners Group Emerging Markets 2011	7,000	1,082	1,082
Partners Group Secondary 2015	38,000	15,220	11,420
Partners Group Direct Infrastructure 2015	43,600	6,986	6,986
CBRE Global Infrastructure Fund (International) L.P	29,075	0	10,932
Cyfanswm Doleri	117,675	23,288	30,420

Mae'r ymrwymadau hyn yn ymwneud â thaliadau galw dyledus sy'n aros ar gronfeydd partneriaethau cyfyngedig heb eu dyfynnu a ddelir yn y portffolio. Mae'r symiau a 'elwir' gan y cronfeydd hyn yn afreolaidd o ran eu maint a'u hamseriad dros nifer o flynyddoedd o ddyddiad yr ymrwymiad gwreiddiol.

NODYN 25 - ASEDAU DIBYNNOL

Mae dau o gyflogwyr sy'n gyrff a ganiateir yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd yn dal bondiau yswiriant i'w diogelu yn erbyn y posibilrwydd o fethu â bodloni eu goblygiadau pensiwn. Llunnir y bondiau hyn o blaid y Gronfa ac ni wneir taliad ohonynt oni bai bod y cyflogwr yn methu talu.

NODYN 26 - YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ni nodwyd unrhyw ymrwymadau dibynnol.

NODYN 27 - COLLEDION YN SGIL AMHARIADAU

Nid oes unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd fel y corff gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, a swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau, ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Cronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Gwynedd; a
- Cael dealltwriaeth am berthnasoldeb partiön cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Pensiynau ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;

- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 Tachwedd 2025

I Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 5133A2025.



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	9
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	10
Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig	13
Atodiad 3 – Llythyr sylwadau	18
Ansawdd archwilio	21
Eich cefnogi chi	22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Adrian Crompton

Archwilydd
Cyffredinol Cymru

Mae'n dda gennyf rannu fy Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch chyfrifon ar gyfer 2024-25. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda'r Rheolwr Buddsoddi.

Mae fy nhîm wedi cwblhau y gwaith archwilio i raddau helaeth yn unol a nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Gorffennaf 2025, yn amodol ar gwblhau camau olaf y gweithdrefnau archwilio.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddarau perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2024-25. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1**.

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 13.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, h.y. y Pwyllgor Pensiynau yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Cronfa Bensiwn Gwynedd (y Gronfa Bensiwn) am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon.

Gweler [Atodiad 2](#)



Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Nid oes unrhyw **gamddatganiadau heb eu cywiro** yn y cyfrifon yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw.

Gweler y [Canfyddiadau archwilio](#)



Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **25 Tachwedd 2025**, yn dilyn cymeradwyaeth y cyfrifon yn y Pwyllgor Pensiynau ar 24 Tachwedd 2025 cyn y dyddiad cau statudol sef **1 Rhagfyr 2025**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddarau perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd

Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o asedau gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2024-25.

Trothwy adrodd (dibwys)

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

£32.364 miliwn

£1.618 miliwn

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Datgeliadau partïon cysylltiedig – Personél rheoli allweddol

£1,000

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Camddatganiadau nas cywirwyd

Nid oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond sydd, yn ein barn ni, yn haeddu cael eu dwyn i'ch sylw.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
Datgeliad yn unig	Nodyn 1 Disgrifiad o'r Gronfa Nodwyd nad oedd y ffigyrau aelodaeth a ddatgelwyd yn Nodyn 1 i'r cyfrifon yn cynnwys 183 o gynghorwyr a oedd yn aelodau o'r cynllun yn ystod y cyfnod. Dangosodd ein profion hefyd fod 66 o aelodau wedi'u dosbarthu'n anghywir fel rhai gweithgar, er nad oeddent yn weithgar yn ystod y cyfnod.	Er mwyn sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
Roedd yna nifer fach o welliannau bach hefyd o ganlyniadau i'n gwaith.		

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol y Gronfa Bensiwn.

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 3**, mae ei gynnwys yn gyson â'n cais safonol am sylwadau.

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu

Matthew Edwards
matthew.edwards@archwilio.cymru

Rheolwr Archwilio

Yvonne Thomas
yvonne.thomas@archwilio.cymru

Uwch Archwilydd

Osian Roberts
osian.roberts@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Cafodd y mesurau diogelwch a amlinellwyd yn y Cynllun Archwilio ynghylch perthnasau a ffrindiau'r Rheolwr Archwilio a'r Uwch Archwilydd yn cyfrannu at neu'n derbyn pensiwn o'r Gronfa Bensiwn eu gweithredu'n briodol i reoli unrhyw wrthdaro posibl.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Nododd fy Nghynllun Archwilio'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer archwilio cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut y cawsant eu trin fel rhan o'r archwiliad. Ni nodwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y bydd rheolaethau yn cael eu gwrthwneud gan reolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, fe'i hystyrir yn risg sylweddol [ISA 240.32-33]	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer tuedd; a • gwerthuso'r rhesymeg sy'n sail i unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i'r trywydd busnes arferol.	Ni chanfuwyd yn fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.

Prisiadau asedau buddsoddi

Mae'r balans asedau buddsoddi yn cynnwys £3,192 miliwn o fuddsoddiadau (incwm sefydlog, ecwiti, eiddo, credyd preifat, ecwiti preifat ac isadeiledd) sy'n gymhleth i'w prasio ac mae goddrychedd yn eu prisiad. Felly, mae risg bod y balansau buddsoddi wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- cytuno ar y prisiadau yn y ddogfennaeth ategol briodol;
- adolygu adroddiadau 'sicrwydd rheolaeth' gan reolwyr perthnasol y gronfa; a
- gwerthuso'r risg o gamddatganiad perthnasol gweddilliol a'r angen am weithdrefnau archwilio ychwanegol.

Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw broblemau gyda gwerthuso Asedau Buddsoddi.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthnasoedd partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a'r corff/parti arall.

Mae gan Cronfa Bensiwn Gwynedd lawer o berthnasoedd y gellid eu hystyried yn bartïon cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus er enghraifft, cyflogwyr sy'n cymryd rhan fel cyfranwyr.

Fodd bynnag, lle mae perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddog neu aelod unigol, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder o ran y cysylltiadau hyn. Mae'r trafodion hyn o ddiddordeb mawr ac yn cael eu hystyried yn berthnasol o ran natur.

Mae perygl o gamddatganiad perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- adolygu proses Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cyflawnrwydd perthnasoedd partïon cysylltiedig; ac
- sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â gofynion cyfrifydd.

Ni nododd fy ngwaith archwilio unrhyw broblemau gyda'r datgeliadau partïon cysylltiedig.

Atodiad 2 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Gwynedd fel y corff gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol y gronfa bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, a swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau, ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2024-25.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o'r gronfa bensiwn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r gronfa bensiwn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei cham-ddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn **yr** Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cronfa Bensiwn Gwynedd a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Blynnyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y datganiadau ariannol, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Cronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad

perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cronfa Bensiwn Gwynedd sy'n ymwneud ag:
 - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial ar gyfer twyll wrth i reolwyr ddiystyru rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cronfa Bensiwn Gwynedd; a
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partiön cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Pensiynau ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu;

- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwrpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
25 Tachwedd 2025

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Atodiad 3 – Llythyr sylwadau

Llythyr Sylwadau Terfynol

Cronfa Bensiwn Gwynedd

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

24 Tachwedd 2025

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2024-25

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 at ddiben mynegi barn ar eu gwirionedd a'u tegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau fel yr ydym yn eu hystyried yn ddigonol, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2024-25; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u cam-ddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan weithwyr, cyn-weithwyr, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasodd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghydestun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasodd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu

datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Mae'r datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Sylwadau gan y Pwyllgor Pensiynau

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Pwyllgor Pensiynau ar 24 Tachwedd 2025.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Dewi Aeron Morgan
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd
24 Tachwedd 2025

Cynghorydd Elin Hywel
Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau
24 Tachwedd 2025

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlyn a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2024](#).



Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir

- Plattform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y problem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwleidiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.



CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	24 TACHWEDD 2025
TEITL:	CYNADLEDDAU PENSIWN
PWRPAS:	I GYMERADWYO RHESTR O GYNADLEDDAU 2026
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Mae aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, Bwrdd a swyddogion yn cael cyfle i fynychu nifer o gynadleddau ar sail cylchdro yn ystod y flwyddyn er mwyn ehangu ein gwybodaeth a trafod materion cyfredol.

2. Calendr Cynadleddau 2026

Trefnir nifer o gynadleddau sy'n ymwneud â phensiynau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae perthnasedd y cynadleddau i Gronfa Bensiwn Gwynedd ac aelodau'r Pwyllgor, Bwrdd a swyddogion yn amrywio. Er mwyn cynnal perthnasedd, gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo rhestr bob blwyddyn o gynadleddau perthnasol y gall aelodau a/neu swyddogion eu mynychu. Mae'r rhestr yn seiliedig ar berthnasedd cynnwys hanesyddol y digwyddiadau hyn.

Mae'r cynadleddau y gall aelodau a swyddogion eu mynychu yn 2026 fel a ganlyn:

- i) **Cynhadledd Llywodraethu CPLIL, Caerdydd**
Dydd Iau, 29 Ionawr i Ddydd Gwener, 30 Ionawr 2026
- ii) **Seminar Buddsoddi LGC, Carden Park**
Dydd Iau, 19 Mawrth i Ddydd Gwener, 20 Mawrth 2026
- iii) **Cynhadledd pŵlio CPLIL, Belfry**
Dydd Mawrth, 5 Mai i Ddydd Mercher 6 Mai 2026
- iv) **Fforwm Buddsoddi Strategol LAPF, The Grove**
Dydd Llun, 29 Mehefin i Ddydd Mawrth, 30 Gorffennaf 2026
- v) **Cynhadledd Buddsoddi LGC, Birmingham**
Dydd Iau, 10 Medi i Ddydd Gwener, 11 Medi 2026
- vi) **Cynhadledd LAPFE**
Rhagfyr 2026 (dyddiadau a lleoliad i'w gadarnhau)

Caniateir dau aelod i bob digwyddiad. Os daw swyddogion neu aelodau i wybod am gynadleddau defnyddiol nad ydynt yn ymddangos ar y rhestr gymeradwy, cynhelir

asesiad a rhoddir ystyriaeth i ychwanegu'r digwyddiad hwnnw at y rhestr yn y dyfodol os yn briodol.

3. Argymhelliad

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor gymeradwyo'r rhestr o gynadleddau ar gyfer 2026.

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	24 TACHWEDD 2025
TEITL:	RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26 ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN
PWRPAS:	Mae Cod Ymarfer CIPFA yn argymhell y dylid cynhyrchu adroddiad ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.
ARGYMHELLIAD:	DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Penderfynwyd yn y Pwyllgor Pensiynau, 17 Mawrth 2025 i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn gael ei gronni a'i gyd-fuddsoddi â llif arian cyffredinol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

Mae Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau adrodd ar berfformiad rheolaeth trysorlys o leiaf ddwywaith y flwyddyn sef canol y flwyddyn a diwedd y flwyddyn. Mae'r adroddiad yma yn darparu'r diweddariad hanner blwyddyn.

2. CYD-DESTUN ALLANOL

Y cefndir economaidd: Dominyddwyd y chwarter cyntaf gan ganlyniadau tariffau masnach yr Unol Daleithiau a'u heffaith ar farchnadoedd ecwiti a bondiau. Gwelwyd yn yr ail chwarter, a oedd yn dal i fod yn llawn ansicrwydd, marchnadoedd ecwiti gyda enillion a gwahaniaeth mewn cynnyrch bondiau llywodraeth yr Unol Daleithiau a'r DU, a oedd wedi bod yn symud yn gymharol agos at ei gilydd.

O ddiwedd mis Mehefin, yng nghanol cefndir y DU o ansicrwydd economaidd, pryderon ynghylch sefyllfa ariannol y llywodraeth a dyfalu ynghylch Cyllideb yr hydref, gwthiodd cynnyrch ar gilts tymor canolig a hir yn uwch, gan gynnwys y 30 mlynedd a gyrhaeddodd ei lefel uchaf ers bron i 30 mlynedd.

Cynyddodd chwyddiant prisiau defnyddwyr (CPI) blynyddol y DU dros y cyfnod, gan godi o 2.6% ym mis Mawrth i 3.8% ym mis Awst, yn dal ymhell uwchlaw targed 2% Banc Lloegr. Cododd chwyddiant craidd hefyd, o 3.4% i 3.6% dros yr un cyfnod, er bod darlleniad Awst i lawr % o 3.8% y mis blaenorol. Gostyngodd chwyddiant gwasanaethau hefyd o fis Gorffennaf i Awst, i 4.7% o 5.0%.

Ehangodd economi'r DU 0.7% yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr a 0.3% yn yr ail chwarter. Yn fersiwn derfynol adroddiad CMC Ch2 2025, adolygwyd twf blynyddol i

fyny i 1.4% y flwyddyn. Fodd bynnag, dangosodd ffigurau misol dwf sero ym mis Gorffennaf, yn unol â'r disgwyliadau, gan nodi dechrau araf i Ch3.

Parhaodd data'r farchnad lafur i feddalu trwy gydol y cyfnod, gyda'r gyfradd ddiweithdra yn codi a thwf enillion yn lleddfu, ond mae'n debyg nad i raddau a fyddai'n gwneud aelodau'r MPC yn gyfforddus gyda thoriadau cyfraddau pellach. Yn ychwanegol, Cododd y gyfradd gyflogaeth tra gostyngodd y gyfradd anweithgaredd economaidd a nifer y swyddi gwag yn gostwng.

Torrodd Pwyllgor Polisi Ariannol y BoE (MPC) y Gyfradd Banc o 4.5% i 4.25% ym mis Mai ac i 4.0% ym mis Awst ar ôl ail rownd ddigynsail o bleidleisio. Roedd y bleidlais 5-4 olaf o blaid toriad o 25bps, gyda'r lleiafrif eisiau dim newid. Ym mis Medi, pleidleisiodd saith aelod MPC i ddal cyfraddau tra bod dau yn ffafrio toriad o 25bps. Mae barn y Pwyllgor yn dal i fod yn wahanol ynghylch a yw'r risgiau i fyni o ddisgwyliadau chwyddiant a gosod cyflogau yn gorbwyso risgiau i lawr o alw a thwf gwannach.

Amlygodd Adroddiad Polisi Ariannol BoE Awst y rhagwelir y bydd chwyddiant yn disgyn yn ôl i'r targed erbyn canol 2027 ar ôl cyrraedd uchafbwynt yn Ch3 2025, gyda chymorth cynyddu capasiti sbâr yn yr economi a'r effeithiau parhaus o gyfraddau polisi llymach yn y gorffennol. Disgwylir i CMC aros yn wan yn y tymor byr tra bydd datblygiadau domestig a byd-eang yn dylanwadu ar ragolygon dros y tymor canolig.

Cynhaliodd Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor ei farn ganolog y byddai Cyfradd Banc yn cael ei dorri ymhellach wrth i'r BoE ganolbwyntio ar dwf CMC gwan yn fwy na chwyddiant uwch. Ar hyn o bryd disgwylir un toriad arall yn ystod 2025/26, gan fynd â'r Gyfradd Banc i 3.75%. Mae'r risgiau i'r rhagolwg yn gytbwys yn y tymor byr ond wedi'i bwysoli i'r ochr is ymhellach allan wrth i deimlad gwan defnyddwyr a hyder busnes a buddsoddiad barhau i gyfyngu ar dwf. Mae ansicrwydd sylweddol hefyd ynglŷn â Chyllideb yr hydref a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar y rhagolygon.

Yn erbyn cefndir o bolisi masnach ansicr yr Unol Daleithiau a phwysau gan yr Arlywydd Trump, cynhaliodd Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau gyfraddau llog yn sefydlog am y rhan fwyaf o'r cyfnod, cyn torri Cyfradd Cronfeydd Fed i 4.00% -4.25% ym mis Medi. Cyhoeddodd llunwyr polisi Fed eu rhagamcanion economaidd newydd ar yr un pryd. Roedd y rhain yn tynnu sylw at 0.50% yn is o Gyfradd Cronfeydd Fed erbyn diwedd 2025 a 0.25% yn is yn 2026, ochr yn ochr â thwf CMC o 1.6% yn 2025, chwyddiant o 3%, a chyfradd ddiweithdra o 4.5%.

Torrodd Banc Canolog Ewrop gyfraddau ym mis Mehefin, gan leihau ei brif gyfradd ail-ariannu o 2.25% i 2.0%, cyn ei gadw ar ôl hyd at ddiwedd y cyfnod. Roedd amcanion newydd yr ECB yn rhagweld chwyddiant ar gyfartaledd o 2.1% yn 2025, cyn disgyn yn is na'r targed yn 2026, ochr yn ochr â gwella twf CMC, y mae'r risgiau yn cael eu hystyried yn fwy cytbwys.

Marchnadoedd ariannol: Ar ôl y gostyngiadau sydyn a welwyd yn gynnar yn y cyfnod, Gwellodd teimlad mewn marchnadoedd ariannol, ond mae asedau risg yn gyffredinol wedi parhau i fod yn gyfnewidiol. Yn gynnar yn y cyfnod gostyngodd cynnyrch bondiau, ond ansicrwydd parhaus, yn enwedig yn y DU, wedi gweld

cynnyrch canolig a hirach yn codi gyda buddsoddwyr bondiau angen enillion cynyddol uwch yn erbyn y risg uchel canfyddedig o UK plc. Ers y gwerthu ym mis Ebrill, mae marchnadoedd ecwiti wedi ennill yn ôl y gostyngiadau blaenorol, gyda buddsoddwyr yn parhau i wynebu ansicrwydd parhaus.

Dros y cyfnod, dechreuodd cynnyrch gilt meincnod 10 mlynedd y DU ar 4.65% a gorffennodd ar 4.70%. Fodd bynnag, gwelodd y chwe mis hyn anwadalrwydd sylweddol gyda'r cynnyrch 10 mlynedd ar ei isaf yn 4.45% ac ei uchaf o 4.82%. Roedd yn ddarlun tebyg i raddau helaeth ar gyfer y gilt 20 mlynedd a ddechreuodd ar 5.18% a gorffennodd ar 5.39% gydag lefelau isel ac uchel o 5.10% a 5.55% yn y drefn honno. Roedd y Gyfradd Sterling Dros Nos (SONIA) ar gyfartaledd yn 4.19% dros y chwe mis hyd at 30 Medi.

Adolygiad credyd: Cynhaliodd Arlingclose ei uchafswm terfyn hyd heb ei warantu a argymhellir ar y mwyafrif o'r banciau ar ei restr wrthbartïon ar 6 mis. Mae'r banciau eraill yn aros ar 100 diwrnod.

Yn gynnar yn y cyfnod, Uwchraddiodd Fitch Grŵp NatWest ac endidau cysylltiedig i AA- o A + a gosododd sgôr A- hirdymor Clydesdale Bank ar Rating Watch Positive. Er bod Moody's wedi israddio'r sgôr hirdymor ar sofran yr Unol Daleithiau i Aa1 ym mis Mai a hefyd cadarnhau sgôr OP Corporate yn Aa3.

Yna yn yr ail chwarter, fe wnaeth Fitch uwchraddio Clydesdale Bank a hefyd HSBC, israddio Lancashire CC a Close Brothers tra bod Moody's wedi uwchraddio Transport for London, Allied Irish Banks, Bank of Ireland a Toronto-Dominion Bank.

Ar ôl cynyddu ddechrau mis Ebrill yn dilyn cyhoeddiadau tariff masnach yr Unol Daleithiau, mae prisiau cyfnewid diffyg credyd y DU ers hynny wedi tueddu i lawr yn gyffredinol ac wedi gorffen y cyfnod ar lefelau sy'n unol â'r rhai yn chwarter cyntaf y flwyddyn galendr a thrwy gydol y rhan fwyaf o 2024.

Mae prisiau CDS banciau Ewropeaidd wedi dilyn patrwm eithaf tebyg i'r DU, fel y mae benthyccwyr Singapore ac Awstralia tra bod prisiau CDS banciau Canada yn parhau i fod yn gymedrol uchel o'i gymharu â chynharach yn 2025 ac yn 2024.

Ar y cyfan, ar ddiwedd y cyfnod arhosodd prisiau CDS ar gyfer pob banc ar restr gwrthbarti Arlingclose o fewn terfynau a ystyriwyd yn foddhaol ar gyfer cynnal cyngor credyd ar y cyfnod presennol.

Disgwylir i anwadalrwydd y farchnad ariannol barhau i fod yn nodwedd, o leiaf yn y tymor byr a, bydd lefelau cyfnewid diffyg credyd yn cael eu monitro ar gyfer arwyddion o straen credyd parhaus. Fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbarti yr Awdurdod a argymhellir gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

3. GWEITHGAREDD BUDDSODDI

Mae Cod Rheolaeth Trysorlys diwygiedig CIPFA yn diffinio buddsoddiadau rheolaeth trysorlys fel y rhai sy'n codi o lif arian y Cyngor neu weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian parod i'w ddefnyddio yn ystod busnes.

Mae gan y Cyngor gronfeydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn. Yn ystod y 6 mis, roedd balans buddsoddiadau'r Cyngor yn amrywio rhwng £74.3 a £141.0 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Dangosir sefyllfa'r buddsoddiadau yn ystod y cyfnod yn y tabl isod.

Sefyllfa Buddsoddiadau

	31.3.25	Symudiad	30.9.25	30.9.25
	Balans	6 mis	Balans	Incwm
	£m	£m	£m	%
Banciau a chymdeithasau adeiladu (ansicredig)	6.0	(5.9)	0.1	3.4
Awdurdodau Lleol	25.0	5.0	30.0	4.2
Cronfeydd Marchnad Arian	65.0	(30.0)	35.0	4.1
Swyddfa Rheoli Dyledion	45.0	(31.7)	13.1	4.0
Cronfeydd Cyfun	11.9	0.3	12.2	5.8
Cyfanswm Buddsoddiadau	152.9	(62.3)	90.6	

Mae Cod CIPFA a chanllaw'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus, gan roi ystyriaeth i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio am y gyfradd enillion uchaf, neu'r cynnyrch uchaf. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw taro'r cydbwysedd cywir rhwng risg ac enillion, gan leihau'r risg o beri colledion o fuddsoddiadau'n diffygdlu a'r risg o dderbyn incwm sy'n anaddas o isel ar fuddsoddiadau.

Fel y dangosir gan feincnod ymrwymadau yr adroddiad hwn, mae'r Cyngor yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Bydd y portffolio presennol o gronfeydd cyfun strategol yn cael ei gynnal i amrywio risg i wahanol ddosbarthiadau o asedau a hybu incwm buddsoddi.

Dangosir dilyniant metrigau risg ac enillion yn y dyfyniadau o feincnodi buddsoddiad chwarterol Arlingclose yn y tabl isod.

	Sgôr Risg	Statws Credyd	Datguddiad 'Bail-in'	Aeddfedrwydd Cyfartaledd Pwysol (diwrnodau)	Cyfradd Adennill
31.03.2025	4.67	A+	50%	22	4.82%
30.09.2025	4.62	A+	45%	30	4.36%
ALI tebyg	4.20	AA-	41%	32	4.03%
Bob ALI	4.54	A+	62%	11	4.20%

Mi wnaeth y Gyfradd Banc ostwng o 4.50% i 4.25% yn Mai 2025, gyda gostyngiad pellach i 4.00% yn Awst 2025. Mae cyfraddau llog tymor byr o gwmpas yr un lefel. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 3.95% a 4.45% a Chyfraddau'r Cronfeydd Marchnad Arian rhwng 3.98% a 4.54%.

Dalier £13m o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cronfeydd eiddo, aml-ased, bond ac ecwiti cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae diogelwch a hylifedd tymor byr yn llai o ystyriaeth, ac yn hytrach yr amcanion yw incwm referniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Gan nad oes dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig gan y cronfeydd hyn, ond maent ar gael i'w tynnu'n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, mae eu perfformiad a'u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcan buddsoddi'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gweler perfformiad ein cronfeydd eiddo, aml-ased, bond ac ecwiti cyfun hyd at 30 Medi 2025 isod:

STRATEGIC POOLED FUND PORTFOLIO				GWYNEDD				From:	22/02/2019	To:	30/09/2025
FUND NAME	ASSET CLASS	No of Units Held in Period	Current Value £	Capital Growth £	Dividends Earned £	Holding Period (yrs)	Capital Return	Income Return	Total Return	Volatility	
AEGON (KAMES) DIVERSIFIED MONTHLY INCOME FUND	MULTI ASSET	1,158,480	1,215,328	-34,672	425,979	6.6	-2.77%	34.08%	31.30%	10.2%	
CCLA - LAMIT PROPERTY FUND	PROPERTY	1,524,344	4,246,822	-753,178	1,291,322	6.6	-15.06%	25.83%	10.76%	5.9%	
NINETY ONE (INVESTEC) DIVERSIFIED INCOME FUND	MULTI ASSET	1,228,153	1,135,551	-114,449	333,007	6.4	-9.16%	26.64%	17.48%	3.6%	
PAYDEN ABSOLUTE RETURN BOND FUND	ABSOLUTE RETURN	233,541	2,001,355	1,355	240,874	2.1	0.07%	12.04%	12.11%	1.1%	
SCHRODER INCOME MAXIMISER FUND	EQUITY - UK	7,675,245	3,592,015	76,707	1,240,789	4.8	2.18%	35.30%	37.48%	9.4%	
GRAND TOTAL			12,191,070	-824,239	3,531,972	5.4	-6.33%	27.14%	20.80%	4.8%	
Unrealised capital loss since purchase:				-808,931	Annualised income return:		4.52%				
					Average Bank Rate:		2.34%				

Mae'n amlwg bod y gwerth cyfalaf cyfun o £12.19m yn llai na'r buddsoddiad cychwynnol o £13m. Gwneir buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr ar fisoedd, chwarteri a hyd yn oed blynedd; ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn uwch na chyfraddau llog arian parod. Byddwn yn cynnal ein buddsoddiad yn y tymor canolig.

4. CYDYMFFURFIO

Dangosir cydymffurfiad â therfynau buddsoddi penodol yn y tabl isod.

Cyfyngiadau Buddsoddi

Methodd y Cyngor gydymffurfio gyda dau gyfyngiad buddsoddi a hynny oherwydd bod lefel uchel o arian gennym ac felly wedi cynyddu'r buddsoddiad gyda rhai gwrthbartion dros dro. Rydym wedi agor cyfrifon ychwanegol er mwyn sicrhau cydymffurfiaid llawn yn y dyfodol.

	Uchafswm Gwrthbarti yn y cyfnod	Gwir Gwrthbarti 30.9.25	2025/26 Terfyn Gwrthbarti	Cydym- ffurfio
Llywodraeth y DU	£40.2m	£13.3m	Diderfyn	✓
Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill	£5m	£5m	£8m	✓
Buddsoddiadau â sicrwydd	£0m	£0m	£8m	✓
Banciau (ansicredig)	£5m	£0.1m	£4m	X
Cymdeithasau adeiladu (ansicredig)	£0m	£0m	£4m	✓
Darparwyr cofrestredig (ansicredig)	£0m	£0m	£4m	✓
Cronfeydd marchnad arian	£10m	£8m	£8m	X
Cronfeydd cyfun strategol	£5m	£5m	£8m	✓
Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real	£0m	£0m	£8m	✓
Buddsoddiadau eraill	£0m	£0m	£4m	✓

5. DANGOSYDDION DARBODUS RHEOLAETH TRYSORLYS

Fel sy'n ofynnol gan God Rheolaeth Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Cyngor yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheolaeth trysorlys.

i. Buddsoddiadau Rheolaeth Trysorlys Hir-dymor

Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw'r Cyngor i'r risg o achosi colledion trwy geisio ad-daliad cynnar o'i fuddsoddiadau. Y terfynau darbodus ar y terfynau rheolaeth trysorlys hirdymor yw:

	2025/26	2026/27	2027/28	Dim Dyddiad Penodol
Y prifswm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£13m	£0m	£0m	£0m
Terfyn ar brifswm a fuddsoddir tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn	£40m	£20m	£20m	£20m
Cydymffurfio	✓	✓	✓	✓

Dangosyddion Ychwanegol:

Mae'r Cyngor yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheolaeth trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

Diogelwch: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi'i bwysoli gan amser yn ei bortffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy gymhwyso sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan hyd pob buddsoddiad. Rhoddir sgôr i fuddsoddiadau heb sgôr yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

	Gwir 30.09.25	Targed 2025/26	Cydymffurfio
Sgôr credyd cyfartalog y portffolio	4.62	Sgôr o 6 neu lai	✓

Hylifedd: Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol o'i amlygiad i risg hylifedd drwy fonitro faint o arian sydd ar gael i dalu taliadau annisgwyl o fewn cyfnod treigl o dri mis, heb fenthycia ychwanegol.

	Gwir 30.09.25	Targed 2025/26	Cydymffurfio
Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis	£78.4m	£10m	✓

Datguddiad Cyfraddau Llog: Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Cyngor i risg cyfradd llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog oedd:

	Gwir 30.09.25	Terfyn 2025/26	Cydymffurfio
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o <u>gynnydd</u> o 1% mewn cyfraddau llog	£694,020	£1,324,700	✓
Y terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o <u>gwymp</u> o 1% mewn cyfraddau llog	£694,020	£1,324,700	✓

Perfformiad Rheolaeth Trysorlys

Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol ei weithgareddau rheolaeth trysorlys o ran ei effaith ar y gyllideb refeniw a'i berthynas â meincnod cyfraddau llog.

Cyllideb incwm buddsoddi'r Cyngor am y flwyddyn yw £0.9m, ond amcangyfrifir bod yr incwm buddsoddi disgwylledig gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn 2025/26 ychydig yn uwch wedi ei amcangyfrif yn £1.0m.

6. HYFFORDDIANT BUDDSODDI

Yn ystod y cyfnod, mae swyddogion wedi mynychu hyfforddiant buddsoddi gydag Arlingclose a CIPFA sy'n berthnasol i'w swyddi.

7. ARGYMHELLIAD

Derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	24 TACHWEDD 2025
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CRONFA BENSIWN GWYNEDD 2024/25
PWRPAS	Adolygu a darparu adborth ar yr adroddiad
AWDUR	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, sy'n darparu manylion am weithgareddau'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Y ddogfen yn Atodiad A yw'r Adroddiad Blynyddol drafft.

2. ADOLYGIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Mae yr adroddiad blynyddol drafft wedi cael ei adolygu fel rhan o'r archwiliad datganiadau ariannol gan Archwilio Cymru.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor adolygu a darparu adborth ar yr adroddiad.



Cronfa Bensiwn
GWYNEDD
Pension Fund

ADRODDIAD

BLYNYDDOL

2024/25

Cynnwys

	Tudalen
1. Rhagair	3
2. Strwythur Rheoli	4
3. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd Pensiwn Gwynedd	5-11
4. Crynodeb o Aelodaeth	12
5. Gweinyddiaeth Pensiynau	
5.1 Adolygiad o'r Flwyddyn	13-24
5.2 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	25-27
6. Buddsoddiadau	
6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn	28-30
6.2 Perfformiad Buddsoddi	30-31
6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw	32
6.4 Pwerau Buddsoddi	32
6.5 Rheoli Buddsoddiadau	32-33
6.6 Cydweithio Cronfeydd Pensiwn Cymru	33-39
6.7 Buddsoddi Cyfrifol	39-40
7. Rheolaeth a Perfformiad Ariannol	
7.1 Rheoli Risg	41-43
7.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi	43
7.3 Datganiad Strategaeth Cyllido	43-44
7.4 Perfformiad Ariannol	44
7.5 Safon Cyfrifeg Ryngwladol I9 (SCR I9) a Safon Adrodd Ariannol I02 (SAA I02)	45
7.6 Cyfrifon Terfynol 2024/25	45
7.7 Llywodraethu	45
7.8 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth	45-46
7.9 Uned Buddsoddi	46
8. Adroddiad Actiwaraid	47-48
9. Y Cyfrifon	I Ddod
10. Datganiad Polisi Llywodraethu	I Ddod
11. Geirfa	I Ddod

I. Rhagair

Croeso i'r adroddiad blynyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi ei gynhyrchu i ddarparu gwybodaeth i gyflogwyr, aelodau'r cynllun, aelodau etholedig a phartion eraill â diddordeb ynglŷn a gweinyddiaeth a perfformiad y gronfa ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 a rydym yn gobeithio y byddwch chi'n gweld ei gynnwys yn ddefnyddiol.

Yn ystod y flwyddyn, mae gwerth y Gronfa Bensiwn wedi cynyddu o £3.1 biliwn i £3.2 biliwn. Gwelodd y Gronfa enillion cadarnhaol o 5.1% dros y flwyddyn, yn erbyn meincnod o 6.9%. Ar gyfartaledd, dychwelodd cronfeydd CPLIL enillion o 3.4% am y flwyddyn, ac felly roedd dychweliadau'r Gronfa yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd am y flwyddyn ac yn y 7^{fed} safle o holl gronfeydd CPLIL Cymru a Lloegr. Mewn blwyddyn ble dychwelodd y rhan fwyaf o asedau enillion tebyg, prif sbardun eleni oedd enillion gwell na'r cyfartaledd o fondiau.

Diweddarwyd dyraniad strategol targed y Gronfa yn niwedd 2023 gan leihau risg y Gronfa yn rhannol trwy leihau ei dyraniad ecwiti a buddsoddi mewn asedau sy'n cynhyrchu incwm. Mae hyn wedi digwydd yn y flwyddyn a bydd buddsoddiadau mewn ecwiti preifat, dyled breifat ac isadeiledd yn cynyddu dros amser wrth i gyfalaf y buddsoddiadau cael ei alw mewn.

Mae'r Gronfa yn parhau i weithio fel aelod ymroddedig o Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) i sicrhau arbedion effeithlonrwydd trwy gyfuno asedau yn ein trefniadau rheoli buddsoddiadau. Ers Hydref 2023, mae'r Llywodraeth wedi bod yn adolygu trefniadau buddsoddi cronfeydd CPLIL yng Nghymru a Lloegr o dan yr ymgynghoriad CPLIL 'Addas i'r Dyfodol'. Mae tri prif faes wedi derbyn sylw: diwygio model gweithredu'r pŵl, hyrwyddo buddsoddiadau CPLIL yn eu hardaloedd lleol yn y DU, a chryfhau llywodraethu. Mae'r Llywodraeth wedi mynegi cefnogaeth gref i gynnig PPC i symud ymlaen i'r cam nesaf o gyfuno buddsoddiadau, a'r nod yw sicrhau cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd hirdymor y bartneriaeth.

Mae ceisiadau i osod amserlen uchelgeisiol ar gyfer dad fuddsoddi tanwydd ffosil yn llwyr yn parhau i'n cyrraedd, ond fel cronfa pensiwn, mae'n fwy cyfrifol i ni gynllunio'n iawn, cymryd camau go iawn, a dylanwadu lle bo hynny'n bosibl er budd ein hamgylchedd. Rydym yn parhau i gefnogi ein hymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2050, gydag ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero net 5, 10 neu 20 mlynedd ynghynt. Rydym yn gwneud popeth i sicrhau ein bod yn buddsoddi'n gyfrifol ac yn ystyried yr effaith y bydd ein gweithredoedd yn ei gael ar genedlaethau'r dyfodol, a bydden yn parhau i ddatblygu ein ymarferion buddsoddi cyfrifol yn y blynyddoedd i ddod.

O safbwynt gweinyddiaeth, mae staff y Gronfa wedi parhau i sicrhau ein bod yn darparu lefel uchel o wasanaeth yn 2024/25. Bu camau breision wrth ddatblygu ffyrdd electronig o weithio, gyda chyflogwyr yn defnyddio rhyngwyneb system i-Connect fwyfwy i ddarparu data i'r gronfa a phorth hunanwasanaeth newydd sbon i aelodau yn cael ei ddatblygu i ganiatáu i aelodau gymryd rheolaeth o'u pensiwn mewn ffordd ryngweithiol. Hoffem ddiolch hefyd i staff gweinyddu pensiwn Gwynedd a'u cydweithwyr yn y tîm buddsoddi am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad ganlynol yn darparu'r gwybodaeth ddefnyddiol i chi am ein Cronfa Bensiwn. Am fwy o wybodaeth, neu i roi eich barn ar yr adroddiad hwn, darperir manylion cyswllt y swyddogion perthnasol ar dudalen nesaf yr adroddiad. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod 2024/25, ac edrychwn ymlaen at ddatblygiadau'r gronfa yn 2025/26.



**Cynghorydd
R Medwyn Hughes**
Cadeirydd Pwyllgor
Pensiynau 2024/25



Dewi Morgan
s151
Pennaeth Cyllid

2. Strwythur Rheoli

Awdurdod Gweinyddu

Cyngor Gwynedd

Pwyllgor Pensiynau

Y Cyngorydd R Medwyn Hughes
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Elin Hywel (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorydd Stephen Churchman

Y Cyngorydd Ioan Thomas

Y Cyngorydd John Pughe Roberts

Y Cyngorydd John Brynmor Hughes

Y Cyngorydd Iwan Huws

Y Cyngorydd Robin Wyn Williams (Aelod
Cyfetholedig)

Y Cyngorydd Goronwy Edwards (Aelod
Cyfetholedig)

Bwrdd Pensiwn

Cynrychiolwyr Cyflogwyr

Mr Ned Michael (Cyngor Sir Ynys Môn)

Mrs Sioned Parry (Cyngor Bwrdeistref Sirol
Conwy)

Y Cyngorydd Beca Roberts (Cyngor Gwynedd)
nes Hydref 2024

Cynrychiolwyr Aelodau

Mr Osian Richards

Mr H. Eifion Jones

Mr Anthony Deakin

Pennaeth Cyllid ("Swyddog Adran 151")

Mr Dewi Morgan

Ymgynghorwyr

Hymans Robertson

Rheolwyr Cronfa

BlackRock

Lothbury

Grŵp Partners

Threadneedle

UBS Global Asset Management Cyf.

Russell Investments (PPC)

Schroders Capital (PPC)

GCM Grosvenor (PPC)

Octopus Renewables (PPC)

Capital Dynamics (PPC)

IFM Investors (PPC)

CBRE Investment Management (PPC)

Gwefan y Gronfa

www.cronfabensiwnngwynedd.cymru

Darparwyr Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVC)

Clerical Medical, Utmost Life a

Standard Life

Pŵl

Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC)

Gweithredwr Pŵl

Waystone Management (UK) Limited

Ceidwad

Northern Trust

Actiwari

Hymans Robertson

Banc

Barclays Bank plc

Archwilwyr

Archwilio Cymru

Manylion Cyswllt

Gellir holi ymhellach a derbyn gwybodaeth
fanylach ynglŷn â:

- Gweinyddu'r Gronfa drwy gysylltu â:

Mr Meirion Jones,

Rheolwr Pensiynau,

Cyngor Gwynedd,

Swyddfa'r Cyngor,

Caernarfon,

Gwynedd. LL55 1SH

☎ 01286 679643

✉ meirionjones2@gwynedd.llyw.cymru

- Gweithgareddau buddsoddi a chyfrifeg y
Gronfa drwy gysylltu â:

Mrs Delyth Jones-Thomas,

Rheolwr Buddsoddi,

Cyngor Gwynedd,

Swyddfa'r Cyngor,

Caernarfon,

Gwynedd. LL55 1SH

☎ 01286 679128

✉ delythwynjonesthomas@gwynedd.llyw.cymru

3. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Pensiynau a Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2024/25 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2025)

3 (a) Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Pensiynau ar gyfer 2024/25 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2025)

1. Cefndir a Chyfansoddiad y Pwyllgor

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol cenedlaethol (CPLIL), sy'n darparu buddion ymdeol a buddion cysylltiedig i weithwyr Cyngor Gwynedd ac amrywiaeth o gyflogwyr eraill yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Mae llywodraethu'r Gronfa yn cael ei oruchwyllo gan y **Pwyllgor Pensiynau**, sy'n gweithredu o dan bwerau a ddirprwywyd gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod gweinyddol. Mae'r Pwyllgor wedi'i gyfansoddi yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac mae'n cydymffurfio â rheoliadau llywodraethu CPLIL a chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a Bwrdd Cyngori'r Cynllun (SAB).

Mae'r Pwyllgor yn chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu buddiannau aelodau a chyflogwyr y Gronfa trwy sicrhau rheolaeth ariannol gadarn, llywodraethu cryf, a chydymffurfiaeth â'r holl gyfrifoldebau deddfwriaethol.

2. Swyddogaethau'r Pwyllgor Pensiynau

Mae cyfrifoldebau allweddol y Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys:

- **Strategaeth a Goruchwyliaeth**
 - Cymeradwyo ac adolygu'n rheolaidd Datganiad Strategaeth Fuddsoddi a Datganiad Strategaeth Cyllido y Gronfa.
 - Sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ac iechyd ariannol y Gronfa.
- **Llywodraethu a Rheoli Risg**
 - Goruchwyllo llywodraethu'r Gronfa yn unol â gofynion rheoleiddiol ac arfer gorau.
 - Cynnal goruchwyliaeth o gofrestr risg y Gronfa a Rheolaethau mewnol.
- **Rheoli Buddsoddiadau**
 - Monitro perfformiad buddsoddi ac ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi'r Gronfa.
 - Gwneud penderfyniadau strategol ynglŷn â dyrannu asedau a'r defnydd o gerbydau buddsoddi ar y cyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).
- **Gweinyddu a Chydymffurfiaeth**
 - Goruchwyllo gweinyddu budd-daliadau a gwasanaethau aelodau.
 - Sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau TPR a rheoliadau CPLIL.

Mae'r Pwyllgor yn gweithio ochr yn ochr â'r **Bwrdd Pensiwn Lleol**, sydd â rôl oruchwyllo a chraffu, gan sicrhau bod y Gronfa yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn unol â deddfwriaeth.

3. Gwaith y Pwyllgor yn 2024/25

Yn ystod 2024/25, cyfarfu'r Pwyllgor Pensiynau bum gwaith. Cafodd ei waith ei lunio gan faterion llywodraethu arferol a gofynion rheoleiddio sy'n esblygu. Roedd y meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:

- **Goruchwyllo Buddsoddi**

- Adolygu adroddiadau perfformiad buddsoddi chwarterol a derbyn cyflwyniadau gan reolwyr cronfeydd allweddol.
- Cymeradwyo addasiadau i ddyraniadau asedau yn unol ag amodau'r farchnad a chredoau buddsoddi.
- Parhau i drosglwyddo asedau i gronfeydd cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys portffolios ecwiti ac incwm sefydlog sy'n cyd-fynd a buddsoddi cyfrifol.
- Herio, annog newid, a cheisio sicrwydd ansawdd mewn perthynas â buddsoddiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r amcanion strategol ac yn adlewyrchu arweinyddiaeth gyfrifol.

- **Cyllid a Phrisio**

- Cymryd rhan mewn gwaith paratoi ar gyfer prisiad actiwaraid 2025, gan gynnwys monitro lefel cyllid interim ac asesiadau cyfamod cyflogwyr.
- Cymeradwyo diweddariadau i'r Datganiad Strategaeth Cyllido sy'n adlewyrchu newidiadau mewn cyfranogiad cyflogwyr.

- **Llywodraethu a Rheoli Risg**

- Adolygu Cofrestr Risg y Gronfa yn rheolaidd, gan gynnwys sylw penodol i weithredu ateb McCloud, risg seiber, a risg ansolfedd cyflogwyr.
- Sicrhau cydymffurfiaeth barhaus ag arferion gorau llywodraethu a disgwyliadau TPR.

- **Buddsoddi Cyfrifol**

- Derbyn diweddariadau ar amlygiad risg hinsawdd, metrigau dwysedd carbon, ac aliniad TCFD.
- Cymeradwyo cydweithrediad parhaus gyda PPC i integreiddio ystyriaethau buddsoddi cyfrifol ym mhob dosbarth asedau.

- **McCloud a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol**

- Goruchwyliodd baratoadau cydymffurfio'r Gronfa ar gyfer gweithredu ateb McCloud, gan gynnwys prosesu data a chyfathrebu gydag aelodau.
- Monitro cynnydd tuag at barodrwydd Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau'r Gronfa.

4. Aelodaeth y Pwyllgor (2024/25)

Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cynnwys 7 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd ynghyd ag un aelod cyfetholedig yr un (gyda phleidlais) o Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd yr aelodaeth yn ystod y flwyddyn 2024/25 fel a ganlyn:

Enw Aelod	Cynrychioli	Rôl
Y Cyngorydd Medwyn Hughes	Cyngor Gwynedd	Cadeirydd
Y Cyngorydd Elin Hywel	Cyngor Gwynedd	Is-gadeirydd
Y Cyngorydd Stephen Churchman	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cyngorydd Iwan Huws	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cyngorydd Ioan Thomas	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cyngorydd John Pughe Roberts	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cyngorydd John Brynmor Hughes	Cyngor Gwynedd	Aelod
Y Cyngorydd Robin Williams	Cyngor Sir Ynys Môn	Aelod Cyfetholedig
Y Cyngorydd Goronwy Edwards	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Aelod Cyfetholedig

5. Presenoldeb

	17/06/2024	16/09/2024	25/11/2024	27/01/2025	17/03/2025
Y Cyngorydd Medwyn Hughes	✓	✓	✓	✓	
Y Cyngorydd Elin Hywel	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd Stephen Churchman	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd Iwan Huws	✓		✓	✓	✓
Y Cyngorydd Ioan Thomas	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd John Pughe Roberts	✓	✓		✓	
Y Cyngorydd John Brynmor Hughes	✓	✓	✓	✓	✓
Y Cyngorydd Robin Williams	✓	✓	✓	✓	
Y Cyngorydd Goronwy Edwards	✓		✓	✓	✓

6. Cynllun Gwaith a Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu cynllun gwaith blaengar ar gyfer 2025/26, gan ganolbwyntio ar:

- Cwblhau **Prisiad Actiwaraidd Tair Blynedd 2025**
- Trawsnewidiad pellach a monitro buddsoddiadau cyfunol gyda WPP
- Goruchwyllo gweithredu **ateb McCloud**
- Parhau i ddatblygu **adrodd risg hinsawdd** a chydymffurfio â TCFD
- Paratoi ar gyfer cydymffurfio â'r **Dangosfwrdd Pensiynau**
- Adolygiad parhaus o **fframwaith a pholisiau llywodraethu'r Gronfa**

Bydd adroddiadau rheolaidd gan actiwariaid, ymgynghorwyr buddsoddi a swyddogion y Gronfa yn cefnogi goruchwyliaeth effeithiol trwy gydol y flwyddyn.

7. Hyfforddiant a Datblygu

Yn unol â Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau CIPFA, cynhaliodd y Pwyllgor raglen hyfforddi strwythuredig i sicrhau bod gan aelodau y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Roedd gweithgareddau hyfforddi allweddol yn 2024/25 yn cynnwys:

- Hyfforddiant Buddsoddi Cyfrifol
- Egwyddorion cyllido actiwaraidd ac asesu cyfamod cyflogwr
- Dyfarniad McCloud a diweddariadau diwygio deddfwriaethol
- Gweithdai perfformiad buddsoddi a rheoli risg
- Sesiynau sefydlu ar gyfer aelodau newydd a sesiynau gloywi i aelodau presennol

Disgwylir i bob aelod ymgymryd â lefel isafswm o hyfforddiant blynyddol a chynnal log datblygiad personol. Mae'r cynllun hyfforddi yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i deilwra i anghenion unigol a chyfunol.

7. Casgliad

Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn fodlon ei fod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu yn ystod 2024/25. Mae'r Pwyllgor wedi darparu goruchwyliaeth gadarn o fuddsoddiadau, sefyllfa ariannu a gwasanaethau gweinyddol y Gronfa wrth ymateb yn effeithiol i'r heriau a'r newidiadau yn yr amgylchedd CPLIL.

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithredu er budd yr holl randdeiliaid a sicrhau bod Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i ddarparu diogelwch a gwerth hirdymor i'w haelodau a'i chyflogwyr.

Y Cyngorydd Medwyn Hughes
Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau 2024/25

3 (b) Adroddiad Blynyddol Bwrdd Pensiwn Gwynedd ar gyfer 2024/25 (y flwyddyn at 31 Mawrth 2025)

1. Cefndir / Cyfansoddiad

Cyfansoddwyd y Bwrdd o dan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 13 Gorffennaf 2015. Mae'r aelodaeth yn cynnwys tri aelod sydd yn cynrychioli cyflogwyr y cynllun a thri aelod sydd yn cynrychioli aelodau'r cynllun (sef staff sy'n cyfrannu tuag at y cynllun pensiwn a rhai sydd wedi ymddeol ac yn derbyn pensiwn).

Dros y cyfnod o 1af Ebrill 2024 a 31ain Mawrth 2025, mae'r Bwrdd wedi cwrdd yn rhithiol bedair gwaith. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael gwahoddiad fel arsylwyr i gyfarfodydd y Pwyllgor Pensiynau, ac wedi cytuno cymryd y rôl hon yn eu tro er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth yn ogystal â chyfathrebu. Mae'r trefniant hon yn gytbwys gyda Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau rŵan yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, lle mae'n atebol, gyda swyddogion am lywodraethu a gweinyddu'r Gronfa. Ar adegau, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'w farn ac argymhellion gael eu cyflwyno'n swyddogol am ystyriaeth gan y Pwyllgor.

2. Swyddogaeth y Bwrdd

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, dau brif swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cynorthwyo'r awdurdod gweinyddu (Cyngor Gwynedd) i:

- i. sicrhau llywodraethu a gweinyddiaeth effeithiol ac effeithlon o'r CPLIL, a
- ii. sicrhau cydymffurfiaid gyda'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol

Felly, corff monitro, adolygu a chynorthwyo yw'r Bwrdd, nid corff sydd yn rheoli a gwneud penderfyniadau. Mae'r Bwrdd yn gweithredu o dan Gylch Gorchwyl a gytunwyd gan Cyngor Gwynedd (mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 5^{ed} o Fawrth 2015).

Mae'n derbyn cefnogaeth gan Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu'r Cyngor ac mae adroddiadau yn cael eu paratoi a'u cyflwyno gan swyddogion yn cynnwys y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau y Gronfa.

3. Gwaith y Bwrdd

Unwaith eto mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn flwyddyn brysur i staff uwch yr Awdurdod Gweinyddol. Felly, roedd aelodau'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i flaenoriaethu ceisiadau i swyddogion baratoi adroddiadau ar gyfer y Bwrdd.

4. Presenoldeb

Penderfynodd y Cynghorydd Beca Roberts i ymddiswyddo o'r Bwrdd Pensiwn yn ystod 2024/25. Hoffem ddiolch i Beca am ei gwaith yn ystod ei chyfnod ar y Bwrdd.

	23/04/2024	08/07/2024	14/10/2024	04/02/2025
Anthony Deakin		✓	✓	✓
H. Eifion Jones	✓	✓	✓	✓
Ned Michael	✓	✓	✓	✓
Sioned Evans Parry	✓	✓	✓	✓
Osian Richards	✓	✓	✓	
Cynghorydd Beca Roberts		✓		

5. Cynllun Gwaith

Yn unol â'r cynllun gwaith a gytunwyd yn y flwyddyn flaenorol, rhoddwyd sylw i adroddiadau ar y materion canlynol:

- Cyllideb y Gronfa Bensiwn
- Amcanion Ymgynghorwyr Buddsoddi
- Perfformiad buddsoddi'r Gronfa Bensiwn
- Gweinyddiaeth Pensiwn
- Adroddiad blynyddol y Gronfa Bensiwn
- Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Cyfrifon y Gronfa
- Adroddiad Archwilio Cymru
- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau
- Asesiad Gwybodaeth Cenedlaethol Hymans Robertson
- Polisiâu Gweinyddol

Yn ystod trafodaethau, rhoddwyd mewnbwn a chyflwynwyd nifer o sylwadau gan aelodau'r Bwrdd sydd wedi cynorthwyo swyddogion yr awdurdod gweinyddu i gwblhau eu gwaith.

Mae'r cynllun gwaith ar gyfer 2025/26 yn cynnwys:

- Diweddariad cyffredinol am Weinyddu Pensiynau
- Polisiâu Disgresiwn y Gronfa Bensiwn
- Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheolydd Pensiynau
- Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru
- Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Diweddariad perfformiad buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Cyfrifon Terfynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2025
- Cofrestr risg
- Cyllideb 2026/27
- Cynllun Busnes 2026/27
- Cynllun Hyfforddi 2026/27
- Rhaglen waith ar gyfer 2026/27
- Prisiant 2025

6. Hyfforddiant

Yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd cafodd pob aelod o'r Bwrdd fanylion am y CPLIL a'i weinyddiaeth yng Ngwynedd mewn cyflwyniadau amrywiol gan y Pennaeth Cyllid, Rheolwr Buddsoddi a Rheolwr Pensiynau. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd a chyflwyniadau rhithiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

LGC: Uwchgynhadledd Buddsoddi a Phensiynau

LGC: Seminar Buddsoddi

PPC: Buddsoddiadau wedi'u pwlio

PPC: Trosolwg o Ddiogelwch Seiber a Ystyriaeth ar gyfer y PPC

PPC: Polisiâu – Polisi Buddsoddi Cyfrifol

PPC: Polisiâu – Hinsawdd

PPC: Polisiâu – Gofalwriaeth

PPC: Buddsoddi Cyfrifol – Cynllunio Taith Net Zero

PPC: Buddsoddi Cyfrifol – Meintiannau Hinsawdd

PPC: Cynnydd Cronfeydd Eraill y CPLIL / Cyfleoedd Cydweithio

PPC: Unrhyw Ddatblygiadau Rheoleiddiol / Canllawiau Newydd


7. Diolch

Mae'r Cadeirydd yn dymuno diolch i'w chyd-aelodau ar y Bwrdd, sydd wedi gwirfoddoli eu hamser i'r swyddogaethau, ac i'r swyddogion perthnasol am eu cefnogaeth.

Sioned Parry
Cadeirydd y Bwrdd Pensiwn

4. Crynodeb o Aelodaeth

Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau yn aelodaeth y Gronfa dros y 20 mlynedd ddiwethaf. Mae'n dangos bod nifer y pensiynwyr wedi cynyddu yn raddol o 5,379 yn 2005 i 13,211 yn 2025 ac mae nifer y cyfranwyr hefyd wedi cynyddu o 14,481 yn 2005 i 19,380 yn 2025.



Ceir manylion pellach am aelodaeth y Gronfa yn y tabl isod:

31 Mawrth 2024	Disgrifiad	31 Mawrth 2025
19,348	Cyfranwyr	19,380
12,504	Pensiynau a Delir	13,211
14,419	Pensiynwyr Gohiriedig	14,826
4,006	Buddion heb eu hawlio	4,683
3,038	Ymadawyr heb benderfynu*	1,792
53,315	Cyfanswm Aelodaeth	53,892

*Mae ymadawr heb benderfynu yn rhywun sydd wedi gadael ei gyflogaeth ond sydd heb benderfynu pa gamau y mae am eu cymryd nawr o ran eu buddion pensiwn. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu monitro'n agos ac yn cael eu tynnu oddi ar y system yn y pen draw unwaith y bydd yr aelod unigol wedi penderfynu ar y camau y mae'n dymuno eu cymryd mewn perthynas â'u buddion pensiwn. Mae rhai cofnodion hefyd yn ymadawyr heb benderfynu gan fod y gronfa yn aros am fanylion terfynu gan gyflogwr y cynllun neu oherwydd bod oedi wrth brosesu'r cofnodion i'r statws cywir oherwydd prinder staff o ganlyniad i anhawster recriwtio staff newydd.

5. Gweinyddiaeth Pensiynau

5.1 Adolygiad o'r Flwyddyn

Cyflwyniad

Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Gronfa Bensiwn. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o weinyddu pensiynau dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) y Gronfa. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y gwaith a wnaed dros y cyfnod a diweddariad ar wahanol brosiectau a grybwyllwyd yn flaenorol.

Rheoli Perfformiad

Tabl DPA Gweinyddu A – Cyfanswm nifer o achosion gwaith

	DPA gwaith achos	Cyfanswm nifer yr achosion ar agor ar 31 Mawrth (safle cychwynnol)	Cyfanswm nifer yr achosion newydd a grëwyd yn ystod y flwyddyn (1 Ebrill i 30 Mawrth)	Cyfanswm nifer yr achosion a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn	Cyfanswm nifer yr achosion a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol
A1	Marwolaethau a gofnodwyd o aelodau actif, gohiriedig, pensiynwyr a goroeswyr	10	488	498	402
A2	Buddion goroeswyr newydd	0	38	38	24
A3	Ymddeoliadau aelodau gohiriedig	7	462	469	467
A4	Ymddeoliadau aelodau actif	33	560	593	490
A5	Buddion gohiriedig	2,493	966	3,459	4,978
A6	Trosglwyddiadau i mewn (gan gynnwys rhyng-gronfeydd i mewn, trosglwyddiadau clwb)	88	319	407	441
A7	Trosglwyddiadau allan (gan gynnwys rhyng-gronfeydd allan, trosglwyddiadau clwb)	11	129	140	116
A8	Ad-daliadau	5	283	288	402
A9	Dyfnbrisiau ysgariad a gyhoeddwyd	0	90	90	99
A10	Ysgariad gwirioneddol cases	0	0	0	2
A11	Amcangyfrifon aelodau y gofynnwyd amdanynt naill ai gan aelod o'r cynllun neu'r cyflogwr	35	2,749	2,784	2,714
A12	Hysbysiadau Ymunwr Newydd	483	3,303	3,786	3,907
A13	Achosion agregu	1,100	2,066	3,166	1,488
A14	Ffurlenni optio allan a dderbynwyd ar ôl 3 mis o aelodaeth	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd

Yn ystod y flwyddyn adrodd, bu'r tîm gweinyddol yn ymdrin ag amrywiaeth eang o weithgareddau gwaith achos, gan gynnal lefel uchel o drwybwn ar draws y rhan fwyaf o categorïau.

Cafwyd cynnydd bach yn nifer yr hysbysiadau marwolaeth, gyda 498 o achosion wedi'u cwblhau o'i gymharu â 402 y flwyddyn flaenorol. Arhosodd nifer y buddion goroeswyr newydd yn sefydlog, gan godi i 38 o 24. Roedd prosesu ymddeoliadau yn gyson, gyda 469 o ymddeoliadau aelodau gohiriedig a 593 o aelodau actif wedi'u cwblhau – y ddau'n cynyddu'n gymedrol o'r flwyddyn flaenorol.

Er gwaethaf dechrau'r flwyddyn gyda chyfaint uchel o 2,493 o achosion agored, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion buddion gohiriedig, gyda 3,459 wedi'u cwblhau o'i gymharu â 4,978 y flwyddyn flaenorol. Roedd trosglwyddiadau i mewn ac allan yn gymharol sefydlog, gyda 407 a 140 o achosion wedi'u cwblhau yn y drefn honno.

Gostyngodd nifer yr ad-daliadau yn sylweddol i 288 o 402, tra bod dyfynbrisiau ysgariad yn parhau'n gyson ar 90. Ni chafwyd unrhyw achosion ysgariad gwirioneddol eu prosesu eleni.

Parhaodd ceisiadau amcangyfrif aelodau ar lefel uchel, gyda 2,784 wedi'u cwblhau – ychydig yn uwch na'r 2,714 a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol. Arhosodd hysbysiadau ymunwyr newydd yn gyson ar 3,786, tra gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion agregu, a gododd i 3,166 o 1,488.

Ni chofnodwyd data ar gyfer optio allan ar ôl tri mis o aelodaeth yn ystod y cyfnod hwn, ond rydym yn gweithio tuag at sicrhau y gallwn adrodd ar y ffigurau hyn yn y flwyddyn nesaf.

Ar y cyfan, dangosodd y tîm berfformiad cadarn, gan ymateb i alw cynyddol mewn rhai meysydd, tra bod eraill yn adlewyrchu gostyngiad yn y llwyth gwaith o flwyddyn i flwyddyn.

Tabl DPA Gweinyddu B – Amser a gymerir i brosesu gwaith achos

	DPA gwaith achos	Targed cronfa awgrymedig	% a gwblhawyd o fewn targed y gronfa yn y flwyddyn	% a gwblhawyd yn y flwyddyn flaenorol	Gofyniad cyfreithiol	% a gwblhawyd o fewn targed cyfreithiol yn y flwyddyn	% a gwblhawyd o fewn targed cyfreithiol yn y flwyddyn flaenorol
B1	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd yn cydnabod marwolaeth aelod actif, gohiriedig, pensiynwr neu oroeswr	5 diwrnod gwaith	18.7%	19.5%	2 fis	69.3%	75.6%
B2	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i gadarnhau swm pensiwn y dibynyddion	10 diwrnod gwaith	81.6%	50%	2 fis	97.4%	75%
B3	Cyfathrebiad a roddwyd i aelod gohiriedig yn cynnwys opsiynau pensiwn a lwmp swm (dyfynbris)	15 diwrnod gwaith	98.9%	99.4%	2 fis	99.9%	99.9%
B4	Cyfathrebiad a roddwyd i aelod actif yn	15 diwrnod gwaith	95.9%	97.1%	2 fis	97.7%	99.7%

	cynnwys opsiynau pensiwn a lwmp swm (dyfynbris)						
B5	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i aelod gohiriedig gyda chadarnhad o'r opsiynau pensiwn a lwmp swm (gwirioneddol)	15 diwrnod gwaith	98.1%	99.6%	2 fis	99.4%	100%
B6	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i aelod actif gyda chadarnhad o'r opsiynau pensiwn a lwmp swm (gwirioneddol)	15 diwrnod gwaith	60.6%	85.1%	2 fis	95.7%	98.5%
B7	Taliad lwmp swm (aelodau gweithredol a gohiriedig)	15 diwrnod gwaith	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd	Heb ei adrodd
B8	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd gyda'r opsiynau buddion gohiriedig	30 diwrnod gwaith	5.0%	4.9%	2 fis	36.2%	21.7%
B9	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i aelod y cynllun gyda chwblhau'r trosglwyddiad i mewn	10 diwrnod gwaith	2.2%	4.8%	2 fis	67.4%	65.2%
B10	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i aelod y cynllun gyda chwblhau'r trosglwyddiad allan	10 diwrnod gwaith	87.3%	64.8%	2 fis	94%	93.3%
B11	Talu ad- daliadau	10 diwrnod gwaith	96.4%	98.5%	2 fis	99.6%	99.2%
B12	Dyfynbris ysgariad	45 diwrnod gwaith	95.5%	81.8%	3 mis	100%	99%
B13	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd yn dilyn achos ysgariad gwirioneddol, h.y. cymhwyso Gorchymyn Rhannu Pensiwn	15 diwrnod gwaith	Dim	0%	3 mis	Dim	100%
B14	Cyfathrebiad a gyhoeddwyd i ddechreuwyd newydd	40 diwrnod gwaith	0.8%	8.3%	2 fis	90.5%	94.5%

B15	Amcangyfrifon unigol wedi'u darparu i aelod y cynllun neu i'r cyflogwr	10 diwrnod gwaith	95.0%	97.1%	2 fis	99.7%	97.7%
-----	--	-------------------	-------	-------	-------	-------	-------

Eleni, rydym wedi symud drosodd i ddull newydd o adrodd ar berfformiad. Rydym yn parhau i addasu ein tasgau i gydymffurfio â'r dull newydd hwn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i wella ansawdd y data. Mae'n bosibl y bydd angen rhagor o addasiadau wrth i'r broses ddatblygu.

Mae rhai meysydd wedi dangos lefel isel o berfformiad, ond mae'n debygol bod angen addasu'r dasg ymhellach, gan fod y perfformiad gwirioneddol yn well na'r hyn a nodwyd. Fodd bynnag, mae'r ystadegau a gyflwynir yma yn adlewyrchu'r sefyllfa fel y mae ar hyn o bryd yn ein system.

Mae cyfathrebiadau sy'n cydnabod marwolaeth aelod yn parhau i fod yn is na'r targed cronfa, gyda dim ond 18.7% wedi'u cwblhau o fewn pum diwrnod gwaith. Serch hynny, roedd 69.3% yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol o ddau fis – gostyngiad bach o'r flwyddyn flaenorol.

Dangosodd cyfathrebiadau sy'n cadarnhau symiau pensiwn dibynnol welliant sylweddol, gyda 81.6% yn cyrraedd targed y gronfa a 97.4% yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol – cynnydd sylweddol o 50% a 75% yn y drefn honno.

Bu perfformiad dyfynbrisiau ymddeol a chadarnhad ar gyfer aelodau gohiriedig yn gyson dda, gyda bron pob achos yn cyrraedd y targedau cronfa a chyfreithiol. Parhaodd dyfynbrisiau ar gyfer aelodau actif i berfformio'n gadarn, er i'r gyfradd cadarnhad ostwng i 60.6% yn erbyn targed y gronfa. Serch hynny, cadwyd cydymffurfiaeth gyfreithiol uchel ar 95.7%.

Parhaodd cyfathrebiadau opsiwn buddion gohiriedig i danberfformio, gyda dim ond 5% yn cyrraedd targed y gronfa a 36.2% yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol. Er hynny, gwelwyd gwelliant blynyddol bach yn y ddau ffigur.


Roedd cyfathrebiadau trosglwyddo i mewn yn arbennig o isel, gyda dim ond 2.2% yn cyrraedd targed y gronfa, er bod 67.4% yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol. Yn groes i hynny, dangosodd cyfathrebiadau trosglwyddo allan welliant sylweddol, gyda 87.3% yn cyrraedd targed y gronfa a 94% yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol.

Cafodd taliadau ad-daliad a dyfynbrisiau ysgariad eu prosesu'n effeithlon, gyda dros 95% yn cyrraedd y targedau cronfa a chyfreithiol. Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd unrhyw gyfathrebiadau yn dilyn achosion ysgariad gwirioneddol, gostyngiad o gydymffurfiaeth 100% y flwyddyn flaenorol.

Arhosodd cyfathrebiadau i ddechreuwy'r newydd yn isel iawn ar 0.8% yn erbyn targed y gronfa, er bod cydymffurfiaeth gyfreithiol yn parhau'n gymharol uchel ar 90.5%. Ymdriniwyd â cheisiadau amcangyfrif aelodau'n effeithiol, gyda 95% yn cwrdd â tharged y gronfa a 99.7% yn bodloni'r gofyniad cyfreithiol. Ni chofnodwyd data ar gyfer taliadau lwmp swm eleni, ond rydym yn gweithio ar hyn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nodyn: Nid yw'r Gronfa yn gweithredu yn unol â thargedau perfformiad sefydlog. Yn hytrach, rydym wedi ymrwmo i welliant parhaus, gan roi blaenoriaeth i wella ansawdd gwasanaeth ac ymateboldeb dros amser. At ddibenion yr adroddiad hwn, aseswyd perfformiad yn erbyn targedau awgrymedig, sy'n adlewyrchu meincnodau a argymhellir yn genedlaethol ac sy'n darparu cyd-destun defnyddiol ar gyfer cymhariaeth.

Tabl DPA Gweinyddu C – Cyfathrebu ac ymgysylltu

DPA ymgysylltu digidol		
C1	% yr aelodau actif sydd wedi cofrestru ar gyfer hunanwasanaeth	55.11% ar 31 Mawrth
C2	% yr aelodau gohiriedig sydd wedi cofrestru ar gyfer hunanwasanaeth	43.46% ar 31 Mawrth
C3	% o aelodau pensiynwyr a goroeswyr sydd wedi cofrestru ar gyfer hunanwasanaeth	39.80% ar 31 Mawrth
C4	% cyfanswm holl aelodau'r cynllun sydd wedi cofrestru ar gyfer hunanwasanaeth	46.95% ar 31 Mawrth
C5	Y 5 swyddogaeth yr ymwelir â nhw amlaf	1. Dogfennau a Ffeiliau wedi'u Llwytho i Ffyn 2. Cyfrifiannellau Buddion 3. Prisiad Diweddaraf 4. Fideo Datganiad Buddion Blynnyddol 5. Rheoli Buddiolwyr
C6	Nifer y defnyddwyr cofrestredig yn ôl oedran	
C7	% o'r holl ddefnyddwyr cofrestredig sydd wedi mewngofnodi i'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf	39.64%
DPA Cyfathrebu		
C8	Cyfanswm nifer y galwadau ffôn a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn	Gwybodaeth ddim ar gael
C9	% y galwadau a atebwyd ar y pwynt cyswllt cyntaf	Gwybodaeth ddim ar gael
C10	Cyfanswm nifer yr ymholiadau e-bost a sianeli ar-lein a dderbyniwyd	Gwybodaeth ddim ar gael
C11	Amser aros cyfartalog i siarad ag aelod o'r tîm gweinyddol	Gwybodaeth ddim ar gael
C12	Nifer o ddigwyddiadau aelodau'r cynllun a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (cyfanswm wyneb yn wyneb ac ar-lein)	12
C13	Nifer y digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn (wyneb yn wyneb ac ar-lein)	22
C14	Nifer yr aelodau actif a dderbyniodd gyfarfod un-i-un (wyneb yn wyneb ac ar-lein)	180
C15	Nifer o weithiau y cyflwynwyd cyfathrebiad (h.y. cylchlythyr) at:	

	a) Aelodau actif	I
	b) Aelodau gohiriedig	I
	c) Pensiynwyr	I


DPA Ymgysylltu Digidol (C1 – C7)

Mae'r adran hon yn amlygu pa mor effeithiol y mae aelodau'n ymgysylltu â'r porth hunanwasanaeth, gan dynnu sylw at y nodweddion y maent yn eu hystyried fwyaf gwerthfawr.

Mae'r system 'Fy Mhensiwn Arlein' yn parhau i fod yn adnodd poblogaidd ac ymarferol, gyda lefel uchel o draffig dyddiol gan aelodau sy'n dymuno rheoli eu gwybodaeth bensiwn yn annibynnol. Ar 10 Ebrill 2024, lansiodd uwchraddiad sylweddol i'r porth, gan ei gwneud yn ofynnol i bob defnyddiwr presennol ailgofrestru. Cyflwynodd y platfform newydd ddyluniad modern a gwelliannau sylweddol i ymarferoldeb, wedi'u galluogi gan dechnoleg uwch.

Mae'r gwelliannau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Gronfa i ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar anghenion aelodau, gyda datblygiadau pellach ar y gweill i gryfhau ymgysylltiad ac ehangu defnyddioldeb.

Yn ystod cyfnod 2024–25, cofrestrodd tua 8,000 o aelodau'n llwyddiannus ar y porth newydd, gyda'r niferoedd yn parhau i gynyddu'n raddol bob mis. Mae'r graff isod yn dangos y duedd gadarnhaol mewn mabwysiadu gan aelodau dros y 12 mis diwethaf.



Mae'r system uwchraddiedig yn cynnig ystod eang o nodweddion wedi'u cynllunio i gefnogi aelodau wrth reoli eu budd-daliadau pensiwn. Mae'r rhain yn cynnwys y gallu i weld a diweddarau manylion personol a chyfeiriadau, cael mynediad at amcanestyniadau budd-daliadau a chyfrifiadau cyfandaliad ymddeol, adolygu hanes gwasanaeth, diweddarau buddiolwyr enwebedig, a gweld Datganiadau Budd-daliadau Blynyddol a slipiau cyflog (ar gyfer pensiynwyr).

Mae'r nodweddion newydd a gyflwynwyd gyda'r uwchraddiad yn cynnwys mewngofnodi symlach gan ddefnyddio e-bost a chyfrinair, diogelwch gwell trwy ddilysu dau ffactor, llywio mwy greddf, offeryn cynllunio ymddeol, fideos esboniadol wedi'u personoli ar gyfer pynciau cymhleth, a system ddilysu ID electronig.

Ar 31 Mawrth, roedd cyfraddau cofrestru ar draws categorïau aelodau yn dangos lefelau calonogol o gyfranogiad. Roedd aelodau gweithredol ar y blaen gyda chyfradd gofrestru o 55.11%, ac yna aelodau gohiriedig ar 43.46%, ac aelodau pensiynwyr a goroeswyr ar 39.80%. Yn gyffredinol, mae 46.95% o holl aelodau'r cynllun wedi cofrestru, gan adlewyrchu defnydd cryf ac ymgysylltiad digidol cynyddol.

Mae data defnydd yn datgelu mai'r swyddogaethau a gyrchir amlaf yw uwchlwytho dogfennau, cyfrifiannellau budd-daliadau, safbwyntiau prasio diweddaraf, trosolwg fideo o'r Datganiad Budd-daliadau Blyneddol, a rheoli buddiolwyr. Mae'r nodweddion hyn yn cyd-fynd yn agos ag anghenion ymarferol aelodau wrth gynllunio ar gyfer ymddeol a chynnal cofnodion cywir.

Mae dadansoddiad pellach o weithgarwch defnyddwyr yn dangos bod 39.64% o ddefnyddwyr cofrestredig wedi mewngofnodi i'r porth yn ystod y 12 mis diwethaf, gan adlewyrchu ymgysylltiad cyson ac ystyrlon. Mae data dosbarthiad oedran hefyd wedi'i gasglu i wella dealltwriaeth o batrymau defnydd ar draws demograffeg amrywiol.

Mae ymdrechion yn parhau i gynyddu cyfranogiad aelodau ac i sicrhau bod y porth yn parhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr sy'n datblygu'n barhaus.

DPA Cyfathrebu (C8-C15)

Yn ystod y flwyddyn adrodd, parhaodd gweithgareddau ymgysylltu ag aelodau a chyflogwyr i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi cyfathrebu ar draws y cynllun. Cynhaliwyd cyfanswm o 22 o ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr, yn bersonol ac ar-lein, ochr yn ochr â sesiynau pwrpasol i aelodau'r cynllun a gyflwynwyd gan ein tîm Cyfathrebu. Yn ogystal, derbyniodd 180 o aelodau gweithredol gefnogaeth un-i-un wedi'i bersonoli, gan adlewyrchu ymrwymiad cryf i ryngweithio uniongyrchol ac ystyrlon.

Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, bod nifer o bensiynwyr, aelodau gohiriedig, ac aelodau teulu aelodau ymadawedig hefyd wedi derbyn cymorth un-i-un yn ystod y flwyddyn. Er bod y grwpiau hyn y tu allan i gwmpas adrodd ffurfiol, byddai eu cynnwys yn cynyddu cyfanswm yr unigolion a gefnogir yn sylweddol.

Yn anffodus, nid oedd yn bosibl adrodd ar sawl metrig cyfathrebu allweddol eleni oherwydd newidiadau yn y system ffôn, a effeithiodd ar gasglu data. O ganlyniad, nid oedd ffigurau sy'n ymwneud â chyfeintiau galwadau, cyfraddau datrys cyswllt cyntaf, ymholiadau e-bost ac ar-lein, nac amseroedd aros cyfartalog ar gael.

Tabl DPA Gweinyddol D – Staff gweinyddol ar 31 Mawrth

DPA Staff		
D1	Cyfanswm nifer yr holl staff gweinyddol (Cyfwerth llawn amser)	23.6
D2	Hyd gwasanaeth cyfartalog yr holl staff gweinyddol	10 mlynedd 229 diwrnod
D3	Nifer y swyddi gwag staff gweinyddol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn	3
D4	Nifer nifer y swyddi gwag a lenwyd ar 31 Mawrth	3
D5	Cymhareb yr holl staff gweinyddol i gyfanswm nifer aelodau'r cynllun (yr holl staff gan gynnwys rheolwyr)	1:2278

D6	Cymhareb staff gweinyddol (yr holl staff prosesu ac eithrio rheolwyr) i gyfanswm nifer aelodau'r cynllun	1:2610
D7	Nifer cyfartalog yr holl achosion (agored a chaeedig) a gwblhawyd fesul aelod o staff sy'n ymwneud â dyletswyddau gweinyddol.	666

Mae'r tîm gweinyddol yn cynnwys 23.6 o staff cyfwerth ag amser llawn, gyda hyd gwasanaeth cyfartalog o 10 mlynedd a 229 diwrnod. Yn ystod y flwyddyn, cododd tair swydd wag, pob un ohonynt wedi'u llenwi'n llwyddiannus erbyn 31 Mawrth. Mae'r gymhareb o gyfanswm staff gweinyddol (gan gynnwys rheoli) i aelodau'r cynllun yn 1:2278, tra bod y gymhareb ar gyfer staff prosesu yn unig (ac eithrio rheoli) yn 1:2610. Yn seiliedig ar y tasgau a restrir yn Nhabl A uchod, mae'r nifer cyfartalog o achosion a gwblhawyd gan bob aelod o staff sy'n ymwneud â dyletswyddau gweinyddol yn 666.

Tabl DPA Gweinyddu E – Ansawdd Data

DPA Datganiadau Buddion Blynyddol		Y flwyddyn flaenorol %	Blwyddyn gyfredol %
E1	% y Datganiadau Buddion Blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Awst	100%	100%
E2	Esboniwrch gyda sylwebaeth fer os yw'n llai na 100%	AMH	AMH
E3	% nifer y datganiadau buddion blynyddol a ailgyhoeddwyd	AMH	AMH
DPA categori data		Sgôr ansawdd data y flwyddyn flaenorol %	Sgôr ansawdd data y flwyddyn gyfredol %
E4	Data cyffredin	97.5%	98%
E5	Data penodol i'r cynllun	99.1%	99.33%
DPA cyfeiriad a data e-bost		Y flwyddyn flaenorol %	Blwyddyn gyfredol %
E6	Canran o aelodau gweithredol, wedi'u gohirio ac ymddeol sydd wedi'u cofnodi fel 'wedi mynd' heb gyfeiriad cartref ar y system neu gyda chyfeiriad sy'n hysbys fel un sydd wedi dyddio	Heb ei adrodd	1.59%
E7	% o aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr sydd â chyfeiriad e-bost sydd ar ffeil (gyda chyfeiriad cartref cofnod a hebddo)	Heb ei adrodd	61.91%

Datganiadau Budd-daliadau Blynyddol DPA (E1-E3)

Rhaid i ni gynhyrchu Datganiad Buddion Blynyddol ar gyfer pob aelod o'r cynllun erbyn diwedd mis

Awst bob blwyddyn. Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion i aelodau am y buddion a gronnwyd hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol ac yn rhagweld y buddion sy'n daladwy ar eu Oedran Pensiwn Arferol. Mae'r datganiad hefyd yn cynnwys manylion cyflog a nodiadau esboniadol am sut mae'r budd-daliadau yn cael eu cyfrifo.

Ers 2018, mae'r datganiadau hyn wedi bod ar gael yn electronig ar adran Hunanwasanaeth Aelodau ein gwefan. Uwch lwythwyd datganiadau 2023/24 i'r system ar gyfer aelodau actif a gohiriedig ar 25/07/2024.

Mae 1,070 o aelodau wedi ysgrifennu i gadarnhau eu bod am barhau i dderbyn copi papur o'u datganiadau. Anfonwyd y datganiadau hyn ddiwedd Awst 2024.

DPA Categori Data (E4-E5)

Yn 2015, cymerodd y Rheoleiddiwr Pensiynau (RP) gyfrifoldeb am Gynlluniau Pensiwn y Sector Cyhoeddus. Cyn hynny, ym mis Mehefin 2010, cyhoeddodd y RP ganllawiau ar yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn arfer da i fesur presenoldeb data aelodau.

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn comisiynu ein darparwr meddalwedd, Heywood Pension Technologies i gynhyrchu Adroddiad Ansawdd Data ar gyfer ein Cronfa bob mis Medi. Mae gennym bellach feddalwedd i redeg yr adroddiad hwn yn fewnol.

Rhennir yr adroddiad yn ddwy adran:

Data Cyffredin: e.e. enw, cyfeiriad, rhif NI, rhyw, dyddiad geni, statws a dyddiad dechrau

Data Penodol i'r Cynllun: e.e. budd-daliadau yn y cynllun, manylion trosglwyddo, AVC, manylion cyflog, cyfraniadau, gwasanaeth, lwfans oes, lwfans blynyddol a GMP.

Arolwg Boddhad Aelodau

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i'n haelodau, anfonir Arolwg Boddhad Aelodau ar ddiwedd pob proses, e.e. ymddeoliadau a thalu ad-daliadau i'r aelodau roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u barn am y gwasanaeth a ddarperir gan y staff.


Cymerodd 76 o aelodau ran yn yr arolwg hwn.

Dyma grynodeb o ganlyniadau 2024/25:

Ansawdd y Gwasanaeth

Mae'r siart isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon â phedair agwedd ar berfformiad y gwasanaeth yn seiliedig ar: i) Gwasanaeth yn ei gyfanrwydd; ii) Gwybodaeth glir; iii) Ansawdd y gwasanaeth; iv) Amser i ddelio â'r ymholiad.

Ansawdd y Gwasanaeth




Fel y gwelwyd, mae **96%** o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel. Y ganran ar gyfer 2023/24 oedd **99%**.

Staff

Mae'r siart isod yn dangos canran y defnyddwyr sy'n fodlon â phedair agwedd ar berfformiad staff yn seiliedig ar: i) Cwrteisi; ii) Prydlondeb; iii) Cymorth a roddir; iv) Lefel y wybodaeth.

Staff



Fel y gwelwyd, mae canran uchel unwaith eto (**95%**) o'r defnyddwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o safon uchel mewn perthynas â'r staff. Y ganran ar gyfer 2023/24 oedd **99%**.

Er bod y sgôr ychydig yn is nag yn 2023/24, rydym yn parhau i fod yn hyderus bod ein perfformiad yn 2024/25 wedi bod yn gyson. Mae'r dip bach yn adlewyrchu adborth gan un aelod anfodlon y mae ei bryderon yn ymwneud â mater y tu hwnt i'n rheolaeth.

Gwaith i'w wneud

Mae nifer o dasgau a phrosiectau sy'n gofyn am sylw yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwefan: Parhau i ddiweddarau ac ehangu'r wefan.

- Parhau i ddatblygu awtomeiddio prosesau a gwella ein gohebiaeth.
- Sganio'r ffeiliau papur yn y swyddfa er mwyn bod yn swyddfa ddi-bapur.
- McCloud: Diweddarau cofnodion ar gyfer ymgymryd â phrosiect McCloud.
- Lleihau nifer y cofnodion 'gadael heb benderfynu', sef aelodau sydd wedi gadael y cynllun ond nad yw eu cofnod wedi'i gau.

i-Connect

Mae i-Connect yn diweddarau data aelodau yn ein system weinyddu pensiwn yn fisol, gan osgoi'r angen i gyflogwyr anfon gwybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn.

Cymerir data'n uniongyrchol o system gyflogres gan i-Connect sydd wedyn yn nodi ac yn cyflwyno manylion aelodau newydd, optio allan a gadael yn awtomatig i ni.

Erbyn hyn mae'r holl gyflogwyr yn defnyddio i-Connect, gyda'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n brydlon gan yr holl gyflogwyr ar y cyfan.

Ystadegau Gweinyddu'r Cynllun

Nifer y Cyflogwyr

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o nifer y cyflogwyr yn y Gronfa sydd ag aelodau actif ac sydd wedi dod i ben (dim aelodau gweithredol ond rhai rhwymedigaethau heb eu talu).

	Actif	Wedi dod i ben
Cyrrff ar yr atodlen:	29	5
Cyrrff a ganiateir:	18	26
Cyfanswm:	47	31

Aelodaeth y Cynllun

	31/03/2020	31/03/2021	31/03/2022	31/03/2023	31/03/2024	31/03/2025
Actif	18,582	18,295	18,657	19,304	19,348	19,380
Gohiriedig	12,605	12,431	12,540	13,160	14,419	14,826
Pensiynwyr	10,329	10,780	11,298	11,780	12,504	13,211
Heb eu brosesu	6,441	8,133	8,617	7,966	7,044	6,475
Cyfanswm:	47,957	49,639	51,112	52,210	53,315	53,892

Ymddeoliadau yn ystod 2024/25

Mae'r tabl hwn yn rhoi crynodeb o nifer yr ymddeoliadau o fewn y Gronfa yn ystod 2024/2025.

Rheswm dros adael	Nifer y pensiynwyr
Ymddeoliad Cynnar/Arferol	533
Diswyddo/ Effeithlonrwydd	69
Ymddeoliad Salwch	43
Ymddeoliad Hwyr	132
Ymddeoliad Hyblyg	57
Cyfanswm	834

Dangosyddion staffio

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff yn y Tîm Gweinyddu Pensiynau sy'n gweithio'n gyfan gwbl ar fuddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
Nifer o staff cyfwerth ag amser llawn y Gronfa Bensiwn	18.10	19.16	20.16	22.6	23.6
Cyfanswm aelodaeth y gronfa (Nid yw'n cynnwys aelodau heb eu prosesu)	41,506	42,495	44,244	46,271	47,417
Nifer aelodau'r gronfa i un aelod o staff gweinyddol	2,293	2,218	2,195	2,047	2,009

Cost Uned Fesul Aelod

Treuliau Rheoli Buddsoddiadau	2022/23	2023/24	2024/25
Cyfanswm y Costau	£10,593,000	£12,866,000	£15,738,000
Cyfanswm Niferoedd Aelodaeth (Nid yw'n cynnwys buddion heb eu hawlio ac ymadawyr heb eu penderfynu)	44,244	46,271	47,417
Cost fesul aelod	£239.42	£278.06	£331.91
Treuliau Gweinyddol			
Cyfanswm y Costau	£1,588,000	£1,720,000	£1,988,000
Cyfanswm Niferoedd Aelodaeth (Nid yw'n cynnwys buddion heb eu hawlio ac ymadawyr heb eu penderfynu)	44,244	46,271	47,417
Cost fesul aelod	£35.89	£37.17	£41.93
Treuliau Goruchwyllo a Llywodraethu			
Cyfanswm y Costau	£548,000	£456,000	£556,000
Cyfanswm Niferoedd Aelodaeth (Nid yw'n cynnwys buddion heb eu hawlio ac ymadawyr heb eu penderfynu)	44,244	46,271	47,417
Cost fesul aelod	£12.39	£9.85	£11.73
Cyfanswm y gost	£287.70	£325.08	£385.57

Cydnabyddiaeth

Ar y cyfan, mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn lwyddiannus i'r Gronfa Bensiwn. Hoffwn ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a'u cefnogaeth dros y flwyddyn, i'r cyflogwyr am ddarparu gwybodaeth amserol a'n actiwari Hymans Robertson am eu gwaith a'u cyngor dros y flwyddyn.

Meirion Jones
Rheolwr Pensiynau

5.2 Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cyffredinol

Deddf Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 sy'n llywodraethu'r Gronfa. Gweinyddir y Gronfa yn unol â'r deddfau eilaidd a ganlyn:

- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol, Arbedion a Gwelliant) 2014 (fel y'i diwygiwyd)
- Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer ei weithwyr ei hun ynghyd â gweithwyr 46 o gyrff eraill (gan gynnwys 2 Awdurdod Lleol). Nid yw athrawon yn dod o dan y Gronfa hon ac mae darpariaethau gwahanol ar eu cyfer hwy. Telir am y Gronfa trwy gyfraniadau gan weithwyr a chyflogwyr, ynghyd ag incwm buddsoddi.

O Ebrill 2014 pennir cyfradd cyfrannu gweithwyr mewn bandiau yn ôl eu gwir gyflog wedi ei gynyddu gyda'r lefel chwyddiant blyneddol. Gall gweithwyr ddewis talu cyfraniadau hanner cyfradd er mwyn cronni buddion personol cyfradd hanner mewn cynllun o'r enw 50/50, mae buddion marwolaeth a dibynnyddion yn dal ar gyfradd lawn. Dangosir y bandiau ar gyfer Ebrill 2024- Mawrth 2025 yn y tabl isod:

Amrediad Cyflog	Graddfa Cyfraniad prif gynllun	Graddfa Cyfraniad cynllun 50/50
Hyd at £17,600	5.5%	2.75%
£17,601 - £27,600	5.8%	2.9%
£27,601 - £44,900	6.5%	3.25%
£44,901 - £56,800	6.8%	3.4%
£56,801 - £79,700	8.5%	4.25%
£79,701 - £112,900	9.9%	4.95%
£112,901 - £133,100	10.5%	5.25%
£133,101 - £199,700	11.4%	5.7%
Mwy na £199,701	12.5%	6.25%

Mae cyflogwyr yn cyfrannu at y cynllun ar raddfa wedi ei hasesu'n deirflynyddol gan Actiwari'r Gronfa, neu pan mae newid sylweddol mewn aelodaeth neu broffil y cyflogwr. Mae cyflogwyr yn dal i dalu cyfradd lawn ar gyfer aelodau sydd yn dewis yr opsiwn 50/50 neu ar dâl llai oherwydd salwch.

Buddion

Mae'r CPLIL yn darparu buddion sylweddol i aelodau yn seiliedig ar ddau gynllun ar wahân. Mae trefniant cyflog terfynol, sydd yn cynnwys dau gyfradd cronni, a CARE (Enillion Cyfartaledd Gyrfa ac Ailbrisiad) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2014. Isod fe restrir crynodeb byr o sut mae'r pensiynau yn cael eu cronni o dan y ddau drefniant.

Ar gyfer yr elfen buddion cyflog olaf bydd buddion fel arfer yn seiliedig ar ddau ffactor sef: hyd y gwasanaeth y talwyd cyfraniadau i'r cynllun, a geir ei adnabod fel "Cyfanswm Aelodaeth", a'r cyflog yr oedd y cyfraniadau yn seiliedig arno (fel arfer y 12 mis olaf o wasanaeth), a geir ei adnabod fel "Cyflog Olaf".

Bydd y rhan CARE mewn ffurf 1/49fed a chyfrifwyd ar wir gyflog pensiynadwy bob blwyddyn sydd yn cael eu hailbrisiu yn flynyddol.

- **Pensiwn Blyneddol**

Mae'r cyfrifiad ar gyfer pensiwn safonol blyneddol yn seiliedig ar y fformiwla isod:

Cyflog Olaf x 1/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008; plws

Cyflog Olaf x 1/60 x Cyfanswm Aelodaeth o 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2014; plws

Y pensiwn CARE wedi ei chronni ac ailbrisio ar y blynyddoedd o 1 Ebrill 2014 ymlaen

Unwaith bydd y pensiwn yn cael ei dalu bydd yn cynyddu bob mis Ebrill yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

- **Lwmp Swm**

Hefyd mae hawl derbyn lwmp swm yn ddi-dreth ar aelodaeth i 31 Mawrth 2008, wedi ei gyfrifo ar sail y fformiwla isod:

Cyflog Olaf x 3/80 x Cyfanswm Aelodaeth i 31 Mawrth 2008 yn unig

- **Newid Buddion**

Mae dewis cyfnewid rhan o'r pensiwn er mwyn cynyddu'r lwmp swm dros ben y fformiwla a ddangosir uchod, ond o fewn cyfyngiadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi (HMRC).

Pensiynau Cynghorwyr

Mae'r cynllun hefyd yn caniatáu mynediad i Gynghorwyr. Seilir y pecyn buddion ar fformiwla'r cynllun am bensiwn a lwmp swm cyn Ebrill 2008 fel y gwelir uchod, ond defnyddir Cyflog Cyfartalog Gyrfa yn lle Tâl Terfynol. Dyma'r sefyllfa o hyd ar gyfer Aelodau Cynghorwyr, hyd yn oed ar ôl cyflwyno'r prif gynllun newydd o Ebrill 2014. Ni chaiff Cynghorwyr newydd ymuno â'r CPLIL yn Lloegr a bydd yn rhaid i Aelodau Cynghorwyr adael y cynllun pan fydd eu cyfnod yn y swydd wedi dod i ben.

Ymddeoliad Salwch

Os oes gan aelod o leiaf 2 flynedd o gyfanswm aelodaeth, a bod meddyg cofrestredig annibynnol a gymeradwywyd gan yr awdurdod gweinyddu yn tystio ei fod yn barhaol anabl i wneud ei swydd, neu unrhyw swydd debyg gyda'r cyflogwr, bydd yn derbyn pensiwn ac os yw'n dewis cyfnewid pensiwn lwmp swm yn rhydd o dreth yn syth.

Mae'r buddion sy'n daladwy yn dibynnu ar yr haen o ymddeoliad salwch a ddyfarnwyd:

Haen 1

Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig cyn eu Hoedran Pensiwn Arferol (OPA), bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun yn ogystal â'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiyndwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

Haen 2

Os yw'r aelod yn annhebygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, ond maent yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â chyflogaeth o'r fath cyn eu OPA, mae'r buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn ar ddyddiad gadael y cynllun ynghyd â 25% o'r pensiwn y byddent wedi adeiladu, wedi'i gyfrifo ar dâl pensiyndwy tybiedig, pe baent wedi bod yn brif adran y cynllun nes iddynt gyrraedd eu OPA.

Haen 3

Os yw'r aelod yn debygol o fod yn gallu ymgymryd â gwaith cyflogedig o fewn 3 blynedd o adael, neu cyn eu OPA os yn gynt, bydd y buddion salwch yn seiliedig ar y pensiwn y maent eisoes wedi cronni yn eu cyfrif pensiwn wrth adael. Bydd y buddion hyn yn cael eu hatal ar ôl 3 blynedd, neu'n gynharach os yw'r aelod mewn swydd gyflogedig neu'n dod yn alluog i gyflogaeth o'r fath, ar yr amod nad ydynt wedi cyrraedd eu OPA erbyn hynny. Os bydd y taliad yn cael ei stopio bydd fel arfer yn daladwy unwaith eto o OPA.

Mae gwaith cyflogedig yn golygu gweithio am ddim llai na 30 awr yr wythnos am gyfnod o ddim llai na 12 mis.

Ymddeoliad Cynnar

Os yw cyfanswm aelodaeth yn 2 flynedd neu fwy, gall aelod ddewis ymddeol a derbyn ei fudd CPLIL unrhyw adeg ar ôl 55 oed; er hynny gall taliad cyn oed ymddeol arferol olygu lleihad actiwaraid er mwyn talu am y rhyddhad buan, ac os ar ôl oed buddion pensiwn arferol gellir cael codiad actiwaraid oherwydd taliad hwyr.

Buddion Gohiriedig

Mae aelodau sy'n gadael gyda 2 flynedd o aelodaeth yn cael buddion gohiriedig, fel a'i cyfrifwyd ym mharagraff 'Buddion', ond i'r buddion gael eu gohirio a'u cynyddu gyda'r mynegai, hyd nes gwneir taliad unrhyw amser ar ôl oedran 55 (oedran 60 os yw terfyniad cyn 01/04/2014) neu mae'n bosib trosglwyddo swm sy'n cyfateb i'r buddion i gynllun pensiwn arall.

Bydd aelodau sy'n gadael gyda chyfanswm aelodaeth o lai na 2 flynedd a dim hawliau CPLIL pellach, yn cael ad-hawlio'u cyfraniadau, llai treth ac unrhyw breimiwm perthnasol.

Marw Mewn Gwasanaeth

Mae lwmp swm o dair gwaith Cyflog Terfynol yn daladwy, waeth pa mor hir oedd yr aelodaeth. Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, tydi'r Cyflog Terfynol ddim yn cael ei gynyddu i'w raddfa gyfatebol llawn amser.

Yn ychwanegol, gall buddion goroeswyr fod yn daladwy i briod neu bartner, gyda buddion i unrhyw blant sy'n ddibynnol hefyd yn daladwy yn amodol ar feini prawf penodol, yn seiliedig ar oedran ac os mewn addysg llawn amser.

Marw ar ôl Ymddeol


Os bydd aelod yn marw ar ôl derbyn ei bensiwn CPLIL a chyn cyrraedd 75 oed, efallai y bydd grant marwolaeth yn daladwy. Yn gyffredinol, mae'r grant marwolaeth yn hafal i 10 gwaith (neu 5 gwaith os gadawsant y CPLIL cyn 1 Ebrill 2008) y pensiwn llai'r swm a dalwyd eisoes. Os gadawodd yr aelod ar ôl 31/03/2014 yna bydd swm y lwmp swm ychwanegol a gafodd yr aelod ar ymddeoliad o ganlyniad i ildio pensiwn am lwmp swm hefyd yn cael ei ddidynnu o'r swm taladwy.

Fel gyda marwolaeth mewn gwasanaeth, mae pensiynau priod a phartner yn daladwy am oes tra bod pensiynau i blant cymwys yn daladwy o dan yr un amodau fel Marw mewn Gwasanaeth.

6. Buddsoddiadau

6.1 Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd mewn sefyllfa gymharol iach gyda gwerth y gronfa wedi cynyddu yn raddol ers peth amser bellach ac erbyn y 31^{ain} o Fawrth 2025 mae gwerth y Gronfa Bensiwn wedi sefydlogi ar £3.2 biliwn.



Dyraniad Asedau

Prif benderfyniadau perfformiad hirdymor y Gronfa ydi dyraniad strategol yr asedau. Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniad meincnod y Gronfa fel ar 31.03.25 yn erbyn ei ddyraniad asedau strategol.

Math o ased	Gwir %	Targed %	Gwahaniaeth %
Ecwiti DU	9.2	8.0	+1.2
Ecwiti Byd-Eang	42.5	34.5	+8.0
Ecwiti Marchnadoedd Datblygol	2.0	2.5	-0.5
Ecwiti Preifat	5.1	5.0	+0.1
Cyfanswm Twf	58.8	50.0	+8.8
Eiddo	5.6	10.0	-4.4
Isadeiledd	5.8	7.5	-1.7
Credyd Aml- Ased	7.5	7.5	0.0
Credyd Preifat	1.6	5.0	-3.4
Cyfanswm Incwm	20.5	30.0	-9.5
Bond Dychweliad Absoliwt	12.5	12.5	0.0
Bondiau Corfforaethol	7.2	7.5	-0.3
Cyfanswm Amddiffyn	19.7	20.0	-0.3
Arian	1.0	0.0	+1.0
Cyfanswm	100.0	100.0	+0.0

Diweddarwyd dyraniadau strategol targed y Gronfa ddiwedd 2023 yn dilyn gwelliant yn y sefyllfa ariannu. Cytunwyd yn y Pwyllgor Pensiynau i leihau risg y Gronfa drwy leihau ei ddyraniad ecwiti a buddsoddi mewn asedau sy'n cynhyrchu incwm. Mae hyn wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn a bydd buddsoddiadau mewn isadeiledd a chredyd preifat yn cynyddu ymhellach wrth i gyfalaf gael ei alw. Mae'r Gronfa dan bwysau i eiddo wrth i ni aros am lansiad cronfeydd eiddo PPC.

Buddsoddiadau fesul rheolwr buddsoddi

Dros gyfnod yr adroddiad hwn, roedd 3 Rheolwr Buddsoddi fel a ganlyn: Partneriaeth Pensiwn Cymru, BlackRock a Partners. Mae'r gronfa hefyd wedi gwneud buddsoddiadau uniongyrchol eiddo gyda chronfeydd Lothbury, Threadneedle ac UBS.

Rheolwr	Cronfa	Dosbarth Ased	31 Mawrth 2024 £000	31 Mawrth 2025 £000
Wedi pŵlio				
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Global Opportunities	Ecwiti Byd- Eang	434,566	460,613
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Global Growth	Ecwiti Byd- Eang	415,429	418,895
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Emerging Markets	Ecwiti Byd- Eang	59,884	63,023
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Sustainable Active Equity	Ecwiti Byd- Eang	317,063	317,658
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Absolute Return Bond	Bondiau	412,216	403,247
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Multi Asset Credit	Credyd Aml Ased	226,013	241,859
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Global Credit	Bondiau	223,004	233,417
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Russell Investments Global Private Credit	Credyd Preifat	10,235	50,748
Partneriaeth Pensiwn Cymru	GCM WPP Global Infrastructure	Isadeiledd	3,621	8,048
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Capital Dynamics CEI	Isadeiledd	2,977	4,131
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Octopus Renewables Infrastructure	Isadeiledd	9,868	35,101
Partneriaeth Pensiwn Cymru	IFM Global Infrastructure	Isadeiledd	0	60,918
Partneriaeth Pensiwn Cymru	CBRE Global Infrastrcture	Isadeiledd	0	14,683
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Schroders Capital WPP Global Private Equity I	Ecwiti Preifat	3,865	6,022
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Schroders Capital WPP Global Private Equity II	Ecwiti Preifat	0	7,165
Cyfanswm wedi pŵlio			2,118,741	2,325,528
O dan rheolaeth y pŵl				
Black Rock	Aquila Life UK Equity Index	Ecwiti DU	267,131	294,958
Black Rock	ACS World Low Carbon Equity	Ecwiti Byd- Eang	203,363	170,002
Cyfanswm o dan rheolaeth y pŵl			470,494	464,960
Heb ei bŵlio				
Black Rock	Eiddo	Eiddo	53,144	56,246
Lothbury	Eiddo	Eiddo	50,779	6,263
UBS	Eiddo Global Ast Triton	Eiddo	72,160	76,742
Threadneedle	Eiddo TPEN	Eiddo	32,217	34,116
Threadneedle	Eiddo TPUT	Eiddo	2,050	2,221
Partners	Ecwiti Preifat	Ecwiti Preifat	163,163	149,330
Partners	Isadeiledd	Isadeiledd	73,516	76,836
Cyfanswm heb ei bŵlio			447,029	401,754
Cyfanswm			3,036,264	3,192,242

Asedau o fewn y DU

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth ychwanegol am fuddsoddiadau yn y DU:

£m Gwerth asedau ar 31 Mawrth 2025	Wedi pŵlio	O dan rheolaeth y pŵl	Heb ei bŵlio	Cyfanswm
Ecwiti Rhestredig y DU	53.4	273.3	0	326.7
Bondiau Llywodraeth y DU	30.4	0	0	30.4
Isadeiledd y DU	8.7	0	10.2	18.9
Ecwiti Preifat y DU	1.8	0	13.3	15.1

6.2 Perfformiad Buddsoddi

Cyfarfodydd Chwarterol

Caiff perfformiad y Rheolwyr Buddsoddi ei fonitro'n chwarterol. Mae cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi yn cael eu cylchdroi. Bydd y Rheolwyr Buddsoddi yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Pensiynau, swyddogion perthnasol ac i ymgynghorydd y Gronfa.

Monitro Perfformiad

Tanysgrifia Gwynedd i wasanaeth mesur Pensions & Investment Research Consultants Ltd (PIRC), sy'n cyfrifo'r gyfradd enillion i Wynedd ac ar gyfer cronfeydd pensiwn eraill, ac yn darparu cymariaethau.

Targedau

Dangosir meincnodau perfformiad unigol ar gyfer y Rheolwyr Buddsoddi unigol yn y tabl isod.

Cronfa / Dosbarth Ased	Meincnod	Targed Perfformiad (% y.f.)
Global Opportunities PPC	MSCI All Country World Index	Perfformio'n well na'r mynegai +2%
Global Growth PPC	MSCI All Country World Index	Perfformio'n well na'r mynegai +2%
Emerging Markets PPC	MSCI Emerging Markets Index	Perfformio'n well na'r mynegai +1.5%
Sustainable Active Equity PPC	MSCI All Country World Index	Perfformio'n well na'r mynegai +2%
Absolute Return Bond PPC	3mth SONIA	3mth SONIA + 2%
Multi Asset Credit PPC	3mth SONIA	3mth SONIA + 4%
Global Credit PPC	Barclays Global Aggregate Credit Index	Perfformio'n well na'r mynegai
Private Credit PPC	8% y.f.	7%- 9% net IRR
Global Infrastructure PPC	8% y.f.	8%-10% net IRR
Wales Renewable Infrastructure PPC	8% y.f.	8% y.f.
Open Ended Infrastructure PPC	8% y.f.	8%-10% net IRR
Private Equity PPC	15% net IRR	15% net IRR
Black Rock Aquila Life UK Equity Index	FTSE All- Share Index	Olrhain y meincnod
Black Rock ACS World Low Carbon Equity Tracker	MSCI World Low Carbon Index	Olrhain y meincnod
Holl Eiddo	UK All Balanced Property Fund Index	Perfformio'n well na'r mynegai
Partners Private Equity	MSCI AC World (net)	MSCI AC World (net)
Partners Infrastructure	8% y.f.	8% y.f.

Gan mai buddsoddiadau uniongyrchol yr ydym wedi eu gwneud gyda Lothbury, UBS a Threadneedle, nid ydym wedi rhoi meincnod iddynt. Fodd bynnag, ar gyfer pwrpas mynegol byddwn yn eu monitro yn erbyn yr 'IPD Balanced Property Unit Trust Index'.

Perfformiad y Gronfa

	Enillion Blwyddyn	Meincnod Blwyddyn	Enillion 3 Blynedd	Meincnod 3 Blynedd	Enillion Ers Cychwyn	Meincnod Ers Cychwyn
	%	%	%	%	%	%
Cronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru						
Global Opportunities PPC	6.0	4.9	8.2	7.6	11.8	11.0
Global Growth PPC	0.9	4.9	5.0	7.6	9.0	11.0
Emerging Markets PPC	5.2	5.8	4.3	2.5	(0.9)	(0.4)
Sustainable Active Equity PPC	0.2	4.9	d/b	d/b	8.3	13.4
Absolute Return Bond PPC	7.6	7.2	5.5	6.2	4.2	4.8
Multi Asset Credit PPC	7.1	9.3	3.4	8.3	3.2	6.8
Global Credit PPC	4.7	4.8	d/b	d/b	(1.0)	(0.8)
Private Credit PPC	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b
Global Infrastructure PPC	5.1	8.0	d/b	d/b	6.3	8.0
Wales Renewable Infrastructure PPC	6.9	8.0	d/b	d/b	3.5	8.0
Open Ended Infrastructure PPC	d/b	d/b	d/b	d/b	1.4	8.0
Private Equity PPC	7.8	15.0	d/b	d/b	17.4	15.0
Cronfeydd Lleol						
Black Rock Aquila Life UK Equity Index	10.4	10.5	7.2	7.2	7.4	7.4
Black Rock ACS World Low Carbon Equity Tracker	4.4	4.6	7.6	7.4	10.4	10.1
Eiddo BlackRock	5.3	6.3	(4.9)	(3.3)	4.8	5.5
Eiddo Lothbury	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b
Eiddo Threadneedle TPEN	5.9	6.3	(2.8)	(3.3)	3.2	3.1
Eiddo Threadneedle TPUT	8.7	6.3	(2.0)	(3.3)	2.6	2.2
Eiddo UBS	6.4	6.4	(4.0)	(3.3)	2.2	3.3
Ecwiti Preifat Grŵp Partners	3.8	20.1	2.0	8.7	9.1	11.1
Isadeiledd Grŵp Partners	12.5	8.0	12.2	8.0	11.8	8.0
Y Gronfa Gyfan	5.1	6.9	4.8	5.8	7.6	7.4

Dychwelodd y Gronfa enillion cadarnhaol dros gyfnodau o 1 mlynedd, 3 blynedd ac ers cychwyn. Dychwelodd cronfa CPLIL ar gyfartaledd enillion o 3.4% ar gyfer y flwyddyn, ac felly, er na lwyddodd Cronfa Pensiwn Gwynedd i gyrraedd ei feincnod, roedd hyn yn gyffredin o fewn cronfeydd CPLIL. Mae hyn wedi bod yn bennaf oherwydd methiant rheolwyr ecwiti gweithredol i ychwanegu gwerth i'r sector CPLIL cyfan.

Derbynnir yn gyffredinol bod perfformiad buddsoddi dros gyfnod hwy o amser yn ddangosydd mwy dilys na dros flwyddyn gan y gall strategaethau buddsoddi a gynlluniwyd i ddod â pherfformiad da yn y tymor hir ddiodeff rhwystrau tymor byr o bryd i'w gilydd.

Roedd perfformiad y Gronfa dros dair blynedd y tu ôl i'r meincnod, ond roedd y perfformiad yn chwarter uchaf yr holl CPLIL ac roedd yn y 10^{fed} safle allan o holl gronfeydd CPLIL. Mae'r meincnodau a roddir yn heriol iawn ac mae'r gronfa yn perfformio'n dda o'i gymharu â chronfeydd CPLIL eraill. Roedd y gronfa yn y 5^{ed} safle (dychweliadau 5 mlynedd) a 7^{fed} safle (dychweliadau 10 mlynedd) ac felly mae'r strategaeth ddiweddar wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar sefyllfa'r Gronfa ac mae'r canlyniadau tymor hir yn parhau ymhell o flaen chwyddiant a rhagdybiaethau actiwaraidd y gronfa.

6.3 Trefniadau Gweinyddol a Chadw

Cyngor Arbenigol

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gorfodi'r Cyngor i sicrhau cyngor arbenigol ar fuddsoddi. Darperir y cyngor hwn gan ymgynghorydd annibynnol o gwmni Hymans Robertson (ymgynghorwyr y Gronfa) sy'n ymuno â'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn monitro'r Rheolwyr Buddsoddi. Bydd ymgynghorydd o Hymans Robertson yn bresennol ym mhob cyfarfod chwarterol gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Ceidwaid

Mae gan rai o'r rheolwyr buddsoddi geidwaid cysylltiedig sy'n dal asedau eu rhan nhw o'r portffolio. Mae'r rheolwyr a'u ceidwaid cysylltiedig fel a ganlyn:

- Ceidwad BlackRock yw Banc JP Morgan Chase
- Ceidwad PPC yw Northern Trust

Mae'r tri cwmni yr ydym wedi gwneud buddsoddiad uniongyrchol â hwy, Lothbury, Threadneedle ac UBS, yn defnyddio Northern Trust fel eu ceidwad hwy.

Nid yw Partners Group yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau cadw'r Gronfa.

Trefniadau Gweinyddol

Mae trefniadau gweinyddol yn sicrhau bod y trosglwyddiadau hynny sydd yn digwydd, rhwng y Cyngor a'r Rheolwyr Buddsoddi, yn gorfod cael eu hawdurdodi gan lofnodion dau o'r swyddogion a enwir ar restr llofnodion awdurdodedig y Gronfa Bensiwn.

6.4 Pwerau Buddsoddi

Pwerau Buddsoddi

Mae'r rheoliadau yn mynnu bod gan y Gronfa Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi (DSB).

Mae'n galluogi cronfeydd pensiwn i gael hyblygrwydd wrth osod eu strategaethau ac yn rhoi'r gallu i fuddsoddi canran uwch o'u cronfa mewn trefniadau pŵlio unigol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol yn y ddeddfwriaeth ac felly nid oes angen codi'r symiau yn ffurfiol. Er hynny, mae'n ymarfer da i gael cyfyngiadau llydan ac mae'r rheini wedi cael eu cynnwys yn y DSB.

6.5 Rheoli Buddsoddiadau

Cyffredinol

Prif nod polisi buddsoddi yw uchafu'r enillion ar yr arian dan ofal y Cyngor, yn gyson â lefel dderbyniol o risg, gyda'r enillion yn y tymor hir i fod yn fwy na chwyddiant cyflogau. Rhaid cadw mewn cof mai yn y tymor hir iawn y mae ymrwymadau'r Gronfa (sef pensiynau), gan ymestyn hyd at ganol y ganrif. Bydd yr ymrwymadau hyn yn codi gyda chwyddiant, oherwydd cyswllt pensiynau i'r mynegai chwyddiant ac hefyd oherwydd codiadau yng nghyflogau gweithwyr hyd at eu hoedran ymddeol. Mae perthynas rhwng lefelau'r enillion a dderbynnir a'r gyfradd cyfraniadau y disgwylir i gyflogwyr ei dalu. Mae'r Pwyllgor Pensiynau yn ystyried bod yr enillion tymor hir o gyfranddaliadau yn mynd i fod yn fwy na'r enillion ar fondiau, felly oherwydd hyn buddsoddir y rhan fwyaf o'r Gronfa mewn ecwiti.

Cyfarwyddyd Rheolwyr Buddsoddi

Oherwydd polisi pendant i sicrhau amrywiaeth yn yr asedau ac yn y dull o fuddsoddi, mae'r Rheolwyr Buddsoddi yn derbyn gwahanol gyfarwyddiadau:

Rheolwr Buddsoddi	Cyfarwyddyd
BlackRock	Goddefol
PPC	Gweithredol
Partners	Gweithredol

Cyfarwyddyd BlackRock yw bod yn rheolwyr "goddefol". Byddant yn dyrannu asedau yn unol â'u

meincnod ac ym mhob marchnad byddant yn olrhain mynegair farchnad stoc. O ganlyniad, dylai eu perfformiad olrhain eu meincnod unigol. Mae apwyntio rheolwr goddefol yn lleihau'r risg o danberfformiad yn unol â'r meincnod, ond hefyd yn lleihau'r siawns o or-berfformiad cymharol i'r meincnod.

Briff "gweithredol" sydd gan yr holl reolwyr eraill. Mae ganddynt ddisgresiwn i fuddsoddi yn eu syniadau buddsoddi gorau. Tra bod ganddynt hyblygrwydd o ran pa stociau, rhanbarthau a sectorau i fuddsoddi ynddynt, mae nifer o gyfyngiadau mewn lle i rwystro'r rheolwyr rhag gwro yn rhy bell oddi wrth eu meincnod a chymryd gormod o risg. Mae apwyntio rheolwr gweithredol yn cynyddu'r siawns o or-berfformiad yn erbyn y meincnod, ond hefyd yn cynyddu'r risg o danberfformiad yn erbyn y meincnod.

6.6 Partneriaeth Pensiwn Cymru

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 gyda'r nod o gyflawni:

- arbedion oherwydd maint
- llywodraethu a phenderfyniadau cryf
- costau is a gwerth rhagorol am arian, a
- gwell cynhwysedd a gallu i fuddsoddi mewn isadeiledd


Mae PPC yn un o'r wyth pŵl Pensiwn Llywodraeth Leol cenedlaethol ac mae'n gydweithrediad o'r wyth cronfa CPLIL yng Nghymru. Mae gan yr wyth cronfa hanes hir, llwyddiannus o gydweithio gan gynnwys tendr cydweithredol ar gyfer un darparwr ecwiti goddefol ar gyfer cronfeydd Cymru cyn menter gyfuno'r Llywodraeth.

Mae rheoli buddsoddiadau wedi'i bŵlio yn cynnig y potensial ar gyfer arbedion ffioedd buddsoddi, cyfleoedd i ehangu portffolios buddsoddi, gweithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu gwell ynghyd â mynediad at wybodaeth a rennir ac ymarfer gorau. Er bod PPC yn gyfrifol am ddarparu atebion buddsoddi cydweithredol, mae pob awdurdod cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am osod ei strategaeth fuddsoddi ei hun.

Dyluniwyd model gweithredu PPC i fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian. Penododd PPC Weithredwr cronfa allanol ac mae'n defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn ddod â'r arbenigedd gorau i gefnogi'r gwaith o redeg y Pŵl. Y Gweithredwr yw Waystone Management (UK) Limited (Waystone) ac maent mewn partneriaeth gyda Russell Investments i ddarparu atebion rheoli buddsoddi effeithiol a darparu perfformiad net o ffi cryf ar gyfer yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.

Llywodraethu

Mae PPC yn manylu ar sut mae'n delio â phob agwedd ar Lywodraethu trwy ei Chytundeb Rhwng Awdurdodau (CRhA) a gymeradwywyd gan bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol ym mis Mawrth 2017. Mae'r CRhA yn diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ei Aelodau, Pwyllgorau a Swyddogion ac mae'n cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses benderfynu. Yn unol â'i gred y dylai llywodraethu da arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid, mae PPC wedi sefydlu strwythur llywodraethu cadarn:



Yr wyth Awdurdod Cyfansoddol o'r PPC yw:

- Cyngor Sir Caerfyrddin (Awdurdod Lletya)
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Mae'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eistedd ar frig strwythur llywodraethu PPC. Maent yn cadw rheolaeth ar yr holl weithgareddau a wneir gan PPC ac yn parhau i fod yn gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Busnes PPC, sy'n amlinellu cyllideb a chynllun gwaith PPC, yn ogystal â'i Gredodau a'r Amcanion.

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu (CBLI) yn goruchwyllo ac yn adrodd ar PPC ac mae'n cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol a chynrychiolydd aelodau o'r cynllun (heb bleidlais).

Mae'r Gweithgor Swyddogion (GS) yn darparu cefnogaeth a chynghor i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ac mae'n cynnwys swyddogion a Swyddogion Adran ISI o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Lletya ar gyfer PPC ac mae'n gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weinyddol ac ysgrifenyddol i'r CBLI a'r GS, a chysylltu o ddydd i ddydd gyda'r Gweithredwr ar ran yr holl gronfeydd CPLIL yng Nghymru.

Mae Waystone (Gweithredwr) yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer PPC, sy'n cynnwys hwyluso cerbydau buddsoddi ac is-gronfeydd, adrodd ar berfformiad, gweithredu trosglwyddiadau, monitro rheolwyr a thrafodaethau ffioedd. Mae Cytundeb Gweithredwr ar waith sy'n amlinellu dyletswyddau cytundebol y Gweithredwr ac yn llywodraethu'r berthynas rhwng y Gweithredwr a PPC. Mae'r CBLI a'r GS, gyda chefnogaeth Hymans Robertson, yn goruchwyllo'r gwaith y mae Waystone yn ei wneud ar ran PPC. Mae Waystone yn ymgysylltu â'r Awdurdodau Cyfansoddol trwy:

- Ymgysylltu uniongyrchol- mynychu un cyfarfod pwyllgor yn flynyddol
- Ymgysylltu anuniongyrchol- gyda'r holl Awdurdodau Cyfansoddol trwy'r CBLI a GS

Mewn cydweithrediad â Waystone, mae Russell Investments yn darparu gwasanaethau atebion rheoli buddsoddi i PPC ac maent yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol PPC i sefydlu cerbydau buddsoddi.


Northern Trust yw'r Ceidwad ar gyfer cerbyd ACS PPC ac mae'n darparu nifer o wasanaethau gan gynnwys benthyca stoc, gweinyddu cronfeydd, monitro cydymffurfiaeth ac adrodd.

Hymans Robertson yw Ymgynghorwyr Goruchwyllo PPC ac mae eu rôl yn cynnwys goruchwyliaeth a chynghor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau.

Burges Salmon yw ymgynghorwyr cyfreithiol PPC ac mae nhw'n darparu cynghor cyfreithiol mewn perthynas â chronfeydd a reoleiddir gan yr FCA, trefniadau treth a llywodraethu, gan gynnwys cynorthwyo gyda phrosesau caffael cymhleth.

Penodwyd Robeco UK fel darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu PPC ac maent yn gyfrifol am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio PPC ac ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu ar ran PPC.

Credoau PPC yw sylfaen fframwaith llywodraethu PPC ac fe'u defnyddiwyd i arwain holl weithgareddau a phenderfyniadau PPC, gan gynnwys ei amcanion a'i pholisïau. Mae PPC, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol, wedi datblygu set o bolisïau llywodraethu. Ymhob achos, mae polisïau a gweithdrefnau PPC wedi'u datblygu i gyflenwi neu ategu gweithdrefnau a pholisïau presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Rhestrir polisïau, cofrestrau a chynlluniau allweddol PPC isod ac maent i'w gweld ar wefan PPC.



Mae Buddsoddi Cyfrifol wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i PPC ers ei sefydlu yn 2017. Ymgwymerwyd â nifer o weithgareddau i weithio tuag at uchelgais PPC o ddod yn arweinydd mewn Buddsoddi Cyfrifol. I ddechrau, canolbwyntiwyd ar lunio Polisi Buddsoddi Cyfrifol ac ers hynny mae PPC wedi llunio ei Pholisi Risg Hinsawdd ei hun ac wedi gweithio gyda'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Robeco, i gytuno ar Bolisi Pleidleisio. Mae Is-Grŵp Buddsoddi Cyfrifol PPC wedi'i sefydlu i gymryd perchnogaeth

o lifoedd gwaith a chamau sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol a'r camau sy'n ofynnol i gyflawni'r ymrwymadau a wnaed ym Mholisiau Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd PPC.

Gellir gweld Cynllun Busnes PPC, Llawlyfr Llywodraethu a'r holl bolisiau eraill y manylir arnynt yn y siart uchod ar wefan PPC:

<https://www.partneriaethpensiwnmru.org/>

Risg

Mae rheoli risg yn elfen hanfodol o ymrwymiad PPC i lywodraethu da. Mae PPC wedi datblygu strategaeth risg strwythuredig, helaeth a chadarn sy'n ceisio nodi a mesur risgiau allweddol a sicrhau bod rheolaethau a gweithdrefnau llywodraethu addas ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae Polisi Risg PPC wedi cael ei ddatblygu yn y fath fodd fel y gellir rhagweld ac ymdrin â risgiau mewn modd cyflym ac effeithiol i leihau colled neu niwed posibl i PPC a'i rhanddeiliaid.

Mae PPC yn cynnal Cofrestr Risg sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Is-Grŵp Risg pwrpasol sy'n adrodd yn ôl i'r GS a'r CBLI bob chwarter.

Hyfforddiant

Mae gan PPC ei pholisi hyfforddi ei hun ac mae'n datblygu cynllun hyfforddi blynyddol sydd wedi'i gynllunio i ategu cynlluniau hyfforddi presennol yr Awdurdod Cyfansoddol. Bydd Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i ddiwallu anghenion hyfforddi ar lefel leol tra bydd cynllun hyfforddi PPC yn cynnig hyfforddiant sy'n berthnasol i weithgareddau cronni PPC. Bydd hyfforddiant anwytho yn cael ei ddarparu i holl aelodau newydd y CBLI.

Cynnydd pŵlio hyd yn hyn

Mae PPC yn ceisio darparu opsiynau buddsoddi sydd yn galluogi Awdurdodau Cyfansoddol i weithredu strategaethau buddsoddi gyda arbedion costau materol tra yn parhau i ddarparu buddsoddiadau sydd yn perfformio i'r rhanddeiliaid. Mae gan PPC nifer o is-gronfeydd ecwiti ac incwm sefydlog, yn ogystal a nifer o rhaglenni buddsoddi marchnadoedd preifat. Ochr yn ochr â buddsoddiadau goddefol presennol yr Awdurdodau Cyfansoddol, mae hyn yn golygu bod gan PPC bellach 75% o'r asedau dan reolaeth y pŵl.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan PPC asedau gwerth £25.8bn, ble mae £19.4bn o fewn y pŵl, gweler y manylion isod:

Cronfa	Rheolir gan	Dyddiad lawnsio	31 Mawrth 2025 £000	%
Global Growth Equity	Russell Investments	Chwefror 2019	3,541,082	13.7
Global Opportunities Equity	Russell Investments	Chwefror 2019	3,402,307	13.2
UK Opportunities Equity	Russell Investments	Medi 2019	765,495	3.0
Emerging Markets Equity	Russell Investments	Hydref 2021	272,996	1.0
Sustainable Active Equity	Russell Investments	Mehefin 2023	1,524,322	5.9
Global Credit	Russell Investments	Gorffennaf 2020	1,026,469	4.0

Global Government Bond	Russell Investments	Gorffennaf 2020	503,406	2.0
UK Credit	Waystone Management (UK) Limited	Gorffennaf 2020	726,549	2.8
Multi-Asset Credit	Russell Investments	Gorffennaf 2020	848,802	3.3
Absolute Return Bond	Russell Investments	Medi 2020	532,806	2.1
Isadeiledd	GCM Grosvenor, IFM, CBRE, Octopus, Capital Dynamics	Amrywiol	726,427	2.8
Credyd Preifat	Russell Investments	Ebrill 2023	320,921	1.2
Ecwiti Preifat	Schroders Capital	Hydref 2023	124,883	0.5
Buddsoddiadau Goddefol	BlackRock	Mawrth 2016	5,065,251	19.6
Buddsoddiadau heb eu pŵlio			6,424,700	24.9
Cyfanswm Buddsoddiadau ar draws yr 8 Cronfa Bensiwn			25,806,416	100

Mae rhaniad yr asedau rhwng Cronfa Bensiwn Gwynedd a PPC fel a ganlyn:

Cronfa	31 Mawrth 2025 £000	%
Global Opportunities	460,613	14.4
Global Growth	418,895	13.1
Emerging Markets	63,023	2.0
Sustainable Active Equity	317,658	9.9
Global Credit	233,417	7.3
Multi Asset Credit	241,859	7.6
Absolute Return Bond	403,247	12.6
Marchnadoedd Preifat	186,816	5.9
Ecwiti Goddefol	464,960	14.6
Buddsoddiadau heb eu pŵlio	401,755	12.6
Cyfanswm Asedau Buddsoddi	3,192,243	100

Mae'r tabl uchod yn darparu gwybodaeth ychwanegol i nodyn 14 yn natganiad o'r cyfrifon ac yn crynhoi buddsoddiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd yn PPC a'r buddsoddiadau o fewn rheolaeth uniongyrchol y Gronfa. Yn ystod y flwyddyn cafodd asedau eu trosglwyddo ac mae'r tabl uchod yn dangos yr asedau a reolir ar hyn o bryd gan y pŵl ar yr 31^{ain} o Fawrth 2025.

Costau pŵlio

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, fel Awdurdod Lletya ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth gweinyddol ac ysgrifenyddol a chysylltu o ddydd i ddydd gyda'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd CPLIL yng Nghymru. Mae cyllideb PPC yn cael ei gynnwys yng Nghynllun Busnes PPC ac yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol.

Mae costau'r Awdurdod Lletya ac Ymgynghorwyr Allanol (y costau rhedeg) yn cael eu hariannu'n hafal (oni bai bod prosiect penodol wedi ei gytuno ar gyfer Cronfa unigol) gan yr wyth Awdurdod Cyfansoddol ac yn cael eu had-dalu yn flynyddol. Y swm a dalwyd gan Cronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn yn gorffen ar y 31^{ain} o Fawrth 2025 oedd £241k ac mae hyn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 12d yn y datganiad o'r cyfrifon.

Yn ychwanegol i gostau rhedeg, mae hefyd costau trosglwyddo sydd yn ymwneud â throsglwyddo asedau i fewn i'r pŵl, mae'r costau yma yn gallu bod yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae costau uniongyrchol yn cynnwys apwyntio rheolwr trosglwyddo i ymgymryd â'r trosglwyddiad, ynghyd â goruchwyllo y broses drwy safbwynt ymchwilio ac adlewyrchu. Mae costau anuniongyrchol yn cynnwys costau eglur ac aneglur megis comisiwn, lledaeniad ac effaith, a cost cyfle sef diffyg gweithredu. Mae costau trosglwyddo yn gallu cael eu priodoli'n uniongyrchol i'r ased sydd yn cael ei drosglwyddo ac felly yn cael eu tynnu o'r gwerth ased net yn lle cost uniongyrchol i'r Gronfa.

Costau Rheoli Buddsoddiadau

Mae'r tabl isod yn dangos costau rheolwyr buddsoddi wedi eu rhannu rhwng y rhai gan PPC (yn cynnwys ecwitiâu goddefol) a'r rhai tu allan i PPC ar gyfer 2024/25.

		Uniongyrchol	Anuniongyrchol	Cyfanswm
		£000	£000	£000
Ffioedd Rheoli	Asedau'r Pŵl	5,624	4,125	9,749
	Asedau tu allan i'r Pŵl	8,608	455	9,063
Costau Trafodion	Asedau'r Pŵl	1,175	0	1,175
	Asedau tu allan i'r Pŵl	0	2,705	2,705
Costau Cadwraeth	Asedau'r Pŵl	331	0	331
	Asedau tu allan i'r Pŵl	0	0	0
Cyfanswm Cronfa Gyfan		15,738	7,285	23,023

Amcanion 2025/26

Mae PPC yn parhau i ddatblygu ei ddewisiadau marchnadoedd preifat gyda'r rhaglen Eiddo Buddsoddi a disgwylir iddo lawnsio yn 2025/26. Drwy'r rhaglen Marchnadoedd Preifat, mae PPC wedi gallu hwyluso buddsoddiadau mewn cyfleoedd buddsoddi lleol yng Nghymru ac mae'n awyddus i ddatblygu hyn ymhellach.

Yn Nhachwedd 2024, roedd y PPC yn falch iawn o dderbyn y wobwr arloesedd ESG yn seremoni Gwobrau Buddsoddi LGC. Mae'r wobwr hon yn adlewyrchu pwysigrwydd hanfodol y mae PPC ac ei awdurdodau cyfansoddol yn parhau i osod ar faterion cynaliadwyedd ac yn cydnabod llwyddiant y *Sustainable Active Equity Fund*, sydd wedi tyfu i ddod yn un o'r cronfeydd buddsoddi cynaliadwy mwyaf o'i fath yn y DU. Mae'r maes hwn yn parhau i fod yn ffocws i PPC, gyda gwaith pellach yn mynd rhagddo i wella nodweddion cynaliadwyedd buddsoddiadau presennol, ac ystyried sut i wneud y cronfeydd goddefol a incwm sefydlog yn fwy cynaliadwy.

Yn ystod 2024/25, cyflwynodd PPC ei bedwerydd Adroddiad Stiwardiaeth blynyddol a llwyddodd i gadw ei statws llofnodwr i Gôd Stiwardiaeth y DU. Mae' PPC hefyd wedi cwblhau ei adroddiad hinsawdd blynyddol cyntaf ar lefel pŵl, yn ogystal a diweddarau'r dadansoddiad o amlygiad datgoedwigo o fewn ei is- gronfeydd ecwiti rhestredig. Yn 2025/26, bydd PPC yn cyhoeddi ei Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan nesaf.

Mae PPC wedi gwneud nifer o ailbenodiadau yn ystod 2024/25, gan gynnwys Waystone fel y gweithredwr, Hymans Robertson fel yr Ymgynghorwyr Goruchwylio a Robeco fel y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu. Mae Russell Investments yn parhau fel Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau. Roedd pob penodiad yn dilyn ymarferion caffael cynhwysfawr. Mae contract darparwr Gwasanaeth Cyfreithiol presennol PPC yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025 ac mae gwaith ar y gweill gyda'r broses ail-dendro y contract hon.

Lansiodd y Llywodraeth ei Ymgynghoriad Addas ar gyfer y Dyfodol Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol ar 14^{eg} o Dachwedd 2024, gan amlinellu ystod o gynigion i gryfhau'r broses o reoli buddsoddiadau CPLIL. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnodd y Llywodraeth i bob cronfa ystyried a darparu cyflwyniadau i ddangos llwybr clir i fodloni'r gofynion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori. Cymeradwywyd cynnig achos busnes PPC gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu PPC ar y 12^{fed} o Fawrth 2025 a'i gyflwyno i'r Llywodraeth. Mae'r cynnig hwn yn nodi'r achos busnes cymhellol i PPC gadw cronfa fuddsoddi annibynnol ar gyfer Cymru a bwrw ymlaen â llunio gofynion newydd arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer y model gweithredu cronfa. Rydym yn falch iawn bod y Llywodraeth wedi cymeradwyo achos busnes PPC ac mae gwaith bellach ar y gweill i gyflawni, o fewn yr amserlen angenrheidiol.

Benthyca Stoc

Dechreuwyd benthyca stoc ym mis Mawrth 2020. Rhennir y refeniw ar sail 85:15 rhwng PPC a Northern Trust gyda'r holl gostau ar gyfer rhedeg y rhaglen benthyca gwarantau yn dod o gyfran Northern Trust o'r rhaniad ffioedd. Mae lleiafswm o 5% o swm nominal pob daliad ecwiti unigol yn cael ei ddal yn ôl ac mae uchafswm o 25% o gyfanswm AUM ar fenthyg ar unrhyw un adeg. Cyfanswm refeniw yn ystod 2024/25 oedd £987,820 (gros) / £839,712 (net) gyda £382,587,801 allan ar fenthyg ar yr 31^{ain} o Fawrth 2025.

Gellir dod o hyd i wybodaeth pellach yn Adroddiad Blynyddol PPC sydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan PPC [Cronfa Pensiwn Cymru | Cartref \(partneriaethpensiwn.cymru.org\)](https://www.ppc.org.uk/partneriaethpensiwn)

6.7 Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa'n cydnabod y gall materion llywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol ('ESG') gynrychioli risg ariannol sylweddol i'w rhanddeiliaid a dylanwadu ar elw ac enw da hirdymor y Gronfa. O ystyried hyn, nod y Pwyllgor yw bod yn ymwybodol o ffactorau ESG sy'n berthnasol yn ariannol, a'u monitro, ac mae wedi cytuno ar y set ganlynol o greddau buddsoddi mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol:

- Yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Pwyllgor, dylai ystyriaethau ariannol fod â mwy o bwysau nag ystyriaethau anariannol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, er y gall materion ESG effeithio'n sylweddol ar risg ac adenillon. Felly, dylai ffactorau ESG gael eu gwreiddio ym mhrosesau buddsoddi ac ym mhrosesau penderfynu rheolwyr asedau a benodir gan y Gronfa / Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Bydd Pwyllgor y Gronfa yn ceisio buddsoddi mewn asedau cynaliadwy, gan gynnwys buddsoddi o fewn ardal yng Nghymru pan all buddsoddiadau anariannol ddeillio o hyn, ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion y ddyletswydd ymddiriedol.
- Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod ganddo ddyletswydd i fod yn fuddsoddwr cyfrifol. Disgwylir y bydd ymgynghori â chwmnïau, yn hytrach nag osgoi buddsoddi, yn fwy effeithiol o ran newid ymddygiad corfforaethol a lleihau risg. Lle bynnag y bo'n bosibl, gweithredu ar y cyd (fel yr hyn a gymerir drwy aelodaeth Fforwm Cronfeydd Pensiwn Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac a gomisiynwyd gan Robeco ochr yn ochr â phartneriaid PPC) yw'r llwybr mwyaf llwyddiannus i ddylanwadu ar allbynnau.

- Fel buddsoddwr hirdymor, mae'r Gronfa yn agored i risgiau systemig megis newid yn yr hinsawdd a'r disgwyliad o drosglwyddo i economi carbon isel. Gellir gwella canlyniadau ariannol drwy reoli pa mor agored i risgiau o'r fath yw'r Gronfa.
- Gellir gwella dealltwriaeth a chanlyniadau cyfranddalwyr trwy ddarparu tryloywder ar bob cam o'r gadwyn ychwanegu gwerth.
- Mae hyfforddiant ac addysg yn debygol o fod yn elfen allweddol wrth ddatblygu'r Gronfa a safbwynt y Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â'r ESG.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod asedau'r Gronfa'n cael eu buddsoddi'n fyd-eang ac ar draws llawer o sectorau, sy'n golygu bod lleihau allyriadau carbon y Gronfa yn fwy heriol nag y byddai i sefydliad unigol. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2022 ymrwymodd y Pwyllgor i osod nod i'r Gronfa fod yn sero net erbyn 2050, wedi'i gefnogi gan ymrwymiad i asesu dichonoldeb y Gronfa i gyrraedd sero **net 5,10 neu 20 mlynedd ynghynt**.

Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig i gronfeydd CPLIL chwarae rhan arweiniol wrth lunio'r dyfodol, o ran cefnogi'r newid i economi carbon isel a chyflawni nodau ESG ehangach. Mae'r Pwyllgor yn gallu dylanwadu mewn dwy ffordd: drwy'r penderfyniadau buddsoddi y mae'n eu gwneud; a thrwy ymgysylltu'n barhaus â'r cwmnïau a'r prosiectau y mae'r Gronfa'n buddsoddi ynddynt. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn briodol gosod nod realistig tra hefyd yn edrych ar ddichonoldeb cyflawni nod mwy uchelgeisiol.

Ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cyflawni'r gostyngiad yn allyriadau carbon y Gronfa mewn modd pwyllog. Rhaid i'r Gronfa ganolbwyntio o hyd ar ei phrif rwymedigaeth i dalu buddion i'w haelodau, gan gynnwys ystyried unrhyw risgiau cysylltiedig. Mae dull pwyllog yn galluogi'r Gronfa i ddal cyfleoedd buddsoddi sy'n deillio o'r newid i economi carbon isel, yn ogystal â lliniaru'r risgiau. At hynny, mae dull pwyllog yn cefnogi stiwardiaeth weithredol, gan roi mwy o amser a mwy o le i'r Pwyllgor roi newid ar waith a chyflawni trawsnewidiad cyfiawn trwy ymgysylltu parhaus.

Fel blaenoriaeth yn 2025/26 bydd y Gronfa yn ailasesu ei huchelgais sero net a'i pholisi buddsoddi cyfrifol.

7. Rheolaeth a Pherfformiad Ariannol

7.1 Rheoli Risg

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd rheoli risg effeithiol. Rheoli risg yw'r broses ble mae'r Gronfa yn adnabod a delio gyda'r risgiau sydd yn gysylltiedig gyda'r gweithgareddau.

Ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, daw'r risgiau o nifer o ffynonellau gan gynnwys strategaeth buddsoddi tymor hir, sefyllfa cyllido, perfformiad buddsoddi, gweinyddiaeth cynllun, newid aelodaeth, systemau ariannol a chyfathrebu.

Mae'r dogfennau canlynol yn egluro'r prif risgiau yma ac yn dangos sut y maent yn cael eu hadnabod, osgoi, rheoli ac adolygu:

- Cofrestr Risg
- Datganiad Strategaeth Buddsoddi
- Datganiad Strategaeth Cyllido
- Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd- cyfeirio at risgiau offerynnau ariannol

Mae cyngor arbenigol yn cael ei ddarparu gan Hymans Robertson, ein hymgynghorwyr, ac mae'r Pwyllgor Pensiynau yn cyfarfod i adolygu perfformiad ein rheolwyr buddsoddi bob chwarter.

Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn. Mae risgiau yn cael eu hasesu yn nhermau eu heffaith bosibl a'u tebygolrwydd o ddigwydd.

Gellir gweld crynodeb o risgiau mwyaf arwyddocaol y Gronfa yn y tabl canlynol:

Risg	Rheolaethau Lliniaru
Cyllido a Buddsoddiadau	
Aelodau'r Pwyllgor a'r Swyddogion Buddsoddi yn gwneud penderfyniadau amhriodol o ganlyniad i wybodaeth annigonol o farchnadoedd a buddsoddi a chyngor actiwariaid annigonol sy'n arwain at: • Perfformiad gwael y Gronfa. • Colled ariannol. • Cyfraniadau cyflogwr uwch.	• Mae Strategaeth Buddsoddi'r Gronfa wedi ei osod yn unol â rheoliadau buddsoddi Pensiwn Llywodraeth Leol. • Mae'r Strategaeth Ariannu yn cymryd ymrwymïadau'r Gronfa i ystyriaeth. • Mae'r Strategaethau yn cael ei cymeradwyo a'i adolygu gan y Pwyllgor Pensiynau. • Mae'r Gronfa yn defnyddio ymgynghorydd buddsoddi allanol sy'n rhoi arweiniad arbenigol i'r Panel Buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiynau ynghylch y penderfyniadau buddsoddi. • Mae Aelodau a Swyddogion yn cael eu hannog i herio'r arweiniad a dderbynnir. • Mae Aelodau a Swyddogion yn derbyn hyfforddiant perthnasol ac amserol.
Asedau'r Gronfa yn annigonol i gwrdd ag ymrwymïadau tymor hir. Strategaeth fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn yn methu cyflawni y dychweliadau gofynnol.	• Mae'r prisiant bob tair blynedd yn darparu arwyddion cyfnodol o'r twf mewn asedau yn erbyn ymrwymïadau. Mae cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn cael eu gosod yn ddarbodus mewn ymateb i'r angen. • Dangosodd prisiant 2022 bod darpariaeth ariannu o 120% yng Nghronfa Gwynedd. Er hynny, mae'r Gronfa yn parhau i ddefnyddio rhagdybiaethau darbodus ar gyfer y prisiad.

	- Mae asedau'r Gronfa wedi eu buddsoddi ar draws ystod eang o wahanol fathau o asedau a chwmnïau rheoli buddsoddiadau er mwyn lleihau effaith colledion posib mewn marchnadoedd a rheolwyr asedau unigol. - Yn sgil Prisiad 2022, mae'r Pwyllgor wedi ail-ddyrannu asedau i fathau o asedau risg is. - Mae meincnodau penodol addas yn cael eu gosod. - Mae asedau'r Gronfa yn cael eu hadolygu'n rheolaidd fel rhan o'r broses rheoli perfformiad y Gronfa. - Mae rheolwyr buddsoddi y Gronfa yn cael eu gwirio yn drylwyr cyn eu penodi ac adolygir perfformiad yn rheolaidd yn erbyn y meincnod ac amcanion perfformiad y Panel Buddsoddi. - Mae'r Gronfa/ PPC yn newid rheolwyr buddsoddi sy'n tanberfformio.
Risg y Farchnad - Cwmp yn y farchnad yn arwain at fethiant i leihau'r diffyg, sy'n golygu: - Colled ariannol - Cynnydd mewn cos tau cyfraniad y cyflogwr	- Mae asedau'r Gronfa yn cael ei fuddsoddi ar draws ystod eang o ddosbarthiadau ased i liniaru effaith perfformiad gwael mewn segment marchnad unigol. - Mae trefniadau perfformiad buddsoddi a monitro yn bodoli sy'n darparu swyddogion buddsoddi gyda'r hyblygrwydd i ail gydbwyso'r portffolio mewn modd amserol petai'r angen yn codi. - Mae natur hir dymor yr ymrwymïadau'n liniaru'r risg yn sylweddol.
Mae'r Gronfa yn methu ystyried newid hinsawdd a ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn ddigonol.	- Mae gan y Gronfa bolisi Buddsoddi Cyfrifol yn weithredol a targed sero net o 2050 wedi ei osod. - Fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru mae nifer o gamau gweithredol yn digwydd yn cynnwys: grŵp gweithredol buddsoddi cyfrifol, darparwr ymgysylltu a pleidleisio, PPC yn lofnodwr Cod Stiwardiaeth DU. - Bydd y Panel Buddsoddi hefyd yn ymgysylltu a herio rheolwyr yn gyson ar sut maent yn ystyried y risg o newid yn yr hinsawdd a ffactorau ESG. - Mae gan y Gronfa nod i fuddsoddi mewn buddsoddiadau sydd yn gwneud gwahaniaeth yn lleol ac yn y byd ehangach.
Rôl Ceidwad	
Methiant ceidwad yn arwain at golledion sy'n golygu: - Methiant i leihau'r diffyg - Colled ariannol	- Penodwyd Ceidwad hynod ddibynadwy gydag achrediad uchel. - Mae asedau'r Gronfa yn cael eu diogelu mewn achos o ansolfedd y ceidwad. - Mae'n rhaid i'r ceidwad gadw at reoliadau ariannol FCA a TPR.
Gweinyddiaeth Pensiynau	
Ymosodiad Seiber	Polisiau priodol a wal dân effeithiol,.

• Colli data sensitif. • Systemau wedi'u difrodi neu eu dinistrio. • Niwed i enw da. Colled ariannol yn deillio o gamau cyfreithiol.	• Mae'r meddalwedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gyda'r nodweddion diogelwch diweddaraf. • Mae copi wrth gefn yn cael ei wneud o'r system yn ddyddiol. • Mae angen sawl cyfrinair i gael mynediad i'r system.
Ffactorau Allanol na ellir eu Rheoli	
Gweithrediadau arferol wedi eu tarfu gan ffactorau allanol na ellir eu rheoli. Bygythiadau cyflenwi gwasanaeth oherwydd tân, bom, tywydd eithafol, namau trydanol, salwch, epidemig, pandemig ac ati. Cefnogaeth dyddiol annigonol, adfer ar ôl trychineb, a gorchudd TG i gefnogi systemau. Colli gallu dros dro i ddarparu gwasanaeth i randdeiliaid.	• Gweithio o gartref yn digwydd gyda nifer o'r staff yn gweithio'n hybrid erbyn hyn. • Cynllun Adfer ar ôl Trychineb ar gyfer system bensiynau. • Parhad Busnes / Trychineb. • Cynllun Adferiad i'r Awdurdod gyda waliau tân TG
Ymateb i 'Addas i'r Dyfodol'	
Perygl y bydd WPP IM Co yn methu â chael awdurdodiad gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) mewn pryd ar gyfer mynd yn fyw ym mis Ebrill 2026. Heb awdurdodiad FCA, ni all cwmni buddsoddi PPC weithredu'n gyfreithlon, gan achosi tarfu gweithredol mawr.	• Ymgysylltu cynnar a pharhaus gyda'r FCA. • Paratoi cais FCA a dogfennaeth cydymffurfio'n drylwyr. • Ymgysylltu â chynghorwyr rheoleiddio allanol i sicrhau bod y ceisiadau yn llawn. • Datblygu cynlluniau wrth gefn os yw oedi yn digwydd.

7.2 Datganiad Strategaeth Buddsoddi

Bu i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi ym mis Mawrth 2023 yn dilyn prisiad 2022. Mae'r strategaeth yn diffinio'r mathau o fuddsoddiadau y gall y gronfa ddefnyddio yn y tymor hir.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau penodol ar gyfer y math o fuddsoddiadau. Er hynny, mae'n ymarfer da i gael rhai terfynau eang ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn y Datganiad Strategaeth Buddsoddi. Mae copi o'r Datganiad Strategaeth Buddsoddi ar gael ar wefan y Gronfa yn:

<https://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Cronfa-Bensiwn-Gwynedd-Datganiad-Strategaeth-Buddsoddi-Mawrth-2023.pdf>

7.3 Datganiad Strategaeth Cyllido

Mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) baratoi a chyhoeddi Datganiad Strategaeth Cyllido. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn nodi'r strategaeth sy'n benodol i'r Gronfa sydd yn adnabod sut bydd ymrwymïadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cwrdd wrth symud ymlaen.

Mae buddion CPLIL wedi eu gwarantu gan statud ac felly mae'r addewid o bensiwn yn sicr. Mae'r Datganiad Strategaeth Cyllido yn cyfeirio at y ffaith bod eisiau rheoli'r angen i gyllido'r buddion yma dros y tymor hir, a hefyd ar yr un pryd hwyluso gwaith archwilio ac atebolrwydd trwy wella tryloywder a'r broses o ddatguddio. Hefyd, mae'n rhoi fframwaith statudol i awdurdodau gweinyddol CPLIL ar gyfer rheoli diffygion pensiwn tymor hir y Gronfa wrth symud ymlaen.

Adolygwyd y Datganiad Strategaeth Cyllido yn ei gyfanrwydd yn 2022/23 er mwyn adlewyrchu'r Prisiad

Actiwaraidd ar yr 31^{ain} o Fawrth 2022. Mae'n cynnwys cyfraddau cyfraniad bob cyflogwr o'r 1^{af} o Ebrill 2023 ymlaen.

Mae copi o'r Strategaeth Cyllido ar gael ar wefan y Gronfa yn :

<https://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/Gwynedd-FFS-2023-Cymraeg.pdf>

Gellir cael copïau papur o Ddatganiad Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Strategaeth Cyllido gan Delyth Jones-Thomas, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH.

7.4 Perfformiad Ariannol

Incwm

	Gwir 2023/24 £000	Gwir 2024/25 £000
Cyfraniadau Gweithwyr/ Aelodau	23,500	24,831
Cyfraniadau Cyflogwyr	70,778	76,929
Trosglwyddiadau i Mewn	8,575	9,156
Incwm Buddsoddi	47,956	65,847
Incwm Arall	3	3
Cyfanswm Incwm	150,812	176,766

Roedd cynnydd ar draws pob categori incwm ond yn benodol cynnydd mewn incwm buddsoddi. Mae'r buddsoddiadau ecwiti wedi parhau i berfformio'n gryf ac felly wedi creu incwm sylweddol, ond hefyd fel rhan o'r dyraniad asedau strategol newydd rydym wedi buddsoddi mwy yn y cronfeydd incwm sefydlog ac mae'r buddsoddiadau hyn wedi creu incwm llog sylweddol. Mae'r buddsoddiadau hyn yn dilyn patrwm cyfraddau llog ac felly mae'n rhesymol bod lefel yr incwm wedi cynyddu.

Gwariant

	Gwir 2023/24 £000	Gwir 2024/25 £000
Buddion sy'n daladwy	(82,931)	(94,520)
Taliadau i rai sy'n ymadael	(5,068)	(7,870)
Costau Rheoli	(15,042)	(18,282)
Cyfanswm Gwariant	(103,041)	(120,672)

Roedd cynnydd yn y swm o fudd-daliadau a dalwyd ar ôl i'r buddion gynyddu gyda CPI, ac roedd cynnydd mewn costau rheoli oherwydd cyflwyno gwahanol ddosbarthiadau asedau ac felly talu gwahanol ffioedd.

Asedau Net

	Gwir 2023/24 £000	Gwir 2024/25 £000
Elw a Chollledion wrth waredu buddsoddiadau a newidiadau yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad	308,051	171,473
Cynnydd/ (Lleihad) yn yr Asedau Net ar gael ar gyfer buddion yn ystod y flwyddyn	307,866	161,720

Mae gwerth buddsoddiadau ar y farchnad wedi cynyddu'n gyson yn ystod y flwyddyn gydag enillion cymedrol ar draws y dosbarthiadau asedau.

Ceir rhagor o wybodaeth yn y Datganiad o'r Cyfrifon (Adran 9).

7.5 Safon Cyfrifeg Ryngwladol 19 (SCRI9) a Safon Adrodd Ariannol 102 (SAA102)

Diffiniad o SCR19

Mae SCR19 yn diffinio sut dylid mesur asedau ac ymrwymadau cynllun pensiwn i bwrpas adrodd mewn cyfrifon ariannol, gan nodi fod rhaid datgelu unrhyw ddiffyg neu ormodedd yn llawn ar y fantolen ariannol, gydag unrhyw symudiad yn cael ei ddangos yn y cyfrif elw a cholled blynyddol. Mae SCR19 yn berthnasol i gyrff sydd yn gorfod adrodd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAAR). Mae hyn wedi effeithio'r gyrff ar yr atodlen yn y Gronfa Bensiwn sydd yn rhan o gyfrifon y Llywodraeth, sef Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'u hysgolion sylfaenol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Gyrfaoedd Cymru Gogledd Orllewin. Gwnaed cais gan ddau o'r cyflogwyr llai am adroddiadau SCR19 hefyd. Mae'r cyflogwyr eraill yn parhau i adrodd yn unol â gofynion SAA102.

Cyfrifo am SCR19 a SAA102

Mae mabwysiadu'r SCR19 neu SAA102 yn golygu bod rhaid i gyflogwyr adnabod yr ased neu ddiffyg net, ynghyd â chronfa bensiynau, yn y fantolen. Rhaid iddynt hefyd gofnodi yn y cyfrif referniw cyfunol y symudiadau yn yr ased neu ddiffyg sy'n perthyn i gynllun buddion diffiniedig.

Adroddiadau SCR19 a SAA102 ar 31/03/2025

Ym mis Mawrth 2025, aethpwyd ati i gasglu'r data angenrheidiol er mwyn i'r Actiwari gael cyfrifo'r wybodaeth SCR19 neu SAA102 unigol ar gyfer cyflogwyr y Gronfa.

Canlyniadau SCR19 a SAA102 fel ar 31/03/2025

Cafodd y cyflogwyr ddewis selio y canlyniadau ar ddychweliadau disgwylledig neu gwir ddychweliadau. Bydd canlyniadau pob cyflogwr yn adlewyrchu eu hamgylchiadau penodol eu hunain. O ganlyniad, dylid ystyried y diweddariad hwn fel arweiniad eglurhaol i'r prif faterion sydd yn effeithio mwyafrif y cyflogwyr, yn hytrach nag esboniad manwl o brofiad pob cyflogwr.

7.6 Cyfrifon Terfynol 2024/25

Archwiliwyd y Cyfrifon Terfynol gan Archwilio Cymru, a cyflwynwyd y fersiwn terfynol yn Adran 9 i'r Pwyllgor Pensiynau ar yr 24^{eg} o Dachwedd 2025.

7.7 Llywodraethu

Gweinyddir y Gronfa o fewn y fframwaith a sefydlwyd drwy statud, sy'n nodi mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Gweinyddu.

Polisiau Llywodraethu

Mae'r Datganiad Polisi Llywodraethu a'r Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu yn nodi arferion llywodraethu'r Gronfa Bensiwn.

<https://www.gwyneddpensionfund.wales/en/Governance/Datganiad-Cydymffurfiaeth-%C3%A2'r-Drefn-Lywodraethol-2023.pdf>

Gellir cael copïau papur gan Delyth Jones-Thomas, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH.

7.8 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau ar ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y Gronfa yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

Mae pob aelod presennol o'r Pwyllgor Pensiynau wedi cwblhau'r LGA Fundamentals, sef cwrs hyfforddi LGPS pwrpasol wedi'i anelu at aelodau i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Mae'r hyfforddiant a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf fel rhan o Bartneriaeth Pensiwn Cymru wedi cynnwys:

Partneriaeth Pensiwn Cymru	Buddsoddiadau wedi'i pŵlio
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Trosolwg o seibr-ddiogelwch ac ystyriaeth ar gyfer PPC
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Polisiau: Buddsoddi Cyfrifol, Hinsawdd a Stiwardiaeth
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Buddsoddi Cyfrifol – Metrig hinsawdd
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Cynnydd cronfeydd pŵlio CPLIL eraill/ cyfleoedd cydweithio
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Unrhyw ddatblygiadau rheoleiddio/canllawiau Newydd
Partneriaeth Pensiwn Cymru	Prosiect Wyddfa

Yn ogystal, mae aelodau'r pwyllgor wedi mynychu nifer o gynadleddau a digwyddiadau sydd wedi gwella eu gwybodaeth ymhellach.

7.9 Uned Buddsoddi

Mae cydweithio wedi bod yn thema bwysig iawn unwaith eto y flwyddyn yma. Hoffwn ddiolch i'r staff o fewn yr Uned Buddsoddi am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn a'r timau yn Hymans Robertson a holl gronfeydd Cymru am eu cydweithrediad parod drwy'r amser.

Delyth Jones-Thomas
Rheolwr Buddsoddi

8. Adroddiad Actiwaraid

Cyffredinol

Mae angen i'r Gronfa fod yn ddigonol i gwrdd â'i hymrwymadau, ac felly mae'r Gronfa yn derbyn prisiant pob tair blynedd i asesu'r sefyllfa. Cafodd y Gronfa ei phrisio ddiwethaf ar 31^{ain} Mawrth 2022 (ar Fawrth 31^{ain} 2019 cyn hynny), ac roedd y cyfraddau newydd yn weithredol o 1af Ebrill 2023. Bydd y prisiad nesaf ar 31 Mawrth 2025 a bydd unrhyw newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr yn weithredol o 1 Ebrill 2026 ymlaen.

Dull a Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd

Y dulliau actiwaraid a ddefnyddiwyd yn y prisiant oedd y "Dull Uned Amcanol" ar gyfer y Gronfa gyfan ac ar gyfer cyflogwyr sy'n parhau i dderbyn aelodau newydd i'r Gronfa a'r "Dull Cyrraedd Oed" ar gyfer cyflogwyr sydd ddim yn derbyn aelodau newydd i'r Gronfa. Roedd y prif ragdybiaethau fel a ganlyn:

	% y flwyddyn
Cyfradd Disgownt	4.1%
Codiadau Cyflog	3.2%
Codiadau pensiwn ac ail-brisio CARE (CPI)	2.7%

Canlyniadau Prisiant 2022

Cwblhawyd y prisiad actiwaraid teirblynyddol fel ar 31 Mawrth 2022 yn ystod 2022/23. Roedd sefyllfa ariannu yr holl Gronfa wedi gwella o 108% ar 31 Mawrth 2019 i 120% ar 31 Mawrth 2022 yn bennaf oherwydd perfformiad buddsoddiadau dros y cyfnod.

Valuation Date	31 March 2022	31 March 2019
Past Service Liabilities	(£m)	(£m)
Employees	1,042	855
Deferred Pensioners	392	321
Pensioners	874	750
Total Liabilities	2,308	1,925
Assets	2,776	2,081
Surplus/(Deficit)	468	156
Funding Level	120%	108%

Mae cynnydd yn y sefyllfa ariannu o £156m i £468m. Gweler y symudiadau yn y tabl isod:

Change in the surplus/deficit position	Assets (£m)	Liabilities (£m)	Surplus / (Deficit) (£m)
Last valuation at 31 March 2019	2,081	1,925	156
Cashflows			
Employer contributions paid in	179	0	179
Employee contributions paid in	56	0	56
Benefits paid out	(192)	(192)	0
Net transfers into / out of the Fund*			
Other cashflows (e.g. Fund expenses)	(5)	0	(5)
Expected changes in membership			
Interest on benefits already accrued	0	238	(238)
Accrual of new benefits	0	255	(255)

Expected investment returns	249	0	249
Membership experience vs expectations			
Salary increases greater than expected	0	17	(17)
Benefit increases greater than expected	0	(26)	26
Early retirement strain (and contributions)	0	4	(4)
Ill health retirement strain	0	(3)	3
Early leavers less than expected	0	(2)	2
Pensions ceasing less than expected	0	0	0
Commutation less than expected	0	0	0
McCloud remedy	0	7	(7)
Other membership experience	0	20	(20)
Changes in market conditions			
Investment returns on the Fund's assets	407	0	407
Changes in future inflation expectations	0	175	(175)
Changes in actuarial assumptions			
Change in demographic assumptions (excl. longevity)	0	(30)	30
Change in longevity assumptions	0	6	(6)
Change in salary increase assumption	0	7	(7)
Change in discount rate	0	(92)	92
This valuation at 31 March 2022	2,775	2,309	468

Cynhyrchodd yr actiwari adroddiad tebygol ar gyfer bob cyflogwr unigol. Cynhaliwyd fforwm ar gyfer yr holl gyflogwyr ym mis Hydref 2022, ble cyflwynodd yr Actiwari'r canlyniadau ac ymateb i gwestiynau. Roedd hwn yn sesiwn ddefnyddiol iawn a mynychodd nifer o'r cyflogwyr.

Cyhoeddwyd Adroddiad Prisiad Actiwaraid 2022 terfynol Cronfa Bensiwn Gwynedd ym mis Mawrth 2023 ac mae ar gael ar safle we'r Gronfa:

<https://www.cronfabensiwnwynedd.cymru/cy/Buddsoddiadau/230328-Gwynedd-Pension-Fund-Final-Valuation-Report.pdf>

Cyfradd Cyfraniadau Cyflogwyr

Caiff yr Amcan Cyfraniadau ei gyflawni drwy osod cyfraniadau cyflogwyr sydd yn debyg i fod yn ddigonol i gwrdd a cost buddiannau newydd cronedig a drwy fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cyllido sydd yn berthynol i'r targed cyllido dros y cyfnod amser cytunedig. Yr amcan eilradd yw cynnal cyfraddau cyflogwyr cymharol sefydlog ble'n bosib.

Er mwyn i bob cyflogwr yn y Gronfa gwrdd â'r Amcan Cyfraniadau, cyfrifwyd cyfradd cynradd er mwyn cyllido cost buddiannau newydd yn y Gronfa. Yn ychwanegol, ble bo'r angen, cyfrifwyd ail gyfradd er mwyn targedu sefyllfa gronol cyflawn o fewn cyfnod amser penodol ar gyfer cyflogwr unigol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r Prif Gyfradd ynghyd a'r Ail Gyfradd ar y prisiad yma.

Prif Gyfradd (% cyflog)	Ail Gyfradd		
I Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2026	2023/24	2024/25	2025/26
21.8%	-£8,746,000	-£9,021,000	-£9,303,000

Bydd y prisiad actiwaraid teirblyneddol nesaf ar 31 Mawrth 2025.

9. Datganiad o'r Cyfrifon 2024/25

Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	24/11/2025
Teitl:	Gweinyddiaeth Pensiynau
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Er gwybodaeth

Diben

Rhoi crynodeb i'r Pwyllgor Pensiynau o'r datblygiadau cyfredol yn nhirwedd weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) a'u goblygiadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y 6 mis diwethaf.

1. Rhwymedigaeth McCloud

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi gwneud **cynnydd sylweddol** o ran gweithredu rhwymedigaeth McCloud, yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys sy'n ei gwneud yn ofynnol i gronfeydd CPLIL unioni gwahaniaethu ar sail oedran mewn amddiffyniadau trosiannol.

Hyd yn hyn, mae'r Gronfa wedi **ail gyfrifo mwyafrif buddion aelodau yr effeithir arnynt**, gan sicrhau bod yr hawliau pensiwn wedi'u cywiro yn adlewyrchu dileu elfennau gwahaniaethol. Mae'r gwaith ail gyfrifo hwn wedi cynnwys dadansoddi data cymhleth a modelu buddion, gan ddangos ymrwymiad y Gronfa i degwch a chydymffurfiaeth.

Mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i **ddiweddaru'r holl gofnodion aelodau gydag oriau hanesyddol, seibiannau mewn gwasanaeth, a manylion cyflogaeth perthnasol eraill** sy'n effeithio ar gyfrifiadau buddion. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau cywirdeb buddion diwygiedig, yn enwedig i aelodau â phatrymau gweithio amrywiol neu hanes gwasanaeth wedi'u torri.

Mae'r Gronfa yn parhau i flaenoriaethu'r prosiect hwn ac mae'n anelu at gwblhau'r diweddariadau sy'n weddill mewn modd amserol, gan sicrhau bod pob aelod yn derbyn y buddion llawn y mae ganddynt hawl iddynt o dan y rhwymedigaeth McCloud.

2. Prisiad Actiwaraid 2025

Cynhaliodd Cronfa Bensiwn Gwynedd ei **Fforwm Cyflogwyr** yn ddiweddar ar **24 Hydref 2025**, lle rhoddodd Actiwari'r Gronfa drosolwg o'r broses brisio. Yn ystod y sesiwn hon, rhannwyd canlyniadau cyflogwyr unigol, gan ganiatáu i gyflogwyr ddeall eu sefyllfa cyllido penodol a'u cyfraddau cyfraniadau.

Cyn y Fforwm Cyflogwyr, cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gyda chyflogwyr sefydlog y Gronfa — sef y tri chyngor, Parc Cenedlaethol Eryri, a Heddlu Gogledd Cymru — i drafod eu canlyniadau prasio yn fanwl.

Mae sefyllfa ariannu'r Gronfa gyfan wedi gwella i 166% (i fyny o 120% yn 2022). Diolch i'r sefyllfa ariannol yma gwelodd y cyflogwyr ostyngiad **yn eu cyfraddau cyfraniadau** o'i gymharu â'r cyfraddau y maent yn eu talu ar hyn o bryd. Croesawyd y gostyngiad hwn gan gyflogwyr, llawer ohonynt yn wynebu pwysau ariannol parhaus a heriau cydbwysu eu cyllidebau.

Bydd y cyfraddau cyfraniadau newydd yn cael eu cadarnhau'n ffurfiol erbyn diwedd mis Mawrth 2026, gyda'r cyfraddau diwygiedig yn dod i rym o **1 Ebrill 2026**.

3. Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau

Nod Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau y llywodraeth yw darparu un platfform ar-lein diogel i aelodau weld eu holl gynilion pensiwn ar draws gwahanol gynlluniau mewn un lle. Mae hyn wedi'i gynllunio i wella tryloywder a helpu aelodau i gynllunio'n well ar gyfer eu hymddeoliad.

O dan y rheoliadau presennol, roedd yn ofynnol i holl gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) **gysylltu â'r ecosystem Dashfwrdd Pensiwn cenedlaethol erbyn 31 Hydref 2025**. Mae hyn yn cynnwys sefydlu cysylltiadau rhannu data diogel a sicrhau bod data pensiwn y gronfa yn gywir, yn gyflawn ac yn barod ar gyfer cyfnewid digidol.

Mae'n bleser gennym gadarnhau bod **Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi cwrdd â'r dyddiad cau hwn** a'i bod bellach yn **profi'r cyswllt data â'r platfform Dashfwrdd**. Mae'r cam profi hwn yn hanfodol i sicrhau trosglwyddiad data llyfn a diogel unwaith y bydd y Dashfwrdd yn gwbl weithredol.

Ar hyn o bryd, mae'r union ddyddiad y bydd y cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r Dashfwrdd i weld eu potiau pensiwn cyfunol ar draws gwahanol gynlluniau yn parhau i fod **yn ansicr**. Mae'r llywodraeth a chyrff diwydiant perthnasol yn parhau i weithio tuag at lansiad cyhoeddus fesul cam, ond nid oes amserlen gadarn wedi'i chyhoeddi eto.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â gofynion y Dashfwrdd a bydd yn rhoi gwybod i aelodau a rhanddeiliaid wrth i ragor o fanylion am fynediad cyhoeddus ac ymarferoldeb ddod ar gael.


4. Ymgynghoriad Gwelliannau i'r cynllun (mynediad ac amddiffyniadau)

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar gyfres o welliannau arfaethedig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru a Lloegr, gan ganolbwyntio ar **fyndiad ac amddiffyniadau** i aelodau. Mae'r cynigion yn cynnwys adfer mynediad i'r cynllun i gynghorwyr a meiri etholedig yn Lloegr, alinio **Isafswm Oedran Pensiwn Arferol y cynllun** â newidiadau cenedlaethol (gan godi o 55 i 57 yn 2028), symleiddio cyfranogiad ar gyfer ymddiriedolaethau aml-academi, a chyflwyno **Bargen Deg newydd** i ddiogelu hawliau pensiwn i staff sy'n cael eu trosglwyddo'n orfodol i ddarparwyr preifat. Nod y newidiadau hyn yw moderneiddio'r cynllun, gwella tegwch, a chryfhau amddiffyniadau aelodau hirdymor.

Bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar **sail Cymru Gyfan**, mewn cydweithrediad â chronfeydd CPLIL eraill Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [wefan Llywodraeth y DU](#).

5. Fy Mhensiwn Ar-lein

Ers mis Ebrill 2024, mae'r Gronfa wedi trosglwyddo'n llwyddiannus i'r **porth Fy Pensiwn Ar-lein** newydd, gan gynnig gwell mynediad i'r aelodau i'w gwybodaeth pensiwn a'u nodweddion hunanwasanaeth. Mae aelodaeth ar y porth yn parhau i dyfu'n raddol **o fis i fis**, gan adlewyrchu mwy o ymgysylltiad ac ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r cynllun.



Chwaraeodd y Gronfa ran allweddol wrth gefnogi **Heywood** i ddatblygu'r **fersiwn Gymraeg** o'r porth. Disgwylir i'r fersiwn hon gael ei chyflwyno i **holl gronfeydd CPLIL Cymru erbyn diwedd y flwyddyn**, gan sicrhau hygyrchedd dwyieithog ar draws y rhanbarth.

Yn fwy diweddar, gwahoddwyd y Gronfa i gynorthwyo Heywood gyda **chyfieithu Cymraeg a datblygu ffurflenni ar-lein**, a fydd yn rhan o welliannau i'r porth yn y dyfodol. Bydd y datblygiadau hyn yn y pen draw yn galluogi aelodau i **gwblhau prosesau ymddeol ar-lein**, gan symleiddio gweinyddiaeth a gwella profiad yr aelodau.

6. Arolwg Boddhad Aelodau Ebrill 2025 – Medi 2025


Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r safon uchaf o wasanaeth i'n haelodau, mae'r Gronfa yn cyhoeddi **Arolwg Boddhad Aelodau** ar ddiwedd prosesau allweddol—megis ymddeoliadau a thaliadau ad-dalu. Mae hyn yn caniatáu i aelodau rannu eu barn ar **ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd a'u profiad gyda staff y Gronfa**.

Cymerodd cyfanswm o **aelodau 58** ran yn yr arolwg rhwng 01/04/2025 a 30/09/2025.

Ansawdd y Gwasanaeth

Mae'r siart isod yn dangos boddhad aelodau ar draws pedwar maes gwasanaeth allweddol:

- Profiad gwasanaeth cyffredinol
- Eglurder y wybodaeth a ddarperir
- Ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd
- Prydlondeb wrth ymdrin ag ymholiadau




Roedd 95.13% **o'r ymatebwyr** naill ai *n cytuno'n gryf* neu'n *cytuno* bod ansawdd y gwasanaeth o safon uchel.

Perfformiad Staff

Mae'r ail siart yn adlewyrchu adborth aelodau ar berfformiad staff, wedi'i fesur ar draws:

- Cwrteisi a phroffesiynoldeb
- Prydlondeb yr ymateb
- Cymorth a chefnogaeth
- Gwybodaeth ac arbenigedd



Unwaith eto, **cytunodd 97.26% o'r ymatebwyr** *yn gryf* neu' *n cytuno* bod perfformiad staff yn bodloni Safon uchel.

7. Datganiadau Buddion Blynyddol

O dan reoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), mae'n ofynnol i awdurdodau gweinyddu gyhoeddi Datganiadau Buddion Blynyddol i aelodau actif a gohiriedig erbyn **31 Awst bob blwyddyn**. Mae'r datganiadau hyn yn rhoi crynodeb clir o'u buddion pensiwn, gan gynnwys hawliau cronedig, buddion ymddeol rhagamcanedig, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall fel effaith newidiadau rheoleiddiol diweddar (e.e. McCloud).

Pwrpas yr datganiad yw helpu aelodau i ddeall eu sefyllfa pensiwn, cynorthwyo gyda chynllunio ymddeol, a bodloni'r safonau tryloywder a llywodraethu a ddisgwyllir gan gronfeydd CPLIL.

Mae'n bleser gennym gadarnhau bod **Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bodloni'r gofynion statudol hyn yn llawn ar gyfer datganiadau 2025**. Cyhoeddwyd datganiadau **diwedd Gorffennaf 2025**, cyn y dyddiad cau, gan sicrhau bod gan aelodau ddigon o amser i adolygu eu buddion.

Cyhoeddwyd mwyafrif y datganiadau **ar-lein trwy'r porth Fy Mhensiwn Arlein**, gan adlewyrchu ymrwymiad parhaus y Gronfa i fynediad digidol a chynaliadwyedd amgylcheddol. Er mwyn cefnogi aelodau i ddeall eu datganiadau, cynhyrchodd y Gronfa hefyd **ganllaw fideo addysgiadol sy'n** esbonio sut i ddehongli'r ffigurau a beth maen nhw'n ei olygu ar gyfer cynllunio ymddeol.

Ar gyfer aelodau a oedd yn ffafrio neu ei angen, argraffwyd **a phostiwyd nifer fach o gopïau papur**, gan sicrhau hygyrchedd i bob aelod waeth beth fo'u dewisiadau digidol.

8. Ansawdd Data

Mae'n ofynnol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) gynnal ac adrodd dau gategori allweddol o ddata: data cyffredin a data cynllun-benodol. Mae data cyffredin yn cynnwys manylion personol hanfodol fel enwau llawn aelodau, dyddiadau geni, rhifau Yswiriant Gwladol, a gwybodaeth cyfeiriad cyfredol. Mae'r data hwn yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol ag aelodau, prosesu buddion cywir, a diogelu rhag twyll neu daliadau anghywir.

Mae data cynllun-benodol, ar y llaw arall, yn ymwneud yn uniongyrchol ag aelodaeth a buddion CPLIL pob aelod. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth fel hanes cyflogaeth, enillion pensiynadwy, cyfraniadau a dalwyd, a manylion sy'n ofynnol i gyfrifo hawliau pensiwn yn gywir. Gyda'i gilydd, mae'r setiau data hyn yn sicrhau bod aelodau'n derbyn y buddion cywir mewn modd amserol a bod yr awdurdod gweinyddu yn cydymffurfio â safonau rheoleiddio.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn perfformio'n dda yn asesiadau ansawdd data TPR, gan adlewyrchu ei hymrwymiad i safonau uchel o reoli data a chadw cofnodion. Fodd bynnag, mae prif her y Gronfa sy'n effeithio ar y sgôr data cyffredin yn deillio o 'gyfeiriadau sydd wedi mynd i ffwrdd' - achosion lle mae aelodau wedi symud ond heb roi gwybod i'r Gronfa am eu cyfeiriad newydd. Mae'r mater hwn yn rhwystro cyfathrebu effeithiol ac yn peri risg o fudd-daliadau neu bensiynau heb eu hawlio i aelodau sydd wedi marw.

I fynd i'r afael â hyn, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi partneru â gwasanaeth olrhain proffesiynol i ddod o hyd i fanylion cyswllt wedi'u diweddarau ar gyfer yr aelodau hyn. Mae'r cydweithrediad hwn eisoes wedi bod yn llwyddiannus wrth adfer llawer o gyfeiriadau newydd, gan ganiatáu i'r Gronfa ailgysylltu ag aelodau a sicrhau bod eu taliadau pensiwn yn

cyrraedd y derbynwyr cyfreithlon. Yn ogystal, mae'r broses hon yn helpu i ganfod ac atal taliadau rhag cael eu gwneud i aelodau sydd wedi marw, gan ddiogelu asedau'r gronfa.

Mae'r Gronfa yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth olrhain ac yn adolygu ei phrosesau rheoli data mewnol yn rheolaidd i wella cywirdeb a chyflawnrwydd data ymhellach. Mae'r ymdrechion hyn nid yn unig yn helpu Cronfa Bensiwn Gwynedd i fodloni gofynion rheoleiddiol ond hefyd i wella ymgysylltiad aelodau a diogelu buddiannau'r aelodau a'r Gronfa.

Mae cynllun gwella data hefyd wedi'i ddatblygu i wella ansawdd ein data ymhellach. Bydd y cynllun hwn yn cael ei drafod fel eitem ar wahân yn y cyfarfod heddiw, gan amlinellu'r camau y bydd y Gronfa yn eu cymryd i barhau i wella cywirdeb a chyflawnrwydd data.

9. Cyfathrebu gyda Aelodau

Dros y chwe mis diwethaf, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi ymgysylltu'n weithredol â'i haelodau drwy ystod o fentrau cyfathrebu sydd wedi'u cynllunio i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fudd-daliadau pensiwn.

Mae swyddogion cronfeydd yn cynnal **cyfarfodydd un-i-un** gydag aelodau yn rheolaidd, naill ai trwy Microsoft Teams neu wyneb yn wyneb, gan ddarparu cymorth personol i helpu aelodau i ddeall eu buddion pensiwn unigol yn well ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi profi'n werthfawr wrth wella hyder a boddhad aelodau.

Yn ogystal, cynhyrchodd y Gronfa **gylchlythyr** a ddosbarthwyd ochr yn ochr â Datganiadau Buddion Blynnyddol 2025. Mae'r cylchlythyr hwn yn darparu diweddariadau pwysig ar gyfer aelodau actif a gohiriedig, gan gwmpasu pynciau allweddol fel newidiadau rheoleiddio, gwelliannau buddion, a mentrau sydd i ddod.

Cymerodd y Gronfa ran hefyd yn **Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam** eleni, gan rannu stondin gyda Chronfa Bensiwn Clwyd. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle gwych i ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau, codi ymwybyddiaeth o'r CPLIL, a meithrin cydweithredu drwy rannu arferion gwaith a phrofiadau gyda swyddogion o Gronfa Bensiwn Clwyd.

Yn y cyfamser, mae'r gwaith yn parhau y tu ôl i'r llenni i **ail ddylunio gwefan y Gronfa**. Nod yr ail-lansio arfaethedig yn y flwyddyn newydd yw darparu gwefan wedi'i hadnewyddu, hawdd ei ddefnyddio gyda gwell llywio a chynnwys estynedig am y cynllun a'i fanteision. Bydd hyn yn cefnogi aelodau ymhellach i gael gafael ar wybodaeth glir a chynhwysfawr am eu pensiynau.

10. Monitro Perfformiad

Mae'r Gronfa yn cydnabod pwysigrwydd monitro perfformiad cadarn i sicrhau darpariaeth effeithlon o wasanaethau gweinyddu pensiynau. Ar hyn o bryd, mae nifer o newidiadau mewnol **yn cael eu gweithredu** i dasgau, llifoedd gwaith a gweithdrefnau fel rhan o raglen ehangach o wella a moderneiddio gwasanaethau.

O ganlyniad i'r newidiadau parhaus hyn, **nid yw data perfformiad cynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd** i'w adrodd. Fodd bynnag, mae'r Gronfa yn dymuno rhoi sicrwydd nad oes **unrhyw arwydd bod perfformiad y gwasanaeth wedi dirywio** yn ystod y cyfnod

pontio hwn. Mae prosesau craidd yn parhau i gael eu cyflawni yn unol â gofynion statudol a disgwyliadau aelodau.

Unwaith y bydd y gweithdrefnau diwygiedig wedi'u hymgorffori'n llawn, bydd y Gronfa yn ailddechrau adrodd perfformiad manwl, gan gynnwys dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), meincnodi a dadansoddi tueddiadau. Bydd hyn yn cefnogi tryloywder, atebolrwydd a gwelliant parhaus yn y dyfodol.

11. Cydymffurfiaeth Llywodraethu

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnal **dadansoddiad cynhwysfawr o fylchau** o'i pholisïau a'i gweithdrefnau llywodraethu i sicrhau parodrwydd llawn ar gyfer y **gofynion Llywodraethu Da** y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno gan yr Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau (DLUHC).

Nod yr adolygiad rhagweithiol hwn yw nodi a mynd i'r afael ag unrhyw feysydd lle gall trefniadau presennol fod yn brin o'r safonau disgwyliedig. Mae'r Gronfa yn asesu ei rheolaethau mewnol, strwythurau gwneud penderfyniadau, fframweithiau rheoli risg, a mecanweithiau adrodd i sicrhau aliniad ag arfer gorau a disgwyliadau rheoleiddio.

Beth yw'r gofynion llywodraethu da?

Mae'r prosiect Llywodraethu Da, dan arweiniad Bwrdd Cyngori'r Cynlluniau (SAB), yn ceisio cryfhau'r safonau llywodraethu ar draws pob cronfa CPLIL. Mae elfennau allweddol y gofynion arfaethedig yn cynnwys:

- **Rôl Uwch Swyddog CPLIL:** Rhaid i bob cronfa ddynodi unigolyn a enwir gyda chyfrifoldeb cyffredinol am weithrediadau CPLIL.
- **Datganiad Llywodraethu Blynyddol:** Bydd angen i gronfeydd gynhyrchu datganiad manwl sy'n amlinellu trefniadau llywodraethu, cydymffurfiaeth a chynlluniau gwella.
- **Gwell Goruchwyliaeth a Thryloywder:** Gwell adrodd i fyrddau a phwyllgorau pensiwn lleol, gyda llinellau atebolrwydd cliriach.
- **Rheoli Risg Cadarn:** Arddangos prosesau adnabod risg, lliniaru a monitro effeithiol.
- **Hyfforddiant a Chymhwysedd:** Sicrhau bod gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a swyddogion wybodaeth a sgiliau priodol i gyflawni eu rolau.

Trwy gynnal y dadansoddiad bwlch hwn, mae'r Gronfa yn gosod ei hun i fodloni'r gofynion hyn yn hyderus ac yn dryloyw. Bydd y canlyniadau yn llywio diweddariadau polisi a chynlluniau hyfforddi yn y dyfodol, gan sicrhau bod y Gronfa yn parhau i gynnal y safonau uchaf o lywodraethu a gwasanaeth aelodau.

Cyfarfod:	Pwyllgor Pensiynau
Dyddiad:	03/11/2025
Teitl:	Cynllun Gwella Data
Awdur:	Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau
Pwrpas:	Er gwybodaeth a thrafodaeth

1. Pwrpas yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Gwella Data arfaethedig ar gyfer y gronfa bensiwn. Mae'n amlinellu amcanion allweddol, heriau data cyfredol, camau gweithredu wedi'u cynllunio, a chanlyniadau disgwylidig. Y nod yw sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod am y dull gweithredu ac yn gallu darparu adborth neu gymeradwyaeth lle bo hynny'n briodol.

2. Cefndir

Mae data cywir a chyflawn yn hanfodol i weinyddu'r cynllun pensiwn yn effeithiol, cydymffurfio â gofynion rheoleiddio, a darparu gwasanaethau aelodau o ansawdd uchel. Mae adolygiadau ac archwiliadau diweddar wedi nodi meysydd lle mae angen gwella ansawdd data, yn enwedig mewn perthynas â data cyffredin a chynllun-benodol.

3. Amcanion y Cynllun Gwella Data

- Gwella cywirdeb, cyflawnrwydd a phrydlondeb data aelodau
- Sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau'r Rheoleiddiwr Pensiynau
- Cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol a rheoli risg
- Gwella profiad aelodau a lleihau gwallau gweinyddol
- Paratoi ar gyfer prosiectau yn y dyfodol fel y dashfwrdd pensiynau a phrisiad y gronfa

4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- Nodi cynnwys y Cynllun Gwella Data
- Rhoi adborth ar y dull arfaethedig
- Cymeradwyo fframwaith gweithredu a monitro'r cynllun



Cronfa Bensiwn **GWYNEDD** Pension Fund

Cynllun Gwella Data

1. Crynodeb Gweithredol

Mae data cywir a chyflawn yn hanfodol ar gyfer gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn effeithiol. Mae'n sicrhau bod aelodau'n derbyn eu buddion cywir yn brydlon, yn cefnogi cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, ac yn hwyluso cyfathrebu clir â chyflogwyr ac aelodau.

Mae'r Cynllun Gwella Data hwn yn amlinellu dull strategol y Gronfa o nodi ac ymateb i faterion ansawdd data, gan ganolbwyntio ar wella data Cyffredin a data Penodol i'r Cynllun yn unol â safonau a osodwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP).

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol mae glanhau cofnodion anghywir, gwella cyflwyniadau data gan chyflogwyr, ailgysylltu ag aelodau sydd wedi gohirio, a pharatoi ar gyfer y Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau. Bydd cynnydd yn cael ei olrhain yn erbyn cerrig milltir a therfynau amser clir, gyda goruchwyliaeth gan y Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Pwyllgor Pensiwn i sicrhau atebolrwydd.

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i gynnal safonau data uchel er mwyn cefnogi effeithlonrwydd hirdymor y cynllun, cydymffurfiaeth reoleiddiol, a hyder aelodau.

2. Cyflwyniad

Mae data cywir, cyflawn ac amserol yn sylfaen ar gyfer gweinyddu pensiwn yn effeithiol. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol nid yn unig ar gyfer bodloni gofynion rheoleiddiol ond hefyd ar gyfer darparu gwasanaethau dibynadwy i aelodau'r cynllun a chyflogwyr. Mae cynnal data rhagorol yn lleihau ymyriadau â llaw, yn lleihau'r risg o wallau, yn amddiffyn rhag twyll, ac yn meithrin ymddiriedaeth ymhlith yr holl randdeiliaid.

Mae'r Cynllun Gwella Data hwn yn manylu ar y mathau allweddol o ddata a gynhelir gan y Gronfa, yn amlygu pwysigrwydd cywirdeb data, ac yn amlinellu dull clir a strwythuredig o wella ansawdd data.

Mae cynnal safonau data uchel yn cefnogi:

- Taliad cywir ac amserol o fuddion aelodau.
- Cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys safonau'r Rheoleiddiwr Pensiynau a'r rhwymedi McCloud.
- Paratoad ar gyfer y Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau, a fydd yn galluogi aelodau i weld eu holl hawliau pensiwn mewn un lle.
- Prisiad actiwaraid manwl a chyfrifiadau cyllido.
- Meithrin a chynnal hyder gyda chyflogwyr ac aelodau.

Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli ymrwymiad parhaus i ragoriaeth data a llywodraethu effeithiol o'r gronfa bensiwn, yn hytrach na ymarfer un-tro.

3. Amcanion

Amcanion gwella data'r Gronfa yw:

- Nodi a chywiro gwallau sy'n effeithio ar gofnodion aelodau yn rhagweithiol.
- Cyrraedd a chynnal cydymffurfiaeth lawn â gofynion cadw cofnodion y Rheoleiddiwr Pensiynau.
- Cefnogi gweithredu newidiadau rheoleiddiol, gan gynnwys rhwymedi McCloud a chysylltiad â'r Dashfwrdd Pensiynau.
- Meithrin diwylliant o wella data'n barhaus o fewn y Gronfa ac ymhlith pob cyflogwr.
- Gwella cywirdeb a gallu archwilio data drwy ailgynllunio prosesau a gwelliannau i systemau.

4. Mathau o Ddata a'u Pwysigrwydd

Mae data o ansawdd uchel ar draws y categorïau canlynol yn hanfodol ar gyfer gweinyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn gywir:

- **Manylion Personol Aelodau:** Yn cynnwys enw, dyddiad geni, a rhif Yswiriant Gwladol. Mae data personol cywir yn atal cofnodion dyblyg, yn sicrhau adnabod cywir o aelodau, ac yn cefnogi cyfrifiadau pensiwn manwl.
- **Manylion Cyswllt:** Cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn cyfredol sy'n galluogi dosbarthu datganiadau buddion, cylchlythyrau a chyfathrebiadau eraill yn brydlon, gan wella ymgysylltiad aelodau a chydymffurfiaeth.
- **Cofnodion Cyflogaeth a Gwasanaeth:** Gwybodaeth am gyflogwyr, dyddiadau dechrau a gorffen cyflogaeth, a statws cyflogaeth sy'n sicrhau cronni pensiwn cywir ac olrhain cyfraniadau.
- **Data Cyfraniadau a Thâl:** Cofnodi'n gywir tâl pensiynadwy, cyfraddau cyfraniadau, a thaliadau gan gyflogwyr sy'n diogelu hawliau aelodau ac yn sicrhau lefelau buddion cywir.
- **Manylion Banc a Thaliadau:** Gwybodaeth banc gyfredol sy'n sicrhau bod taliadau pensiwn yn cael eu gwneud yn brydlon ac yn ddiogel.
- **Gwybodaeth am Ddibynnyddion a Buddiolwyr:** Cofnodion cyfredol o fuddiolwyr a enwebwyd sy'n gwarantu bod buddion marwolaeth mewn gwasanaeth a goroeswyr yn cael eu talu i'r unigolion cywir.
- **Cydymffurfiaeth ac Olrhain Archwiliadau:** Logio cynhwysfawr o newidiadau data, awdurdodiadau, a mynediad sy'n cefnogi llywodraethu, cydymffurfiaeth reoleiddiol, a rheoli risg.

Mae cynnal ansawdd data ar draws yr holl feysydd hyn yn diogelu hawliau aelodau, yn cefnogi effeithlonrwydd gweithredol, ac yn atgyfnerthu ymddiriedaeth yn llywodraethu'r Gronfa.

5. Gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau (YRP) yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau pensiwn adrodd sgoriau ansawdd data blynyddol ar gyfer data cyffredin a data penodol i'r cynllun.

- Mae **Data Cyffredin** yn cynnwys dynodwyr craidd aelodau megis rhif Yswiriant Gwladol, enw llawn, rhywedd, dyddiad geni, cyfeiriad (gan gynnwys cod post), a statws yr aelod.

- Mae **Data Penodol i'r Cynllun** yn cwmpasu gwybodaeth benodol i'r CPLIL megis manylion cyflogwr, cyflog, hanes gwasanaeth, tâl CARE, AVCs, data GMP, a digwyddiadau crisialu buddion.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r camau y bydd Cronfa Bensiwn Gwynedd yn eu cymryd i wella ansawdd data, gan ganolbwyntio ar gyrraedd ac uwchlaw safonau sgoriau data yRP. Mae data o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer cyfrifiadau buddion cywir, cyfathrebu effeithiol, a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

6. Asesiad Presennol o Ansawdd Data

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnal asesiadau rheolaidd o ansawdd data i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â safonau cadw cofnodion y Rheoleiddiwr Pensiynau (yRP) ac i fonitro uniondeb data.

I gefnogi hyn, mae'r Gronfa yn defnyddio'r teclyn Insights gan Heywood—datrysiaid dadansoddeg arbenigol a gynlluniwyd i asesu data Cyffredin a data Penodol i'r Cynllun. Mae'r teclyn hwn yn nodi bylchau, anghysondebau a gwallau yng nghofnodion aelodau gyda lefel uchel o gywirdeb ac yn olrhain gwelliannau dros amser.

Categoriâu Data a Aseswyd

Fel y'u diffiniwyd gan yRP, caiff y data ei gategoreiddio fel a ganlyn:

- **Data Cyffredin:** Dynodwyr allweddol megis enw, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, rhywedd, cyfeiriad a statws.
- **Data Penodol i'r Cynllun:** Manylion penodol i'r CPLIL gan gynnwys gwybodaeth am gyflogwyr, cyflog, hanes gwasanaeth, tâl CARE, AVCs, data GMP, a digwyddiadau crisialu buddion.

Asesiad Diweddaraf

Mae'r asesiad diweddaraf o ansawdd data, a gwblhawyd gan ddefnyddio teclyn Insights Heywood ym mis Hydref 2025, yn dangos sgoriau data cyfredol y Gronfa fel a ganlyn:

- **Sgôr Data Cyffredin:** 97.3%
- **Sgôr Data Penodol i'r Cynllun:** 96.95%

Mae'r sgoriau hyn yn cynrychioli canran y cofnodion aelodau sy'n gyflawn ac yn gywir, yn seiliedig ar y rheolau dilysu o fewn y teclyn Insights.

Mae'r canlyniadau hyn wedi llywio'r camau gweithredu wedi'u targedu a amlinellir yn Adran 7, gan ganolbwyntio ar eitemau data sydd â'r effaith fwyaf ar gyfrifiadau buddion, cyfathrebu ag aelodau, ac adrodd rheoleiddiol.

Bydd y Gronfa yn parhau i ddefnyddio teclyn Insights Heywood i fonitro cynnydd a sicrhau gwelliannau mesuradwy flwyddyn ar ôl blwyddyn.

7. Camau wedi'u Targedu

Yn seiliedig ar yr asesiad diweddaraf a gynhaliwyd drwy declyn Insights Heywood, mae'r Gronfa wedi blaenoriaethu sawl maes allweddol ar gyfer gwella data wedi'i dargedu. Mae'r camau hyn yn canolbwyntio ar wella cywirdeb cyfrifiadau buddion, cyfathrebu ag aelodau, a pharodrwydd ar gyfer newidiadau rheoleiddiol megis ateb McCloud a Rhaglen Dashfwrdd Pensiynau.

Blaenoriaethau Allweddol

- Cywiro cofnodion data coll neu annilys (e.e., rhifau Yswiriant Gwladol dros dro, cyfeiriadau anghyflawn).
- Ymateb i faterion data penodol i'r cynllun sy'n ymwneud â hanes gwasanaeth, trosglwyddiadau, data GMP, a thranſiau buddion.
- Ailgysylltu ag aelodau sydd wedi gohirio ac nad yw eu manylion cyswllt yn ddilys bellach.
- Cydweithio'n agos â chyflogwyr i wella cywirdeb a phrydlondeb cyflwyniadau data misol.
- Datblygu ac olrhain adroddiadau eithriadol sy'n amlygu gwallau cyffredin wrth fewnbynnu data yn y system.
- Cynnal sgrinio marwolaeth rheolaidd ar gyfer aelodau sydd wedi gohirio ac pensiynwyr i sicrhau bod cofnodion yn parhau'n gywir.

Dull Gweithredu

Mae pob mater data a nodwyd wedi cael ei asesu a'i neilltuo i gamau cywiro, amserlenni, a chyfrifoldebau penodol. Mae'r Gronfa yn blaenoriaethu materion sydd ag effaith uniongyrchol ar gyfrifiadau a thaliadau buddion aelodau.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy adolygiadau mewnol, ymgysylltu parhaus â chyflogwyr, a dilysu data dilynol gan ddefnyddio teclyn Insights Heywood. Lle bo angen, bydd gwasanaethau olrhain proffesiynol a chefnogaeth gan drydydd partïon yn cael eu defnyddio i ddatrys achosion cymhleth.

Y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn 2025–26 yw:

Data cyffredin

Problem gyda'r data	Nifer o achosion	Cam Gweithredu	Dyddiad Cwblhau	Statws
Aelod â Rhif Yswiriant Gwladol Dros Dro	22	Cysylltu ag aelodau i ofyn am Rif YG	31-12-2025	Ar y gweill
Dangosydd "Wedi Symud" ar gofnod aelod	867	Olrhain cyfeiriad yr aelod	31-12-2025	Ar y gweill

Nodyn: Mae'r Gronfa yn dibynnu ar aelodau i ddiweddarau eu manylion cyswllt, sy'n gallu bod yn heriol, yn enwedig ar gyfer aelodau sydd wedi gohirio. Disgwylir i gyflwyno'r Dashfwrdd Pensiynau wella'r broses o ailgysylltu ag aelodau. Yn y cyfamser, defnyddir gwasanaethau olrhain proffesiynol i ddod o hyd i aelodau sydd â gwybodaeth gyswllt sydd wedi dyddio.

Data Penodol i'r Cynllun

Problem gyda'r data	Nifer o achosion	Cam gweithredu	Dyddiad Cwblhau	Statws
Manylion ysgariad Dyddiad talu neu Debyd Pensiwn ar goll	1	Diweddarau'r manylion ysgariad	31/03/2026	Ar y gweill
Manylion Trosglwyddo i mewn Dyddiad derbyn yn wag neu gwerth y trosglwyddiad yn wag (dim ond ar gyfer aelodau)	107	Diweddarau'r manylion trosglwyddo	31/03/2026	Ar y gweill

actif / ymadawyr heb benderfynu ac aelodau gohiriedig coll)				
Elfennau o Fuddion Gohiriedig Gwreiddiol Pensiwn cychwynnol ar gyfer aelod gohiriedig yn llai na £1	108	Gwirio'r cofnodion i sicrhau bod symiau pensiwn yn gywir	31/03/2026	Ar y gweill
Elfennau o gofnodion Pensiwn Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn lai na £1. Dyddiad cynnydd pensiwn yn gynharach na'r dyddiad cyfrifiad Cynyddiad Pensiwn	25	Gwirio'r cofnodion i sicrhau bod pensiwn Cyfartaledd Gyrfa yn gywir a gwirio'r dyddiadau Cynnydd Pensiwn	31/03/2026	Ar y gweill
Cyfanswm Buddion Gohiriedig Gwreiddiol Gwerth ar goll yn y Pensiwn Cychwynnol	5	Diweddaru'r sgrin Buddion Gohiriedig	31/03/2026	Ar y gweill
Data Cyfartaledd Gyrfa Data Cyfartaledd Gyrfa ar goll am rai blynyddoedd	22	Gwirio'r cofnodion. Efallai fod rhai yn achosion dilys, lle mae'r aelod yn weithiwr achlysurol ac nad yw wedi cael Data Cyfartaledd Gyrfa am rai blynyddoedd.	31/03/2026	Ar y gweill
BCE2 Dyddiad crisialu yn ddyddiad annilys neu'n gynharach na'r dyddiad gadael	2	Diweddaru'r dyddiad Crisialu	31/03/2026	Ar y gweill
BCE6 Dyddiad crisialu yn ddyddiad annilys neu'n gynharach na'r dyddiad gadael	661	Diweddaru'r dyddiad Crisialu	31/03/2026	Ar y gweill
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol / Hanes Enillion Hanes Cyfraniadau Yswiriant Gwladol / Enillion ar goll	6,237	Diweddaru Cyfraniadau/ Hanes Enillion YG	31/03/2026	Ar y gweill
GMP Cyn-1988 GMP Cyn-1988 ar goll	80	Diweddaru'r GMP Cyn-88	31/03/2026	Ar y gweill
GMP Ôl-1988 GMP Ôl-1988 ar goll	393	Diweddaru'r GMP Ôl-88	31/03/2026	Ar y gweill

8. Llywodraethu a Goruchwyliaeth

Mae gweithredu llwyddiannus y Cynllun Gwella Data hwn yn dibynnu ar lywodraethu clir ac atebolrwydd pendant:

- **Rheolwr Pensiynau:** Yn darparu goruchwyliaeth strategol o weithgareddau gwella data.
- **Arweinydd Tîm Systemau:** Yn arwain cyflawniad dydd-i-ddydd y camau cywiro.

- **Cyflogwyr:** Yn gyfrifol am gyflwyno data cywir ac amserol drwy ddychweliadau misol.
- Bwrdd Pensiwn Lleol a'r Pwyllgor Pensiwn: Yn darparu goruchwyliaeth annibynnol, herio, a monitro perfformiad ansawdd data.

Bydd diweddariadau cynnydd rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Pensiwn Lleol ac yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau llywodraethu blynyddol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

9. Ymgysylltu â Chyflogwyr

Mae cyflogwyr yn bartneriaid hanfodol wrth gynnal data o ansawdd uchel, gan mai nhw yw'r prif ffynhonnell gwybodaeth am aelodau.

Mae Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr y Gronfa yn canolbwyntio ar gydweithio drwy:

- Cyflwyniadau data misol drwy blatfform ar-lein (i-Connect).
- Adrodd rheolaidd ar wallau a chardiau sgorio ansawdd data blynyddol.
- Sesiynau hyfforddi wedi'u teilwra a chymorth un-i-un.
- Monitro perfformiad data cyflogwyr ac esgyn materion parhaus lle bo angen.

Mae'r dull hwn yn sicrhau bod cyflogwyr yn cael cefnogaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau, tra'n atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodion aelodau cywir ac amserol.

10. Adolygu a Gwelliant Parhaus

Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i adolygu a gwella prosesau ansawdd data yn barhaus:

- Bydd y Cynllun Gwella Data yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Gwneir diweddariadau i fynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg ac i fanteisio ar gyfleoedd newydd.
- Ceir adborth yn weithredol gan rhanddeiliaid i fireinio arferion rheoli data.

11. Casgliad

Drwy ddilyn y cynllun hwn, mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn anelu at wella ansawdd data yn sylweddol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol a gwella'r profiad cyffredinol i aelodau a chyflogwyr.

12. Manylion Cyswllt

Am unrhyw gwestiynau neu ragor o wybodaeth am y cynllun gwella data, cysylltwch â:

- Rheolwr Cronfa Bensiwn: Meirion Jones - MeirionJones2@gwynedd.llyw.cymru
- Arweinydd Tîm Systemau: Owain Pritchard – OwainHughPritchard@gwynedd.llyw.cymru